Adroddiad

# Defnyddio PISA 2018 i lywio polisi: Dysgu gan Weriniaeth Iwerddon

Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (NFER)

# Defnyddio PISA 2018 i lywio polisi: Dysgu gan Weriniaeth Iwerddon

Neal Hepworth
Maria Galvis
Geeta Gambhir
Juliet Sizmur

Cyhoeddwyd yn Mai 2021

Gan Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg,

The Mere, Upton Park, Slough, Berkshire SL1 2DQ

NFER

© 2021 Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg
Rhif Elusen Gofrestredig 313392

**ISBN: 978-1-912596-42-3**

**Sut i ddyfynnu'r cyhoeddiad hwn:**
Hepworth, N., Galvis, M., Gambhir, G., & Sizmur, J. (2021). *Defnyddio PISA 2018 i lywio polisi: Dysgu gan Weriniaeth Iwerddon.* Slough: NFER.

# Cynnwys


Rhestr Ffigurau 1

Cydnabyddiaeth 2

Crynodeb Gweithredol 3

1 Cyflwyniad 6

1.1 Cefndir yr astudiaeth 8

1.2 Sut mae perfformiad yn PISA wedi newid dros amser yng ngwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon? 9

2. Cefndir polisi ar draws gwledydd y DU 16

2.1 Lloegr 16

2.1.1 Hanes polisi 16

2.1.2 Canfyddiadau o effaith 19

2.2 Yr Alban 23

2.2.1 Hanes polisi 23

2.2.2 Canfyddiadau o effaith 24

2.3 Cymru 26

2.3.1 Hanes polisi 26

2.3.2 Canfyddiadau o effaith 28

2.4 Gogledd Iwerddon 29

2.4.1 Hanes polisi 29

2.4.2 Canfyddiadau o effaith 32

3 Safbwyntiau Gweriniaeth Iwerddon 34

3.1 Cefndir polisi yng Ngweriniaeth Iwerddon 34

3.1.1 Cyflwyno Cyfle Cyfartal mewn Ysgolion 34

3.1.2 Gwerthusiadau o DEIS 36

3.1.3 Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd 39

3.1.4 Adolygiad o'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd 41

3.1.5 Cychwyn Cynnar (Early Start) a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg 42

3.2 Safbwyntiau ar weithredu polisi gan addysgwyr ac arbenigwyr polisi o Weriniaeth Iwerddon 44

3.2.1 Llunio polisi integredig ac ymreolaeth i randdeiliaid 44

3.2.2 Diwygio datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant athrawon 45

3.2.3 Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned leol 47

3.2.4 Cydweithio ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol 48

3.2.5 Agwedd ddiwylliannol tuag at ysgol a darllen 49
3.2.6 Hanes hir o bolisi gyda'r nod o fynd i'r afael ag anfantais 49
4 Trafodaeth 51
5 Casgliadau a chanfyddiadau allweddol 61
5.1 Casgliadau 61
5.2 Canfyddiadau allweddol y gellid eu cymhwyso'n ehangach 62
Cyfeiriadau 65
Darllen Pellach 71
Atodiad 1 - 'gostyngiad' PISA 2009 yng Ngweriniaeth Iwerddon 72
Atodiad 2 - Ystyr lefelau hyfedredd a sgoriau graddfeydd PISA 73
Atodiad 3 - Yr arolwg 78
Atodiad 4 - Trosolwg o bolisi: DU a Gweriniaeth Iwerddon 82
Atodiad 5 - Cywerthedd oedran a blwyddyn ysgol disgyblion yng ngwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon 87

# Rhestr Ffigurau

Ffigur 1: Sgoriau darllen PISA dros amser 2006 – 2018 .... 10
Ffigur 2: Canran y disgyblion ar bob lefel hyfedredd darllen PISA – yn 2018 .... 11
Ffigur 3: Tueddiadau yn y cyfrannau o ddisgyblion sy'n gweithio ar y lefelau hyfedredd isaf ac uchaf mewn darllen PISA .... 12
Ffigur 4: Sgoriau mathemateg PISA dros amser 2006 – 2018 .... 14
Ffigur 5: Sgoriau gwyddoniaeth PISA dros amser 2006 – 2018 .... 15

# Cydnabyddiaeth


- Hoffai'r awduron ddiolch i'r holl gydweithwyr polisi a chynrychiolwyr llywodraethau a gwblheuodd holiaduron yng Nghymru, Lloegr, Gogled Iwerddon a Gweriniath Iwerddon.

- Hoffem ddiolch hefyd i Dr Jude Cosgrove a chydweithwyr uwch o Ganolfan Ymchwil Addysg, Drumcondra, Dulyn a Changen Arolygu'r Adran Addysg, am rannu o'u hamser a'u profiad eang er mwyn rhoi mewnbwn i'n cyfweliadau, adolygu dogfennau a chynnig gwybodaeth fanwl ar bolisi a gweithrediad yng Ngweriniaeth Iwerddon.

- Gyda diolch hefyd i Sigrid Boyd a Maureen Heron (Tîm Gwybodaeth NFER) am lunio'r cefndir polisi perthnasol ar gyfer y DU (Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon) a Gweriniaeth Iwerddon.

# Crynodeb Gweithredol

Mae gan Weriniaeth Iwerddon hanes o sgoriau darllen uchel yn y Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA), ac mae'n wlad sy’n debyg mewn sawl ffordd yn ddiwylliannol i bedair gwlad y DU (Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon). Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar bolisi darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon, gan ddefnyddio data o PISA, adolygiadau polisi, arolygon a chyfweliadau â rhanddeiliaid polisi allweddol i archwilio'r hyn y gellir ei ddysgu gan y DU.

## Sut mae perfformiad darllen PISA Gweriniaeth Iwerddon yn cymharu â gwledydd y DU?

Yn PISA 2018, cyflawnodd disgyblion 15 oed yng Ngweriniaeth Iwerddon sgoriau arwyddocaol uwch ar gyfer llythrennedd darllen na'u cymheiriaid yn y DU. Roedd y patrwm o gyflawniad uwch yn gyson ar draws holl brosesau gwybyddol darllen PISA, sef canfod, deall a gwerthuso, p'un a oeddent yn darllen testunau sengl neu luosog, heb unrhyw wlad yn dangos cryfderau na gwendidau penodol.

O'i chymharu â'r pedair gwlad arall, roedd gan Weriniaeth Iwerddon gyfran lai o ddisgyblion yn gweithio ar y lefelau hyfedredd darllen PISA isaf, tra bod ganddi hefyd gyfran uchel yn gweithio ar y lefelau uwch.

## Sut mae perfformiad darllen PISA wedi newid dros amser yng ngwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon?

Ac eithrio yn 2009, mae Gweriniaeth Iwerddon wedi sgorio'n arwydocaol uwch na gwledydd y DU ym maes llythrennedd darllen PISA er 2006. Mae ymchwilwyr yng Ngweriniaeth Iwerddon yn ystyried ei pherfformiad yn 2009 yn anghyson. Mae sgoriau darllen ym mhedair gwlad y DU wedi aros yn sefydlog er 2006, a'r unig eithriad yw gostyngiad yn yr Alban yn 2015. Nid oes yr un o'r pum gwlad yn yr astudiaeth hon wedi gwella ei sgôr darllen yn arwyddocaol o gymharu â PISA 2006.

Mae Gweriniaeth Iwerddon yn gyson wedi gweld cyfran arwyddocaol is o ddisgyblion yn perfformio islaw'r meincnod llythrennedd sylfaenol, Lefel 2 PISA, nag yng ngwledydd y DU. Roedd ganddi hefyd gyfrannau cymharol uchel o ddisgyblion sy'n cyflawni'r lefelau hyfedredd uchaf. Yn PISA 2018, roedd gan Loegr gyfran debyg o ddisgyblion uchel eu cyflawniad â Gweriniaeth Iwerddon ond, fel pob gwlad arall yn y DU, roedd ganddi ganran uwch o ddisgyblion ar y lefelau isaf hefyd.

## Beth yw'r polisïau allweddol sydd â'r nod o gynyddu perfformiad darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon?

Nododd ein hadolygiad polisi ac arolwg lawer o bolisïau ar draws y pum gwlad a ddyluniwyd i wella cyrhaeddiad darllen carfan PISA 2018 yn y pum gwlad.

Yng Ngweriniaeth Iwerddon, nodwyd dwy fenter bolisi fawr gan arbenigwyr polisi fel y prif reswm dros welliant darllen: Delivering Equality of Opportunity in Schools (DEIS, ynganir fel 'desh', sef y gair Gwyddeleg am 'gyfle') a lansiwyd yn 2005, a'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd ar gyfer Dysgu a Bywyd 2011-2020.

Cyflwynwyd DEIS pan oedd carfan PISA 2018 rhwng dwy a thair oed ac fe'i cynlluniwyd i adeiladu ar ac integreiddio polisïau blaenorol sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion difreintiedig mewn un polisi. Mae llawer o'r mentrau polisi blaenorol a gynhwysir yn DEIS, megis y rhaglen Cysylltu Cartref Ysgol a Chymuned wedi bodoli ar ryw ffurf ers yr 1980au. Mae'r cynllun yn nodi ac yn targedu polisïau mewn ystod o ysgolion gwledig a threfol yr ystyrir eu bod fwyaf difreintiedig, gan ddarparu ystod o ymyriadau sydd ar gael, gan gynnwys cymorth llythrennedd a rhifedd ychwanegol, gwasanaethau datblygiad proffesiynol athrawon a chyllid ychwanegol, y gall ysgolion ddewis rhai ohonynt a'u gweithredu yn ôl eu disgresiwn.

Cyflwynwyd y Strategaeth Genedlaethol yn 2011 ac mewn sawl ffordd roedd yn ymateb i ostyngiad 2009 ym mherfformiad PISA. Roedd yn cynnwys chwe phrif biler yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhieni a'r gymuned, diwygiadau i addysgu a hyfforddiant athrawon, ffocws ar arweinyddiaeth, newidiadau i'r cwricwlwm, ymdrechion i fynd i'r afael ag anfantais addysgol, a newidiadau i asesu a gwerthuso mewn ysgolion. Yn bwysig, mae'r blaenoriaethau yn y Strategaeth Genedlaethol hefyd yn gysylltiedig â newidiadau polisi blaenorol, gan gynnwys DEIS, ac yn adeiladu arnynt.

Mae archwilio cost gweithredu'r mentrau hyn mewn perthynas â pholisïau cyfatebol yng ngwledydd y DU y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn a oedd yn canolbwyntio ar gynnwys y polisïau yn unig.

## Beth fu effaith polisïau sydd â'r nod o gynyddu cyrhaeddiad darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon?

Mae gwerthusiadau o DEIS gan lywodraeth Gweriniaeth Iwerddon a sefydliadau ymchwil addysgol wedi canfod ei fod wedi cynyddu sgoriau asesu darllen mewn ysgolion cynradd cofrestredig a phresenoldeb ym mron pob ysgol gynradd a hanner yr ysgolion ôl-gynradd. Mae dadansoddiadau hydredol wedi cofnodi bod y bwlch rhwng DEIS ac ysgolion nad ydynt yn DEIS wedi culhau ychydig, ond i raddau arwyddocaol, ar lefel ôl-gynradd hefyd. Gwnaeth adolygiad interim o'r Strategaeth Genedlaethol (2017) nodi'r gwelliannau arwyddocaol cyntaf mewn sgoriau profion darllen mewn bron i 30 mlynedd.

Yn ein cyfweliadau, nododd arbenigwyr polisi o Weriniaeth Iwerddon resymau allweddol dros lwyddiant DEIS a'r Strategaeth Genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys: llunio polisi integredig, ymreolaeth bellach i ysgolion ac athrawon, diwygio datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant athrawon, ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned leol, cydweithredu ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol, diwylliant ehangach o ddarllen a chefnogaeth ar gyfer addysg, a hanes o bolisi sy'n mynd i'r afael ag anfantais.

Serch hynny, mae sgoriau darllen PISA wedi bod yn uwch nag yng ngwledydd y DU ers 2006, ag eithrio y gostyngiad yn 2019 a drafodwyd eisoes. Efallai bod y gwahaniaeth hir ei barhad hwn yn amlygu pwysigrwydd polisïau sy wedi bod mewn grym ers cyfnod hirach a/neu ffactorau eraill, megis effaith gwahaniaethau diwylliannol.

## A yw'r ffactorau sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad darllen da yn PISA wedi newid er 2009?

Yn gyffredinol, roedd y ffactorau sy'n gysylltiedig â chyflawniad darllen uwch yn debyg ar gyfer Gweriniaeth Iwerddon a gwledydd y DU, ac nid oeddent wedi newid er 2006. Fodd bynnag, roedd rhai ffactorau sy'n ymwneud â chyrhaeddiad darllen uwch oedd yn wahanol ar gyfer disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon o'u cymharu â disgyblion y DU. Fe wnaethant adrodd mwy o fwynhad o ran darllen, dyheadau uwch ar gyfer y dyfodol (er bod hyn yn debyg i ddisgyblion yn Lloegr) a bod ganddynt fwy o eiddo diwylliannol yn eu cartrefi, megis llenyddiaeth glasurol, gweithiau celf neu offerynnau cerdd.

### A oes gwersi y gellir eu cymhwyso'n ehangach?

Mae'r canlynol yn tynnu ar ganfyddiadau allweddol o adolygiad data a pholisi PISA 2018:

- dull o ymdrin â pholisi sy'n gwerthfawrogi parhad a dull o ddatblygu polisi sy'n integreiddio polisïau presennol i fentrau newydd
- polisïau sy'n adeiladu diwylliant cydweithredol rhwng ysgolion, teuluoedd a chymunedau lleol
- cynnwys adolygu, gwerthuso a mesurau llwyddiant yn y broses o greu polisi
- ffocws parhaus ar nodi a chefnogi disgyblion ar ben isaf y dosbarthiad cyrhaeddiad
- gwaith pellach i archwilio elfennau allweddol diwygio hyfforddiant athrawon a DPP yng Ngweriniaeth Iwerddon.

# 1 Cyflwyniad

Mae'r Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol (PISA) yn asesu hyfedredd pobl ifanc 15 oed mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth ynghyd â chasglu cyfoeth o wybodaeth gefndir o holiaduron disgyblion ac ysgolion. Yn 2018, cymerodd 79 o wledydd ran yn PISA. PISA 2018 oedd yr arolwg cyntaf ers PISA 2009 i ganolbwyntio'n benodol ar lythrennedd darllen, gan ddarparu cyfle unigryw i adolygu tueddiadau mewn perfformiad darllen dros amser. Mae Gweriniaeth Iwerddon, er ei bod yn ddiwylliannol debyg i wledydd y DU mewn sawl ffordd, wedi sgorio'n uwch yn gyson na gwledydd y DU mewn darllen ac fe wnaeth hynny eto yn PISA 2018.

Mae'r gymhariaeth o gyrhaeddiad darllen ar draws gwledydd yn amserol iawn ac yn werthfawr i amrywiol randdeiliaid yn y sector. Mae defnyddio data cyd-destunol a chyrhaeddiad PISA, gyda'i ffocws cymhwysol, yn sicrhau bod datblygu llythrennedd darllen yn cael ei fframio fel maes y mae pob athro ôl-gynradd yn gyfrifol amdano. Yn hytrach na chael ei gyflwyno fel un pwnc arholiad, mae PISA yn cysyniadu llythrennedd darllen fel sgil bywyd, sy'n berthnasol ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach a dysgu gydol oes. Erbyn i ddisgyblion adael yr ysgol gynradd, mae llawer yn tybio nad oes angen dysgu darllen i'r mwyafrif helaeth o ddisgyblion; ond gwyddom fod llythrennedd swyddogaethol yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yn y gweithle ac addysg bellach a hyfforddiant. O'r herwydd, dylid bob amser ystyried ffocws ar ddatblygu galluoedd darllen disgyblion fel blaenoriaeth bwysig mewn addysg ôl-gynradd fel y mae yn yr ysgol gynradd, a thrwy hynny sicrhau bod disgyblion yn gadael yr ysgol gydag o leiaf y sgiliau llythrennedd sylfaenol sydd eu hangen arnynt i'w harfogi am oes.

Mae'r astudiaeth hon yn taflu goleuni ar yr hyn sydd wedi cyfrannu at y perfformiad llythrennedd darllen parhaus yng Ngweriniaeth Iwerddon fel gwlad sy'n debyg yn ddiwylliannol i bedair gwlad y DU. Rydym yn canolbwyntio ar bolisi darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon, gan ddefnyddio data PISA, adolygiadau polisi, arolygon a chyfweliadau â rhanddeiliaid polisi allweddol, er mwyn ateb y pum cwestiwn canlynol gyda'r bwriad o ddarparu tystiolaeth i lywio a chefnogi polisi'r dyfodol:

1. Sut mae perfformiad darllen PISA Gweriniaeth Iwerddon yn cymharu â gwledydd y DU?
2. Sut mae perfformiad darllen PISA wedi newid dros amser yng ngwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon?
3. Beth yw'r polisïau allweddol sydd â'r nod o gynyddu perfformiad darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon?
4. Beth fu effaith polisïau sydd â'r nod o gynyddu cyrhaeddiad darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon?
5. A yw'r ffactorau sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad darllen da yn PISA wedi newid er 2009?

Ar gyfer yr astudiaeth hon gwnaethom ddefnyddio dull dulliau cymysg yn cynnwys:

1. Adolygiad cymharol o bolisi yn ymwneud â datblygiad llythrennedd yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon
2. Dadansoddiadau cymharol o ddata a thueddiadau darllen PISA
3. Arolwg ar-lein o gynrychiolwyr cenedlaethol/llunwyr polisi o bedair gwlad y DU a Gweriniaeth Iwerddon ar bolisïau allweddol a'u heffaith
4. Cyfweliadau manwl â detholiad o uwch weithwyr addysgol proffesiynol o'r Adran Addysg yng Ngweriniaeth Iwerddon a sefydliadau ymchwil addysgol sydd â dealltwriaeth a phrofiad eang o hanes a gweithredu polisi.

Tra bod yr astudiaeth hon yn dibynnu'n helaeth ar ganfyddiad arbenigwyr polisi yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae'n cynnig cip-olwg unigryw ar PISA sy'n mynd y tu hwnt i ddadansoddiadau ystadegol ac eglurhad o'r data. Trwy gyfuno data PISA â dadansoddiad polisi a thrwy feithrin ymagwedd gymharol at bolisi darllen ar draws Gweiriniaeth Iwerddon a'r DU, dylai'r astudiaeth hon ddarparu cyfraniad newydd i lenyddiaeth PISA.

## 1.1 Cefndir yr astudiaeth

### Pwyntiau cefndir allweddol

- Mae Gweriniaeth Iwerddon wedi sgorio'n gyson uwch na gwledydd y DU mewn sgoriau darllen ers PISA 2006.
- Roedd un eithriad i'r patrwm hwn yn PISA 2009. Fodd bynnag, credir bod y gostyngiad mewn sgoriau darllen yn 2009 yn anghyson oherwydd amrywiaeth o ffactorau cymhleth a nad yw perfformiad disgyblion yn y cylch hwnnw o PISA yn cynrychioli sgiliau disgyblion Gweriniaeth Iwerddon yn gywir.[1]

### Mae Gweriniaeth Iwerddon yn sgorio'n gyson uwch na gwledydd y DU ar gyfer darllen yn PISA

Mae Gweriniaeth Iwerddon wedi sgorio'n gyson arwyddocaol[2] uwch na gwledydd y DU yn asesiad darllen PISA. Roedd Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi cyflawni lefelau uchel iawn o gyrhaeddiad mewn darllen ysgol gynradd yn y Progress in International Reading Literacy Study [3] (PIRLS). Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion 15 oed wedi bod yn llawer agosach at y cyfartaledd rhyngwladol, er yn arwyddocaol uwch na hynny, ac eithrio yng Nghymru.

Mae Gweriniaeth Iwerddon, fodd bynnag, yn llwyddo i gynnal ei safle ymhlith y gwledydd sy'n perfformio orau ar gyfer darllen ôl-gynradd. Roedd yr eithriad i hyn yn PISA 2009, ond mae'r canlyniadau ar gyfer y cylch hwnnw yng Ngweriniaeth Iwerddon bellach yn cael eu hystyried yn anghyson.

### Mae Gweriniaeth Iwerddon yn ystyried bod canlyniadau PISA 2009 yn anghyson

Dangosodd canlyniadau PISA 2009 yng Ngweriniaeth Iwerddon ostyngiad annisgwyl ac arwyddocaol mewn perfformiad ar draws pob pwnc o'u cymharu â chanlyniadau blaenorol. Dychwelodd perfformiad i'r lefelau uwch blaenorol yn PISA 2012. Yn y blynyddoedd ar ôl cyhoeddi canlyniadau PISA 2009, awgrymodd cyfres o bapurau ymchwil gan lunwyr polisi a sefydliadau ymchwil yng Ngweriniaeth Iwerddon fod y gostyngiad yn sgoriau PISA yn fwy tebygol o fod yn anghysondeb, yn hytrach na chwymp gwirioneddol mewn safonau. Derbynnir yn gyffredinol bellach fod ystod o ffactorau yn sail i'r newid a welwyd yn y sgoriau PISA yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 2009, gan wneud ei ddehongliad yn eithaf cymhleth. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn Atodiad 1[4].

[1] Gweler Atodiad 1 am ragor o fanylion

[2] Wrth adrodd ar arwyddocâd ystadegol golygir bod y cymedrau i'w cymharu yn arwyddocal wahanol ar lefel 5%.

[3] Nid yw'r Alban a Chymru yn cymryd rhan mewn PIRLS

[4] Cyhoeddwyd nifer o bapurau sy'n mynd i'r afael â gostyngiad 2009 yng Ngweriniaeth Iwerddon, mae crynodeb cynhwysfawr o'r materion ar gael yn Cosgrove *et al.* (2014).

Gan dderbyn y canfyddiadau hyn, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod Gweriniaeth Iwerddon wedi bod yn perfformio'n well na gwledydd y DU trwy gydol y ddau ddegawd blaenorol.

Mae canlyniadau PISA 2009 yn bwysig, fodd bynnag, yn yr ystyr eu bod wedi arwain at lawer o sylwebaeth gan y cyfryngau ac ymateb polisi mawr yng Ngweriniaeth Iwerddon ar ffurf y Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd, a gyflwynwyd yn 2011.

## 1.2 Sut mae perfformiad yn PISA wedi newid dros amser yng ngwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon?

**Tueddiadau yn sgoriau PISA rhwng 2006 a 2018**

- Llwyddodd disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon i gael sgoriau uwch mewn darllen na'u cymheiriaid yn y DU yn 2006 ac o 2012 i 2018.
- Yn 2018, roedd gan Weriniaeth Iwerddon gyfran arwyddocaol is o ddisgyblion yn gweithio ar y lefelau hyfedredd isaf mewn darllen.
- Dros amser, mae Gweriniaeth Iwerddon wedi bod â'r ganran isaf o ddisgyblion yn gyson yn gweithio islaw lefelau llythrennedd sylfaenol (islaw PISA Lefel 2) o'i chymharu â gwledydd y DU.
- Gwellodd sgôr mathemateg Lloegr yn arwyddocaol rhwng 2015 a 2018.
- Mae pob gwlad ac eithrio Lloegr wedi dirywio'n arwyddocaol mewn gwyddoniaeth er 2006.

Yn yr adran hon rydym yn cymharu sgoriau darllen PISA ym mhob un o bedair gwlad y DU a Gweriniaeth Iwerddon dros amser ac yn archwilio’r dosbarthiad sgoriau ym mhob gwlad. Rydym hefyd yn edrych yn gryno ar dueddiadau ym mherfformiad PISA mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar draws gwledydd.

## Ac eithrio yn 2009, mae Gweriniaeth Iwerddon wedi cynnal perfformiad arwyddocaol uwch mewn darllen PISA na gwledydd y DU

**Ffigur 1: Sgoriau darllen PISA dros amser 2006 – 2018**




*Mae'r sgôr yn wahanol iawn i 2018 ...... yn olrhain y llinell Gweriniaeth Iwerddon heb gynnwys gostyngiad 2009

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Nid oedd sgoriau 2018 yr un o'r pum gwlad yn welliant arwyddocaol ar eu sgoriau yn 2006. Dros amser, roedd yr unig sgoriau a oedd yn arwyddocaol wahanol i'r rhai a gyflawnwyd yn 2018 yng Ngweriniaeth Iwerddon yn 2009 (fel y soniwyd yn adran 1.1), ac yn yr Alban yn 2015. Mae sgoriau darllen PISA yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi aros yn sefydlog er 2006.

### Is-raddfeydd darllen

Mae fframwaith llythrennedd darllen PISA 2018[5] yn nodi tair prif broses y mae darllenwyr yn eu defnyddio wrth ymgysylltu â thestun. Y rhain yw 'canfod gwybodaeth', 'deall' a 'gwerthuso a myfyrio'. Mae hefyd yn dosbarthu a yw testun yn cynnwys ffynonellau sengl neu luosog.

O ran yr is-raddfeydd PISA hyn, mae sgoriau disgyblion yn adlewyrchu patrymau sgoriau cyffredinol ym mhob gwlad yn fras, heb unrhyw wlad yn dangos cryfderau na gwendidau nodedig wrth eu dadansoddi yn ôl y newidynnau hyn.

[5] Amlinellir esboniadau o bob un o'r is-raddfeydd yn adroddiad Rhyngwladol PISA 2018 (OECD, 2019b).

## Mae gan Weriniaeth Iwerddon y gyfran isaf o ddisgyblion sy'n gweithio islaw lefelau llythrennedd sylfaenol, yn arwyddocaol is na gwledydd y DU a chyfartaledd yr OECD

Ffordd ddefnyddiol o archwilio lledaeniad cyrhaeddiad ym mhob gwlad yw edrych ar gyfrannau'r disgyblion sy'n gweithio ar y gwahanol lefelau hyfedredd PISA (Ffigur 2).

Mae PISA yn diffinio set o lefelau cyflawniad darllen sy'n disgrifio dilyniant darllen o ran y sgiliau y mae disgyblion yn eu harddangos ar bob lefel. Dangosir y sgiliau a ddangosir ar bob lefel yn fanwl yn Atodiad 2. Ystyrir bod disgyblion sy'n sgorio islaw Lefel 2 yn berfformwyr isel, hynny yw, islaw lefel llythrennedd sylfaenol, ac ystyrir mai'r rhai sy'n perfformio ar Lefel 5 neu uwch yw'r perfformwyr gorau (OECD, 2019b).

**Ffigur 2: Canran y disgyblion ar bob lefel hyfedredd darllen PISA – yn 2018**




Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Fel y gwelir yn Ffigur 3, mae tueddiadau dros amser yn dangos, ar wahân i ostyngiad 2009, bod Gweriniaeth Iwerddon yn gyson wedi gweld cyfran arwyddocaol is o ddisgyblion yn gweithio islaw'r meincnod llythrennedd sylfaenol (Lefel 2) nag a welwn yng ngwledydd y DU. Mae ganddi hefyd gyfrannau uchel o ddisgyblion sy'n gweithio ar y lefelau hyfedredd uchaf. Yn PISA 2018, roedd gan Loegr gyfran debyg o ddisgyblion uchel eu cyflawniad â Gweriniaeth Iwerddon ond, fel pob gwlad arall yn y DU, roedd ganddi hefyd ganran uwch o ddisgyblion yn gweithio ar y lefelau isaf.

**Ffigur 3: Tueddiadau yn y cyfrannau o ddisgyblion sy'n gweithio ar y lefelau hyfedredd isaf ac uchaf mewn darllen PISA**







**……..** yn olrhain llinell Gweriniaeth Iwerddon heb gynnwys gostyngiad 2009

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Ffordd arall o ystyried dosbarthiad y sgoriau ym mhob gwlad yw edrych ar y bwlch rhwng y canraddau uchaf (90ain) a'r isaf (10fed). Mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth fel ei gilydd, Gweriniaeth Iwerddon sydd â'r bwlch lleiaf rhwng eu cyflawnwyr isaf ac uchaf, a adlewyrchir yn gyson yn y sgoriau uwch a gyflawnir gan y disgyblion â chyrhaeddiad is o gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill. Mae perfformiad y disgyblion is eu cyrhaeddiad i weld yn ffactor allweddol wrth egluro ei sgoriau darllen uwch yn PISA.

### Mewn mathemateg: Mae Cymru a Lloegr wedi gwella eu sgoriau yn arwyddocaol er 2009. Mae sgôr yr Alban wedi dirywio o gymharu â 2006

Mae trosolwg o sgoriau mathemateg a gwyddoniaeth PISA yn dangos gwelliant arwyddocaol yn sgoriau mathemateg PISA Cymru a Lloegr er 2009. Gwelir hyn hefyd ar gyfer Gweriniaeth Iwerddon, ond dim ond o ganlyniad i'r gostyngiad yn 2009. Mae sgôr mathemateg yr Alban wedi dirywio'n arwyddocaol er 2006. Roedd sgoriau mathemateg Gweriniaeth Iwerddon yn arwyddocaol uwch na holl wledydd y DU yn 2015, ond yn 2018 roedd Lloegr a Gogledd Iwerddon yn perfformio ar lefel debyg i Weriniaeth Iwerddon, tra bod yr Alban a Chymru yn dal yn arwyddocaol is mewn mathemateg.

**Ffigur 4: Sgoriau mathemateg PISA dros amser 2006 – 2018**




* Mae'r sgôr yn arwyddocaol wahanol i 2018 …… .. yn olrhain llinell Gweriniaeth Iwerddon heb gynnwys gostyngiad 2009

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

## Mewn gwyddoniaeth: Mae pob gwlad ac eithrio Lloegr yn dangos dirywiad arwyddocaol er 2006

Mewn gwyddoniaeth, Lloegr yw'r unig wlad o’r pump i beidio â dangos dirywiad arwyddocaol er 2006. Er 2015, mae Lloegr wedi cyflawni sgoriau gwyddoniaeth arwyddocaol uwch na Gweriniaeth Iwerddon a thair gwlad arall y DU.

**Ffigur 5: Sgoriau gwyddoniaeth PISA dros amser 2006 – 2018**




* Mae’r sgôr yn arwyddocaol wahanol i 2018 …… .. yn olrhain llinell Gweriniaeth Iwerddon heb gynnwys gostyngiad 2009

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Yn y bennod nesaf rydym yn adolygu'r cyd-destun polisi a'r canfyddiadau ynghylch effaith polisi yn Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, gan ddefnyddio data o'r adolygiad polisi cymharol ac ymatebion arolwg gan gynrychiolwyr cenedlaethol a llunwyr polisi. Ym Mhennod 3 rydym yn darparu'r cyd-destun polisi manwl o'r adolygiad polisi cymharol a'r arolwg yng Ngweriniaeth Iwerddon a chanfyddiadau cyfweliadau ag uwch swyddogion yn Adran Addysg Gweriniaeth Iwerddon a sefydliadau ymchwil addysg, er mwyn archwilio gwahaniaethau ym mhrofiadau addysgol disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon a rhai yn y DU. Yna trafodir y canfyddiadau hyn ym Mhenodau 4 a 5.

# 2. Cefndir polisi ar draws gwledydd y DU

Mae addysg yn faes llywodraethu datganoledig yn y DU ac, felly, mae disgyblion ym mhob gwlad wedi profi gwahanol bolisïau sy'n anelu at wella sgiliau llythrennedd a chynyddu cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig.

Nodir y polisïau allweddol a brofwyd gan garfan PISA 2018 ym mhob gwlad yn Atodiad 4. Yn y bennod hon, rydym yn ymhelaethu ar y tabl trosolwg polisi yn Atodiad 4 i:

- amlinellu polisïau gyda ffocws ar lythrennedd, gan gynnwys diwygiadau cwricwlwm arwyddocaol
- amlinellu effaith y polisïau hyn o werthusiadau ffurfiol
- darparu canfyddiadau arbenigwyr polisi o'r polisïau mwyaf effeithiol sydd â'r nod o wella safonau llythrennedd, a'r ffactorau allweddol wrth weithredu polisi darllen yn llwyddiannus (a gasglwyd trwy'r arolwg yn Atodiad 1).

Darperir tabl o oedrannau disgyblion a'r dosbarth neu'r flwyddyn gyfatebol ym mhob gwlad yn Atodiad 5.

## 2.1 Lloegr

### 2.1.1 Hanes polisi

#### Elwodd disgyblion yn Lloegr o addysg gynnar rhad ac am ddim o 3 oed

Ym 1998, dechreuwyd cyflwyno hawl i addysg gynnar ran-amser am ddim ar gyfer plant 3 a 4 oed yn Lloegr. Ehangodd y polisi yn arafach ar gyfer plant 3 oed, ond daeth i bob pwrpas yn gyffredinol ledled Lloegr erbyn 2005, pan oedd carfan PISA 2018 yn 2-3 oed.

#### Gweithredwyd y Strategaeth Llythrennedd Genedlaethol i wella safonau trwy raglen â ffocws o newidiadau yn y ffordd yr oedd pynciau craidd yn cael eu haddysgu

Cafodd y Strategaeth Llythrennedd Genedlaethol (NLS), ei chyflwyno ym 1998 gan yr Adran Addysg (DfE) (2011b), wedi'i dilyn gan y Strategaeth Rhifedd Genedlaethol. Nod yr NLS oedd gwella dysgu ac addysgu mewn darllen ac ysgrifennu ac hyrwyddo arferion addysgu penodol iawn, nifer ohonynt yn dal mewn grym heddiw. Mae hyfforddiant darllen, er enghraifft, wedi'i drefnu mewn tair ffordd wahanol:

1. Ar y cyd, sy'n weithgaredd dosbarth, gyda chefnogaeth yr athro, gan ddefnyddio testun cyffredin fel 'llyfr mawr' neu ddyfyniad o destun.
2. Dan arweiniad, sy'n cynnwys lefel uwch o annibyniaeth. Mae grwpiau bach o blant, ar lefelau darllen tebyg a chyda'u copi eu hunain o'r testun, yn gweithio gydag athro ar destunau sy'n cyfateb i'w gallu.
3. Annibynnol, pan fydd plant yn gweithio heb gefnogaeth yr athro ar destunau y gallant eu darllen yn rhugl a hyderus.

Ymestynnodd meysydd ffocws dilynol i'r holl bynciau craidd, i Gyfnodau Allweddol 3 a 4, i'r Blynyddoedd Cynnar, Ymddygiad a Phresenoldeb, y rhaglen Partneriaid Gwella Ysgolion, ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Er 1998, mae'r Strategaethau Cenedlaethol wedi bod ar ffurf rhaglen datblygiad proffesiynol sy'n darparu hyfforddiant a chefnogaeth wedi'i thargedu i athrawon.

### Dysgodd disgyblion yn Lloegr i ddarllen gan ddefnyddio ffoneg synthetig systematig

Hyd at 2006, roedd yr NLS yn argymell ffoneg ddadansoddol fel un o bedwar 'llusern' ar gyfer dysgu darllen - y lleill oedd gwybodaeth am gyd-destun, gwybodaeth ramadegol, adnabod geiriau a gwybodaeth graffig. Arweiniodd ymchwil i effeithiolrwydd ffoneg synthetig systematig at Adroddiad Rose (Rose, 2006) ac ar ôl hynny cafodd canllawiau'r llywodraeth eu diweddaru i'w gwneud yn ofynnol dysgu ffoneg synthetig systematig fel y strategaeth gyntaf a'r brif strategaeth ar gyfer darllen. Roedd carfan PISA 2018 yn 3-4 oed yn 2006, felly byddent wedi cael eu dysgu gan ddefnyddio ffoneg synthetig systematig wrth ddechrau'r ysgol gynradd yn 2007, rhwng 4 a 5 oed.

Yn 2008, cyflwynodd y Llywodraeth y rhaglen Pob Plentyn yn Ddarllenydd (Every Child a Reader (ECaR), DfE, 2011a). Mae ECaR yn cynnig dull haenog, tri cham o gynorthwyo plant i ddarllen yng Nghyfnod Allweddol 1.

- Mae Cam 1 yn addysgu dosbarth cyfan ac mae'n canolbwyntio ar adnabod geiriau a deall iaith; a ffoneg synthetig systematig, lle mae plant yn cael eu dysgu i seinio geiriau.
- Mae Cam 2 yn ymyrraeth grŵp bach ar gyfer plant y disgwylir iddynt ddal i fyny â'u cyfoedion gyda rhywfaint o gefnogaeth ychwanegol.
- Mae Cam 3 yn cynnig cymorth darllen dwys un i un i blant y nodwyd bod ganddynt anghenion cymorth penodol.

### Cyflwynwyd dau gynllun gyda’r nod o godi cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig yn 2011: Premiwm Disgyblion a rhaglenni’r Education Endowment Foundation.

Yn 2011, cyflwynodd y DfE Premiwm Disgyblion (Pupil Premium, DfE, 2011c) sydd yn yr un modd yn anelu at godi cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig a lleihau'r bwlch rhyngddynt hwy a'u cyfoedion mwy cyfoethog. Mae'r Premiwm Disgyblion yn cynnwys taliad fesul disgybl sy'n gymwys ar gyfer PYDd mewn grwpiau blwyddyn o'r Derbyn i Flwyddyn 11.

Mae'r Education Endowment Foundation (EEF) yn elusen rhoi grantiau annibynnol, a sefydlwyd yn 2011 gyda chyllid DfE. Mae'n ymroddedig i dorri'r cysylltiad rhwng incwm teulu a chyflawniad addysgol a'i nod yw nodi, ariannu a gwerthuso arloesiadau addysgol ar gyfer disgyblion difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys sefydlu tystiolaeth o ymyriadau a strategaethau effeithiol sy'n gweithio ar raddfa, ac annog ysgolion, y llywodraeth, elusennau ac eraill i gymhwyso'r dystiolaeth hon. Mae EEF yn cynnwys iaith a llythrennedd fel un o'i 14 'thema darlun mawr' ac mae strategaethau ffoneg a darllen a deall wedi'u cynnwys mewn dau o'i 'linynnau pecyn cymorth'.

### Roedd cyllid ar gael i ysgolion ar gyfer disgyblion cyrhaeddiad is ym Mlwyddyn 7 o 2012 i 2020

Roedd premiwn dal i fyny Blwyddyn 7 ar gyfer llythrennedd a rhifedd ar gael i ysgolion uwchradd o 2012 i 2020 er mwyn cefnogi disgyblion is eu cyrhaeddiad mewn llythrennedd neu rifedd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (DfE, 2014). Yn 2018 darparwyd canllawiau gan DfE ar strategaethau dal i fyny i gefnogi athrawon wrth wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth ar sut i gefnogi disgyblion Blwyddyn 7 is eu cyrhaeddiad.

### Mae disgyblion yn Lloegr wedi profi addysg uwchradd gyda phwyslais ar bynciau traddodiadol

Digwyddodd llu o newidiadau i'r cwricwlwm ac asesu o 2011 ymlaen ar gyfer pob Cyfnod Allweddol. Un o amcanion allweddol yr adolygiad cwricwlwm cenedlaethol yn 2014 oedd sicrhau bod cynnwys y cwricwlwm cenedlaethol yn debyg i gynnwys gwledydd sy'n perfformio'n gryf mewn astudiaethau cymhariaeth ryngwladol DfE (2011d). Mae'r prif newidiadau a roddodd sylw i wella cyrhaeddiad llythrennedd a rhifedd yn cynnwys:

- Cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig, a oedd yn blaenoriaethu ac yn hyrwyddo trylwyredd, o fis Medi 2014 ar gyfer y mwyafrif o bynciau, gyda Saesneg a mathemateg yn dod yn rhan ohono ar gyfer pob grŵp blwyddyn o fis Medi 2016, pan oedd y garfan PISA yn 13-14 oed.
- Diwygiadau i TGAU ar gyfer rhai pynciau (iaith Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg a mathemateg) ar gyfer eu haddysgu gyntaf yn 2015, gan effeithio ar ganlyniadau arholiadau yn 2017. Cyflwynwyd TGAU diwygiedig mewn pynciau eraill yn y blynyddoedd canlynol. Roedd y diwygiadau'n cynnwys yr agweddau canlynol:
  - cynnwys mwy heriol, gyda chynnwys newydd i ymestyn disgyblion mwy galluog, tra'n parhau i fod yn hygyrch i ddisgyblion o bob gallu
  - byddai'r holl arholiadau ar ddiwedd y cwrs, yn hytrach na dull mwy modiwlaidd gydag arholiadau wedi'u lledaenu trwy'r cwrs
  - system raddio newydd wedi'i rhifo (9-1).

### Mae polisïau ardal wedi targedu disgyblion difreintiedig

Cafwyd hefyd fentrau rhanbarthol a oedd â'r nod o fynd i'r afael ag anfantais a chyrhaeddiad isel mewn dinasoedd mawr, megis Her Dinasoedd (City Challenge), a lansiwyd ym mis Ebrill 2008, gan adeiladu ar lwyddiant Her Llundain (London Challenge) 2003-8 (Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd, 2007). Dyluniwyd hyn i wella canlyniadau addysgol i bobl ifanc, er enghraifft, trwy leihau nifer yr ysgolion sy'n tanberfformio, yn enwedig mewn perthynas â Saesneg a mathemateg yn y Wlad Ddu, Manceinion Fwyaf a Llundain.

Mae Ardaloedd Cyfle (OA) a gyhoeddwyd yn 2016 (DfE, 2016), yn rhaglen symudedd sy’n anelu at gyfartalu safonau ysgolion a chyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc o dan anfantais. Trwy ddull wedi’i seilio ar leoliad, cynnigodd yr OA ystod o ymyriadau wedi’u teilwra a’u cyllido’n lleol, yn ogystal â mynediad blaenoriaeth i ystod o fentrau DfE. Ymhlith yr enghreifftiau allweddol o’r mentrau hyn mae'r Strategic School Improvement Fund a’r Teaching and Leadership Innovation Fund.

### Mae ffocws ar ddatblygu sgiliau iaith a llythrennedd cynnar

Un o'r amcanion y Cynllun Symudedd Cymdeithasol (Social Mobility Plan, DfE, 2017) oedd cau bylchau mewn datblygiad, yn enwedig sgiliau iaith a llythrennedd cynnar, gan gynnwys trwy hybu buddsoddiad mewn Hybiau Saesneg a datblygiad proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar. Mae cynllun Hybiau Saesneg (English Hubs), a lansiwyd yn 2018, yn ceisio gwella dysgu darllen. Mae'n rhaglen wella ysgol-i-ysgol sy'n canolbwyntio ar ffoneg synthetig systematig, datblygu iaith yn gynnar a darllen er pleser i wella canlyniadau addysgol ar gyfer y disgyblion mwyaf difreintiedig yn y Derbyn a Blwyddyn 1. Efallai y bydd y mentrau hyn o 2016 i gyd yn effeithio ar ganlyniadau llythrennedd carfannau PISA yn y dyfodol.

## 2.1.2 Canfyddiadau o effaith

### Mae cyfran y disgyblion difreintiedig sy'n cyrraedd parodrwydd ysgol wedi dyblu ers cyflwyno addysg gynnar gyffredinol i blant 3 a 4 oed yn 2005

Nid oes unrhyw werthusiadau penodol o'r effaith ar ddarllen o'r polisi i ddarparu addysg gynnar ran-amser ar gyfer pob plentyn 3 a 4 oed yn Lloegr yn 2005. Fodd bynnag, nododd y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (2017, t.20):

> 'Mae cyflwyno'r Proffil Cyfnod Sylfaen Blynyddoedd Cynnar yn 2002-3 - gyda data ar gyfer y plant tlotaf yn erbyn eraill o 2006-7 ... yn dangos gwelliant arwyddocaol, er ei fod o fan cychwyn isel iawn. Yn 2007… methodd 72% o blant difreintiedig â chyrraedd lefel dda o ddatblygiad yn bump oed. Ers hynny, mae sgoriau cyrhaeddiad plant breintiedig a difreintiedig wedi codi tua 25 pwynt canran, ac mae cyfran y plant difreintiedig sy'n cyrraedd lefelau parodrwydd ysgol wedi dyblu. Mae'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng y plant tlotaf a'u cyfoedion wedi bod yn anoddach ei symud. Nid oes tystiolaeth o unrhyw ostyngiad yn y bwlch cyn 2006 ac yn y cyfnod ers hynny dim ond pedwar pwynt y mae'r bwlch o 21 pwynt canran wedi gostwng.'

### Cynyddodd cyrhaeddiad disgyblion yn asesiadau Saesneg Cyfnod Allweddol 2 rhwng 1995 a 2011 ar ôl cyflwyno'r Strategaeth Llythrennedd Genedlaethol

Adroddodd y DfE (2011b) ar effeithiolrwydd y Strategaeth Llythrennedd Genedlaethol (NLS) rhwng 1997 a 2011 (roedd carfan PISA 2018 rhwng 9 a 10 oed yn 2011) a chanfu

welliant mewn safonau llythrennedd cynradd, er nad yw'n bosibl priodoli'r newid i gyd i'r polisi hwn:

- Ym mhrofion asesu cenedlaethol Cyfnod Allweddol 2 1995 yn Saesneg, dim ond 49% o ddisgyblion a gyrhaeddodd yn genedlaethol ar lefel 4 neu'n uwch. Erbyn mis Rhagfyr 2010, roedd cyrhaeddiad Saesneg Cyfnod Allweddol 2 wedi cynyddu i uwchlaw 80%, ar lefel 4 neu'n uwch ac roedd cyrhaeddiad ysgrifennu wedi codi 8 pwynt canran rhwng 2006 a 2011.
- Yn 1998 roedd bwlch o 52% rhwng y canlyniadau lefel 4 (neu'n uwch) ar gyfer disgyblion o aelwydydd difreintiedig a'r rhai ar gyfer pob disgybl arall. Erbyn mis Rhagfyr 2010, roedd grwpiau lleiafrifoedd ethnig wedi cau'r bwlch perfformiad ac roedd y bwlch tlodi cyfrannol wedi culhau i 29% - gwelliant o 21 pwynt canran.
- Yn 2010, yng Nghyfnod Allweddol 1, bu cynnydd yn y gyfran o ddisgyblion yn cyrraedd lefel 2 (neu'n uwch) mewn darllen, gan un pwynt canran i 85%, am y tro cyntaf ers 2006.

Byddai'r garfan PISA 2018 wedi profi'r NLS, ond serch hynny nid yw Lloegr wedi gweld gwelliant arwyddocaol mewn sgoriau PISA rhwng 2006 a 2018. Tra bod y rhesymau ar gyfer hyn tu hwnt i'r dadansoddiad hwn, mae'n werth ei nodi ar gyfer astudiaethau posibl yn y dyfodol.

### Mae'r EEF wedi canfod bod y sylfaen dystiolaeth ar gyfer ffoneg yn sicr

Canfu crynodeb EEF (2018) o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ffoneg fod cefnogaeth gyson i addysgu ffoneg systematig, fodd bynnag, mae'r dystiolaeth ar ba ffurf y dylai addysgu ffoneg systematig ei chymryd (dadansoddol neu synthetig systematig) yn amhendant. Roedd peth tystiolaeth bod ffoneg synthetig systematig (lle mae'r pwyslais ar seinio llythrennau a chyfuno synau i ffurfio geiriau) yn gallu bod yn fwy buddiol na dulliau dadansoddol (lle mae'r berthynas sain/symbol yn cael ei hawgrymu drwy nodi patrymau a thebygrwydd trwy gymharu sawl gair).

### Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael Premiwm Disgyblion a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi culhau er 2011 yng Nghyfnod Allweddol 2 a 4

Adroddodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2015) nad yw'r Adran Addysg wedi gosod targed penodol ar gyfer y Premiwm Disgyblion ac argymhellodd y dylai'r Adran Addysg nodi'r metrigau cyrhaeddiad y bydd yn eu defnyddio i fesur effaith y Premiwm Disgyblion. Mae'r Adran Addysg yn adrodd ar wahaniaethau mewn cyrhaeddiad yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 4 (TGAU) rhwng disgyblion difreintiedig a'r rhai nad ydynt yn ddifreintiedig. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mewn asesiadau cwricwlwm cenedlaethol, ar y safon ddisgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg, bu cynnydd bach yn y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig ac eraill[6] o 0.5% rhwng 2018 a 2019 ond gwelwyd culhau'r bwlch o 12.8% er 2011 (DfE, 2019a). Yn TGAU, yn seiliedig ar y

[6] Mae disgyblion difreintiedig yn gymwys i gael cyllid Premiwm Disgyblion - am wybodaeth ar gymhwysedd a chyllid, gweler Premiwm Disgyblion

graddau cyfartalog a gyflawnwyd mewn Saesneg a mathemateg, ehangodd y bwlch rhwng disgyblion difreintiedig ac eraill 0.4% rhwng 2018 a 2019. Hwn oedd yr ail gynnydd blynyddol bach yn olynol, ond mae 9.1% yn is nag yn 2011 (DfE, 2019b).

### Mae gwariant Premiwm Disgyblion wedi cael ei gwestiynu, fodd bynnag mae'r cyllid yn caniatáu i ysgolion ganolbwyntio ar ganlyniadau disgyblion difreintiedig

Nododd y Sefydliad Astudiaethau Cyllidol (2015) fod goruchafiaeth o ran gwariant yng nghyllid y Premiwm Disgyblion ar staff nad oeddent yn addysgu, ar raddfa na fwriadwyd yn wreiddiol, fodd bynnag, nododd y Comisiwn Symudedd Cymdeithasol (2017, t34), '… tra bod y cyllid yn gyfran fach o gyfanswm cyllideb ysgolion, mae wedi chwarae rhan arwyddocaol wrth annog ysgolion i ganolbwyntio ar wella canlyniadau disgyblion difreintiedig.'

Amlygodd ymatebion arbenigwyr polisi i’r arolwg fod ysgolion a gyllidir yn gyhoeddus yn Lloegr yn derbyn cyllid ychwanegol gan y llywodraeth i wella cyrhaeddiad disgyblion o dan anfantais. Nodwyd, fodd bynnag, nad oedd disgwyliad i’r cyllid gael ei dargedu ar unrhyw faes cwricwlaidd, megis deilliannau darllen, gan wneud effaith benodol ar lythrennedd yn llai tebygol.

### Mae tua dwy ran o dair o arweinwyr ysgolion yn defnyddio rhaglenni’r EEF sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio penderfyniadau ynghylch gwariant Premiwm Disgyblion

Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2015) fod tua 64% o arweinwyr ysgolion yn defnyddio Pecyn Cymorth Addysgu a Dysgu EEF i lywio gwariant cyllid Premiwm Disgyblion.

Canfuwyd bod ymyriadau iaith lafar, ysgrifennu a darllen ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 is eu cyrhaeddiad yn effeithiol, ond mae’r dystiolaeth ar gyfer cefnogaeth ffoneg yn llai sicr mewn disgyblion hŷn.

Ar gyfer premiwm dal i fyny Blwyddyn 7, ni nodwyd unrhyw werthusiadau ffurfiol o'r effaith, fodd bynnag, mae DfE (2018) yn darparu asesiad o effeithiolrwydd strategaethau penodol:

- Ymyriadau llythrennedd ffoneg: Mae tystiolaeth anghyson ar effeithiolrwydd ymyriadau ffoneg ar gyfer helpu disgyblion Blwyddyn 7 sy'n ei chael hi'n anodd i ddal i fyny
- Ymyriadau iaith lafar: Gall y dull hwn gael effaith isel ond cadarnhaol ar gynnydd dros y flwyddyn, yn ôl casgliad yr EEF
- Ymyriadau ysgrifennu: Canfu'r EEF bod y ddau ymyriad ysgrifennu a aseswyd yn effeithiol
- Ymyriadau darllen: Canfu'r EEF fod y rhain yn gyffredinol yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau disgyblion tuag at ddarllen a'u bod yn ymddangos eu bod yn cael effaith gymedrol, gadarnhaol ar ddysgu cyffredinol.

## Mae diwygiadau TGAU, a gyflwynwyd yn 2014, wedi ehangu'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion difreintiedig a'u cyfoedion mwy cyfoethog ychydig

Bwriad y cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig oedd dod â thrylwyredd i addysg (DfE, 2011d). Yn adroddiad y Gyfnewidfa Bolisi ar weithredu'r cwricwlwm, awgrymodd Blake (2018) fod prinder deunyddiau cwricwlwm trwyadl, a fyddai'n effeithio'n andwyol ar ehangder a chydbwysedd y dysgu a addawyd yn y cwricwlwm. Ymhellach, yn ei dro, byddai hyn yn effeithio ar blant o gefndiroedd difreintiedig, gan eu bod nhw'n llai tebygol o gael mynediad at adnoddau (fel llyfrau ychwanegol) o'u cymharu â'u cyfoedion mwy cefnog. Canfu Burgess a Thomson (2019), fod diwygiadau i TGAU wedi cynyddu'r bwlch sgôr prawf TGAU rhwng disgyblion difreintiedig a'r rhai nad ydynt yn ddifreintiedig, ond bod y newid yn fach.

## Mae wedi bod yn anodd dyblygu llwyddiant polisi yn seiliedig ar ardal Her Llundain

Roedd cyrhaeddiad ac anfantais ranbarthol/trefol yn ffocws polisi allweddol yn y 1990au a'r 2000au. Adolygodd Macdougall a Lupton (2018, t.16) welliant cyrhaeddiad addysgol yn Llundain a daethpwyd i'r casgliad

> 'Nid yw ymyriadau polisi ar eu pennau eu hunain yn egluro llwyddiant Llundain. Mae cyflawniadau uwch yn y blynyddoedd cynnar a'r ysgol gynradd hefyd yn cyfrannu'n fawr wrth egluro llwyddiant ysgolion uwchradd. Serch hynny, ymddengys nad oes amheuaeth bod Her Llundain wedi cyfrannu'n gadarnhaol iawn at berfformiad system addysg uwchradd Llundain yn y 2000au.'

## Mae'n rhy gynnar i fesur effaith yr Ardaloedd Cyfle

Mae'r rhaglen OA yn cael ei gwerthuso a bydd hyn yn amlygu cynnydd dros amser.

Cyhoeddwyd y rhaglen OA yn y flwyddyn academaidd 2016 -17. Wrth osod eu targedau cychwynnol defnyddiwyd data 2015 -16 neu 2016 -17 yn waelodlin. Dechreuwyd gweithredu'r cynllun o fis Medi 2017 a gwelwyd cynnydd sylweddol o fis Medi 2018. Mae'r rhan fwyaf o'r data yn dangos taflwybr cadarnhaol rhwng 2016 -17 a 2018 – 2019. Nid oedd data 2019 - 2020 ar gael oherwydd Covid-19. Er enghraifft rhwng 2016 – 2017 a 2018-19:

- Gwellodd deilliannau blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion o dan anfantais mewn 9 o'r 12 OA.
- Gwellodd canlyniadau ffoneg yr holl ddisgyblion mewn 10 o'r 12 OA.
- Gwellodd data cyrhaeddiad cyfunol Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer yr holl ddisgyblion gan fwy na'r gyfradd genedlaethol mewn 10 o'r 12 OA.

### Amlygodd arbenigwyr polisi fod y rhaglen Hybiau Saesneg a hyfforddiant athrawon gyda ffocws llythrennedd yn bwysig ar gyfer canlyniadau darllen

Wrth ymateb i'n harolwg, amlygodd rhanddeiliaid polisi y mentrau canlynol yn rhai pwysig ar gyfer canlyniadau darllen, Rhaglen Hybiau Saesneg, a lansiwyd yn 2018 a rôl Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon wrth ymgorffori dealltwriaeth o lythrennedd ar ddechrau gyrfa addysgu, gyda DPP parhaus i feithrin hyn. Serch hynny, ni fydd y rhain wedi cael effaith ar garfan PISA 2018.

### Nododd arbenigwyr polisi fod cydweithredu rhwng ysgolion a pholisi ar sail tystiolaeth yn ffactorau allweddol ar gyfer gweithredu polisi yn llwyddiannus

Roedd arbenigwyr polisi hefyd o'r farn bod y dull gwella ysgol-ysgol, lefel ymgysylltiad ysgolion â newid polisi a thystiolaeth gref bod y gwaith polisi i gyd yn bwysig er mwyn gweithredu polisi yn llwyddiannus.

# 2.2 Yr Alban

## 2.2.1 Hanes polisi

### Mae disgyblion yn yr Alban wedi dilyn y Cwricwlwm Er Rhagoriaeth am y rhan fwyaf o'u haddysg

Canfu'r OECD (2007) fod yr Alban yn perfformio'n gyson ar safon uchel yn PISA, fodd bynnag, nododd hefyd y bwlch cyflawniad rhwng disgyblion difreintiedig a'r rhai nad ydynt yn ddifreintiedig a agorodd yn hwyr mewn addysg gynradd ac a ehangodd trwy flynyddoedd uwchradd cynnar fel her fawr. Fel rhan o set ehangach o ddiwygiadau, ceisiodd y Cwricwlwm er Rhagoriaeth (Curriculum for Excellence (CfE), Education Scotland, 2010), a gyflwynwyd yn 2010, pan oedd carfan PISA rhwng 7-8 oed, greu un cwricwlwm cydlynol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc rhwng 3 a 18 oed. Mae'r fframwaith yn cynnwys addysg gyffredinol eang rhwng 3-15 oed ac yna mwy o arbenigedd mewn gweithio tuag at gymryd Cymwysterau Cenedlaethol yn y cyfnod hŷn (16-18 oed) ac mae'n gosod llythrennedd, rhifedd ac iechyd a llesiant yng nghanol yr holl ddysgu. Mae hefyd yn annog cydnabyddiaeth o gyflawniadau personol pobl ifanc yn yr ysgol a thu hwnt, trwy bartneriaethau sy'n cefnogi dysgu gyda, er enghraifft, sefydliadau busnes, y celfyddydau a chymunedol, yn ogystal â dysgu yn yr ysgol.

Darparwyd monitro CfE ar lefel system trwy Arolwg Llythrennedd a Rhifedd yr Alban (Scottish Survey of Literacy and Numeracy (SSLN)), a gyflwynwyd gyntaf yn 2011. Roedd yn arolwg sampl blynyddol a oedd yn monitro perfformiad cenedlaethol plant ysgol yn P4, P7 a S2 mewn rhifedd a llythrennedd bob yn ail flwyddyn. Un o gyfyngiadau cydnabyddedig yr SSLN oedd nad oedd yn darparu dadansoddiad islaw'r lefel genedlaethol. Dyna un rheswm dros ei ddisodli gan yr adroddiadau Cyrraedd Lefelau'r Cwricwlwm Er Rhagoriaeth (Achievement of Curriculum for Excellence Levels, ACEL), a ddechreuodd yn y flwyddyn academaidd 2015-2016. Mae'r data ACEL yn seiliedig ar farn

broffesiynol athrawon ar y lefel CfE uchaf y mae disgybl wedi'i chyflawni. Cyflwynwyd Asesiadau Safonedig yr Alban (SNSAs) yn y flwyddyn academaidd 2017-18 ac maent yn un darn o dystiolaeth i athrawon ei ystyried wrth ddod i'r dyfarniadau hyn (Pwyllgor Addysg a Sgiliau, 2019). Mae'r SNSA yn asesiadau safonedig y bwriedir eu sefyll yn genedlaethol yn holl ysgolion y wladwriaeth yn P1, P4, P7 a S3 a gallent effeithio ar ganlyniadau darllen carfannau PISA yn y dyfodol.

#### Mae'r Fframwaith Gwella Cenedlaethol yn canolbwyntio'n benodol ar godi cyrhaeddiad llythrennedd a rhifedd, ond fe'i cyflwynwyd pan oedd y garfan PISA rhwng 13 a 14 oed.

Cyflwynwyd y Fframwaith Gwella Cenedlaethol yn 2016 ac roedd yn nodi'r weledigaeth ar gyfer system ysgolion sy'n darparu rhagoriaeth a thegwch ac yn alinio gwaith gwella ar draws partneriaid yn y sector addysg (Llywodraeth yr Alban, 2016a). Nododd y Fframwaith welliant mewn cyrhaeddiad, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, fel blaenoriaeth strategol ynghyd â dulliau ar gyfer casglu data mwy cadarn ar gyrhaeddiad disgyblion yn y pynciau hyn. Ochr yn ochr â hyn, lansiwyd y cynllun Cyflwyno Rhagoriaeth ac Ecwiti (Delivering Excellence and Equity) hefyd yn 2016 (Llywodraeth yr Alban, 2016b). Mae'n cynnwys nifer fawr o ymrwymiadau polisi, gan gynnwys defnyddio'r data sydd ar gael trwy'r Fframwaith Gwella Cenedlaethol o fis Hydref 2016 i nodi'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgyblion mwyaf a lleiaf ddifreintiedig yn P1, P4, P7 a S3 ar lefel ysgol ac awdurdod lleol ac i gytuno ar dargedau i leihau'r bwlch hwn. Er mis Medi 2016, mae arolygu a hunanarfarnu ysgolion wedi canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar gau'r bwlch.

#### Cyflwynwyd Her Cyrhaeddiad yr Alban (Scottish Attainment Challenge) yn 2017, i fynd i'r afael â'r bwlch cyrhaeddiad parhaus rhwng y disgyblion mwyaf a lleiaf difreintiedig

Mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r bwlch parhaus mewn cyrhaeddiad rhwng disgyblion o'r cartrefi incwm uchaf ac isaf, sefydlodd Llywodraeth yr Alban Cronfa'r Her Cyrhaeddiad fel menter i gefnogi disgyblion a darparu gweithgarwch gwella wedi'i dargedu mewn rhifedd, llythrennedd ac iechyd a llesiant yn ardaloedd awdurdodau lleol sydd â'r lefelau uchaf o amddifadedd (Shields a Gunson, 2017). Gallai'r fenter hon effeithio ar berfformiad carfannau PISA yn y dyfodol.

### 2.2.2 Canfyddiadau o effaith

#### Mae OECD ac arbenigwyr polisi wedi codi pryderon ynghylch eglurder y Curriculum for Excellence

Amlygodd yr OECD (2015) ddiffyg gwerthuso'r CfE, fodd bynnag, o ran ansawdd a thegwch, canfu ddatblygiadau cadarnhaol, gan gynnwys bod disgyblion yr Alban yn gydnerth a bod ysgolion yr Alban yn gynhwysol.

Canfu'r un adolygiad polisi OECD (2015, t.11) heriau a phroblemau gyda'r CfE, gan gynnwys diffyg eglurder yng nghwmpas y rhaglen, yn yr ystyr ei bod weithiau'n cael ei

gweld fel '… set eang o ddiwygiadau tra y byddai'n well pe bai'n cael ei ddehongli'n fwy llym fel cwricwlwm ac asesu ac addysgeg gysylltiedig'.

Yn yr un modd, yn eu hymatebion i'r arolwg, roedd arbenigwyr polisi o'r farn bod diffyg eglurder yn y CfE a'i fod yn amwys i athrawon a gallai hyn gael effaith niweidiol ar gyflawniad disgyblion. Teimlwyd hefyd fod y cyngor ar gyfer gweithredu'r CfE yn seiliedig ar dystiolaeth na chyd-destun ac felly'n ddryslyd i Awdurdodau Lleol.

### Bu dirywiad ym mherfformiad llythrennedd yr holl ddisgyblion rhwng 2012 a 2016, ond mae perfformiad darllen PISA wedi gwella'n arwyddocaol er 2015.

Er y daeth y Arolwg Llythrennedd a Rhifedd yr Alban yn nosbarthiadau P4, P7, S2 i ben yn ddiweddarach, amlygodd adolygiad polisi OECD (2015, t.15) fod:

> 'Darllen yn dangos dirywiad rhwng 2012 a 2014 gan ddefnyddio data Arolwg Llythrennedd a Rhifedd yr Alban, gyda niferoedd cymharol llai o berfformwyr gorau ymhlith disgyblion cynradd ac uwchradd. Mae SSLN yn dangos bod perfformiad mewn rhifedd wedi dirywio rhwng 2011 a 2013. Mewn ysgolion cynradd, roedd llai yn sgorio ar y brig, ond roedd niferoedd mwy o berfformwyr isel mewn ysgolion uwchradd. Cynyddodd y bwlch cyflawniad rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig hefyd yn yr SSLN ar gyfer rhifedd a llythrennedd.'

Amlygodd adroddiad Llywodraeth yr Alban (2019) ar Asesiadau Safonedig Cenedlaethol yr Alban (P1, P4, P7, S3) y dirywiad parhaus mewn perfformiad llythrennedd a adroddwyd yng nghanlyniadau arolwg SSLN 2016.

Yn ystod y cyfnod o ddirywiad uchod, er bod sgôr darllen gymedrig PISA yn 2015 (493) yn is nag yn 2012 (506), nid oedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol. Roedd sgôr 2018 (504), fodd bynnag, yn welliant arwyddocaol ar sgôr 2015.

### Mae angen mwy o eglurder ar rai agweddau ar y Fframwaith Gwella Cenedlaethol

Cafodd y Fframwaith Gwella Cenedlaethol a'r cynllun Cyflwyno Rhagoriaeth ac Ecwiti ill dau eu lansio, yn rhannol, i fynd i'r afael ag argymhellion adolygiad polisi OECD (2015). Myfyriodd Cymdeithas Frenhinol Caeredin (2016, t.4) fod angen deall y bwlch cyrhaeddiad yn well ac '... er gwaethaf cydnabyddiaeth yr OECD o'r cyfraniad y gall y gymuned ymchwil ei wneud i gefnogi amgylcheddau dysgu arloesol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig, ni chydnabuwyd hyn yn y Fframwaith diwygiedig.'

Mewn ymateb i'n harolwg o ran yr ymyriadau polisi fel y Fframwaith Gwella Cenedlaethol National, fynegodd arbenigwyr polisi, ar lefel athrawon, fod diffyg eglurder yn yr hyn y disgwylid i athrawon ganolbwyntio arno.

### Mynegodd arbenigwyr polisi fod defnyddio sawl ffordd o ddysgu darllen, annog darllen ac ymyriad cynnar yn allweddol ar gyfer canlyniadau darllen

Ymhlith y mentrau yr oedd arbenigwyr polisi yn eu hystyried yn bwysig ar gyfer gwella canlyniadau darllen roedd:

- ffoneg synthetig systematig, oherwydd y dystiolaeth gysylltiedig ar gyfer effeithiolrwydd, a bod angen amrywiaeth o ddulliau
- mynediad ehangach i lenyddiaeth, gyda mynediad at ddeunyddiau am ddim ar-lein i annog disgyblion i ymgysylltu a darllen
- rhaglenni ymyriad cynnar yn yr ysgolion cynradd.

Yn genedlaethol, enwyd ychydig o ymyriadau â defnydd eang a rhywfaint o effaith, er enghraifft, Her Darllen y Brif Weinidog, Darllen, Ysgrifennu a Chyfrif, a Bookbug.

#### Amlygodd arbenigwyr polisi fod gweithredu polisi yn llwyddiannus yn cynnwys eglurder ar ddangosyddion llwyddiant polisi a mentrau wedi'u hategu gan dystiolaeth

Nododd arbenigwyr polisi a ymatebodd i'n harolwg, y ffactorau allweddol canlynol fel rhai pwysig wrth weithredu polisi yn llwyddiannus: yr angen am ganlyniadau clir, mesurau llwyddiant ac amserlenni gweithredu; cynnwys arweinwyr ysgol wrth wneud penderfyniadau; a mentrau ar sail tystiolaeth.

## 2.3 Cymru

### 2.3.1 Hanes polisi

#### Darparodd perfformiad gwael yn PISA rywfaint o'r ysgogiad ar gyfer diwygio addysgol

Un o'r ffactorau a arweiniodd at ddiwygio addysg yng Nghymru oedd perfformiad PISA gwael, yn enwedig yn 2009. Cyflwynwyd y cwricwlwm cyfredol yn raddol o 2008 ac fe'i gweithredwyd yn llawn yn 2011, pan oedd carfan PISA 2018 yn 8-9 oed. Daeth rhaglenni astudio statudol diwygiedig ar gyfer Saesneg, Cymraeg (iaith gyntaf) a mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 i rym yn 2015. Mae cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru i'w ddefnyddio o fis Medi 2022.

Nod y newidiadau i'r cwricwlwm o 2008 oedd caniatáu ar gyfer integreiddio'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn well (FfLlRh) (Llywodraeth Cymru, 2013a). Offeryn cynllunio'r cwricwlwm yw'r FfLlRh ac mae'n disgrifio'r sgiliau y mae disgwyl i blant a phobl ifanc eu datblygu trwy 'ddatganiadau disgwyliad'. Mewn llythrennedd, mae'n cynnwys disgwyliadau ar draws y cwricwlwm ar gyfer llafaredd (siarad a gwrando), darllen ac ysgrifennu.

Disgwylir i athrawon ddefnyddio'r FfLlRh i:

- ddatblygu cynnwys y cwricwlwm i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfleoedd i ddatblygu a mireinio'r sgiliau a nodir yn y FfLlRh
- integreiddio llythrennedd a rhifedd i'w haddysgu, beth bynnag fo'r pwnc
- llywio trafodaethau am berfformiad dysgwyr

- helpu dysgwyr gyda'u gweithgareddau hunanasesu eu hunain a chynllunio ar gyfer dysgu
- monitro, asesu ac adrodd ar berfformiad dysgwyr unigol
- nodi dysgwyr a allai elwa o ymyriad neu sy'n gweithio y tu hwnt i ddisgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran.

Daeth y FfLlRh yn statudol o fis Medi 2013, pan oedd carfan PISA 2018 yn 10 oed. Fe'i estynnwyd (ar sail anstatudol) i gynnwys pobl ifanc 14-16 oed o fis Medi 2015, pan oedd carfan PISA 2018 yn 12-13 oed.

### Diddymwyd profion statudol y cwricwlwm cenedlaethol yn 2008 a chyflwynwyd asesiadau safonedig o ddarllen a rhifedd yn 2013 yn eu lle

Gyda chyflwyniad y cwricwlwm ysgol diwygiedig yn 2008, symudodd Cymru i ffwrdd o brofion statudol. Ers hynny, mae athrawon wedi bod yn gyfrifol am yr asesiadau disgyblion (nad ydynt yn rhai tyngedfennol) yn seiliedig ar y cwricwlwm cenedlaethol. Cyflwynwyd profion safonedig cenedlaethol mewn darllen a rhifedd ar gyfer blynyddoedd 2 i 9 ym mis Mai 2013 (Llywodraeth Cymru, 2013a) yn seiliedig ar y FfLlRh a chodwyd disgwyliadau ar gyfer perfformiad disgyblion mewn asesiadau athrawon statudol. Bellach mae disgwyl i'r mwyafrif o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 gyflawni lefel 6 mewn Saesneg, Cymraeg a mathemateg. Yn flaenorol, roedd disgwyl iddynt gyrraedd lefel 5.

### Cyflwynwyd ffocws uwch ar lythrennedd a rhifedd yn 2015

Cyflwynwyd y cynnydd hwn mewn disgwyliadau yn unol â'r rhaglenni astudio cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg a'r FhLlRh (Llywodraeth Cymru, 2015a). Newidiodd y system cymwysterau ar gyfer dysgwyr mewn addysg uwchradd hefyd. Bellach mae'n adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar lythrennedd a rhifedd mewn addysg yng Nghymru. Deilliodd hyn o gyflwyno'r FfLlRh; yr ymgyrch i wella safonau addysgol (gan ddilyn, er enghraifft, perfformiad Cymru mewn arolygon rhyngwladol o gyrhaeddiad disgyblion); ac argymhellion yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed yng Nghymru.

### Mae ffocws clir ar feithrin y Gymraeg

Un o brif nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2010) oedd gwella cynllunio addysg Gymraeg. Cyflwynodd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ofyniad i awdurdodau lleol baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn nodi sut y byddent yn gwella cynllunio addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar waith ar hyn o bryd mae Cynllun Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg 2017 - 21 (Llywodraeth Cymru, 2017), a allai fod o ddiddordeb yn y dyfodol wrth archwilio perfformiad disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg yn PISA.

Mae datblygiadau allweddol cysylltiedig â llythrennedd o ran addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 2010 a 2017 yn cynnwys:

- darparu cyllid i awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i godi safonau wrth ddysgu ac addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng Cymraeg
- cefnogi athrawon dan hyfforddiant i godi eu hyder a'u sgiliau iaith i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac i gyflwyno'r Dystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg
- ehangu cefnogaeth i hyrwyddo a chynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn yr ysgol ac mewn cyd-destunau cymdeithasol trwy'r Siarter Iaith Gymraeg.

#### Mae ysgolion sydd â chyfran uwch o ddisgyblion difreintiedig wedi bod â hawl i arian ychwanegol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion er 2012

Cyflwynwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn y flwyddyn ariannol 2012-13, pan oedd carfan PISA 2018 yn 9-10 oed. Cafodd ei ailenwi'n Grant Datblygu Disgyblion yn 2017 ac mae'n darparu arian ychwanegol i ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) ar eu cofrestr (Llywodraeth Cymru, 2013b).

### 2.3.2 Canfyddiadau o effaith

#### Mae arbenigwyr polisi yn cefnogi'r ffocws llythrennedd yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd er gwaethaf cynnydd cyfyngedig wrth wella safonau

Canfu adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd 2018-19 at ei gilydd fod safonau llythrennedd yn debyg yn fras i'r rhai dair blynedd ynghynt (Estyn, 2019). Roedd y cynnydd o ran lleihau effaith anfantais ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion mewn llythrennedd hefyd yn gyfyngedig.

Fodd bynnag, mewn ymateb i'n harolwg, roedd arbenigwyr polisi o'r farn bod y ffocws ar lythrennedd yn y FfLlRh wedi gwella canlyniadau darllen a bod arweiniad y llywodraeth ar gyfer gweithredu'r fframwaith yn allweddol i'w lwyddiant.

Mae perfformiad darllen PISA Cymru hyd yma wedi aros yn is na mewn gwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Fodd bynnag, gall y cwricwlwm diwygiedig, a ddaeth i rym yn 2015, gyda mwy o ffocws ar lythrennedd a rhifedd, effeithio ar berfformiad PISA carfannau yn y dyfodol.

#### Bu rhywfaint o welliant yng nghyrhaeddiad Cymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, ond ni ellir priodoli hyn o reidrwydd i'r Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg

Canfu adroddiad terfynol gwerthusiad tair blynedd annibynnol o Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru (2015b) y bu rhai arwyddion o lwyddiant wrth gyrraedd y targedau a osodwyd yn 2010. Adroddwyd rhywfaint o gynnydd mewn cyrhaeddiad mewn Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3. Fodd bynnag, roedd data eraill, gan gynnwys o arolwg y penaethiaid yn awgrymu bod ffactorau heblaw'r Strategaeth, megis y ffocws ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, wedi cyfrannu at y cynnydd.

**I raddau helaeth, mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion fel y bwriadwyd; credai arbenigwyr polisi fod y cyllid yn bwysig ar gyfer canlyniadau darllen disgyblion difreintiedig**

Mae  Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) yn adrodd bod ysgolion yn gyffredinol yn defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn effeithiol, yn aml ar ymyriadau llythrennedd a rhifedd, ond hefyd ar ymgysylltu disgyblion. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd academaidd allanol, yn enwedig Pecyn Cymorth EEF. At hynny, mae amwysedd ac anghysondeb ynghylch a ddylid defnyddio'r GAD ar gyfer pob disgybl PYDd (gan gynnwys disgyblion PYDd mwy galluog a thalentog) neu ar gyfer disgyblion PYDd isel eu cyrhaeddiad yn unig.

Mewn cyferbyniad, mewn ymateb i'n harolwg, cododd arbenigwyr polisi effaith gadarnhaol y GAD ar ganlyniadau darllen ar gyfer disgyblion difreintiedig ac wrth gau'r bwlch cysylltiedig. Amlygwyd lle y gallai'r GAD gael ei ddefnyddio i athrawon ddatblygu eu harfer addysgeg, gallai leihau'r angen am ymyriad yn ddiweddarach.

**Roedd arbenigwyr polisi o'r farn mai datblygiad proffesiynol ac eglurder amcanion yw rhai o'r ffactorau sy'n bwysig ar gyfer gweithredu polisi yn llwyddiannus**

Ymhlith y ffactorau a nodwyd gan arbenigwyr polisi fel rhai allweddol ar gyfer gweithredu polisi yn effeithiol roedd: y canllawiau gan y llywodraeth ar y FfLlRh; eglurder yr amcanion ar gyfer ysgolion; a datblygiad proffesiynol athrawon.

## 2.4 Gogledd Iwerddon

### 2.4.1 Hanes polisi

**Cefnogir ysgolion mewn hunanarfarnu fel rhan o'r broses arolygu ysgolion**

Yn 2003, mewn ymdrech i godi cyrhaeddiad, datblygodd yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant (ETI) Together Towards Improvement' (TTI) fel offeryn hunanarfarnu (ETI, 2010). Bu fersiynau diweddarach o'r offeryn hwn yn ffocysu ar y canlyniadau a gyflawnwyd gan y dysgwr ac ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol.

Yn 2009, cyflwynwyd polisi newydd o'r enw Pob Ysgol yn Ysgol Dda (Every School a Good School, DE, 2009).  Yn ystod y cyfnod hwn, roedd carfan PISA 2018 yn 6-7 oed. Mae'r polisi'n nodi bod 'hunanarfarnu a hunan-wella ysgolion (gyda chefnogaeth) wrth wraidd y polisi' (DE, 2009 t.9) a'i nodau yw codi ansawdd cyflawniadau a safonau plant fel y bydd pob plentyn yn gadael addysg orfodol gyda safonau llythrennedd a rhifedd priodol. Ei nod hefyd yw cefnogi ysgolion ac athrawon yn eu gwaith i godi safonau a goresgyn rhwystrau i ddysgu y gallai rhai disgyblion eu hwynebu. Mae'r polisi hwn yn cynnwys gofyniad i ddarparu cefnogaeth â ffocws i ysgolion y canfyddir eu bod, o ganlyniad i arolygiad gan yr ETI, yn cynnig darpariaeth lai na boddhaol i'w disgyblion.

### Roedd gan rieni o ardaloedd difreintiedig fynediad at y gefnogaeth a gynigiwyd gan Cychwyn Cadarn (Sure Start)

Ehangwyd rhaglen y blynyddoedd cynnar, Cychwyn Cadarn, i gwmpasu canlyniadau addysg yn 2006 (DE, 2015). Mae'r rhaglen yn seiliedig ar ardal ac wedi'i thargedu at rieni a phlant o dan bedair oed sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Fe'i cynlluniwyd i gefnogi sgiliau dysgu, iechyd a llesiant plant, a'u datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Un o'r chwe gwasanaeth craidd y mae'n rhaid eu darparu yw cefnogaeth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r prosiect yn cynnwys rhaglen ddatblygiadol benodol ar gyfer plant dwy i dair oed i'w paratoi ar gyfer cyn-ysgol, a all helpu eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, gwella eu sgiliau cyfathrebu ac iaith ac annog eu dychymyg trwy chwarae.

### Addysgwyd i ddisgyblion yng Ngogledd Iwerddon gwricwlwm sy'n ceisio ymgorffori llythrennedd fel sgil trawsgwricwlaidd

Yn 2007, pan oedd carfan PISA rhwng 4-5 oed, cyflwynwyd cwricwlwm diwygiedig Gogledd Iwerddon. Mae’r cwricwlwm yn cynnig cryn hyblygrwydd i ysgolion o safbwynt y pynciau a addysgir a’r adnoddau a ddefnyddir. Mae hefyd yn rhoi pwyslais hafal ar wybodaeth a sgiliau. Pwysleisir pwysigrwydd llythrennedd yn y cwricwlwm trwy sgil trawsgwricwlaidd Cyfathrebu. Mae Cyfathrebu’n sgil trawsgwricwlaidd drwy gydol y Cyfnodau Allweddol. Asesir y sgiliau trawsgwricwlaidd gan ddefnyddio Lefelau Dilyniant (LoP) sy'n canolbwyntio ar sgiliau yn ogystal â gwybodaeth, gyda'r data asesu statudol ar gyfer pob Cyfnod Allweddol yn cael ei goladu gan CCEA/DE. Rhwng 2007 a 2017-18, darparodd DE asesiad dewisol ar gyfrifiadur ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd ym Mlynyddoedd 4-7 (7-11 oed). Asesiadau diagnostig oedd y rhain, a ddyluniwyd i gynorthwyo ysgolion i nodi cryfderau disgyblion a meysydd i'w gwella. Ni ddarperir y rhain bellach gan fod ysgolion yng Ngogledd Iwerddon wedi llwyddo i integreiddio ystod o asesiadau llythrennedd safonol masnachol er mwyn hybu asesu ffurfiannol mewn llythrennedd.

### Mae Cyfrif, Darllen: Llwyddo (Count, Read: Succedd) yn canolbwyntio ar leihau'r bwlch rhwng disgyblion difreintiedig a'u cymheiriaid mwy breintiedig

Gwnaed ymdrechion pellach i wella canlyniadau mewn llythrennedd a rhifedd ar draws lefelau cynradd ac ôl-gynradd trwy'r strategaeth Cyfrif, Darllen: Llwyddo, a gyflwynwyd yn 2011 pan oedd carfan PISA 2018 yn 8-9 oed. Nodau'r strategaeth hon yw cefnogi athrawon ac arweinwyr ysgolion yn eu gwaith i godi lefelau cyrhaeddiad cyffredinol mewn llythrennedd a rhifedd ymhlith pobl ifanc ac i gau'r bylchau mewn canlyniadau addysgol (rhwng y disgyblion sy'n perfformio uchaf ac isaf, y rhai mwyaf a lleiaf difreintiedig, merched a bechgyn, a'r ysgolion eu hunain). Gosododd y strategaeth dargedau tymor hir ar lefel system i annog codi safonau ar draws pob ysgol ac i fesur perfformiad ysgolion ar gyfer 2019-20 gyda thargedau carreg filltir erbyn 2011-12 a 2014-15 (DE, 2011).

## Mae polisïau pellach wedi darparu cefnogaeth wedi'i thargedu ar gyfer disgyblion difreintiedig

Roedd Deall Anawsterau mewn Datblygiad Llythrennedd yn rhaglen datblygiad proffesiynol gyda llythrennedd yn ganolbwynt craidd. Cafodd ei chynnal rhwng 2012 i 2015 ac fe'i hariannwyd gan y DE (2012a) i gefnogi amcanion strategol 'Pob Ysgol yn Ysgol Dda' a 'Cyfrif, Darllen: Llwyddo'. Nod craidd y rhaglen oedd gwella sgiliau athrawon mewn ysgolion cynradd ar gyfer dysgu darllen, ysgrifennu a sillafu trwy hyfforddiant ysgol gyfan, a thrwy hynny alluogi ysgolion i nodi a mynd i'r afael ag anawsterau llythrennedd. Y nod oedd lleihau'r ddibyniaeth ar gefnogaeth allanol trwy ddatblygu gallu athrawon i nodi a mynd i'r afael â ffactorau a allai beri i blant dangyflawni a syrthio o dan safonau llythrennedd priodol. Roedd y prosiect hefyd yn cynnig hyfforddiant arbenigol i Gydlynwyr Anghenion Addysgol Arbennig ac athrawon, i'w galluogi i nodi plant ag anawsterau llythrennedd, asesu eu hanghenion unigol a darparu ymyriadau priodol.

Roedd dwy fenter tymor byr yn 2013-15 i gefnogi codi cyrhaeddiad mewn Llythrennedd a Rhifedd. Trwy'r prosiect Hybu Gwelliant mewn Darllen a Mathemateg, cynigiodd yr Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant (2016) waith datblygu, cefnogaeth, her a meithrin gallu i ysgolion ôl-gynradd. Y nod oedd codi cyflawniad TGAU mewn Saesneg a Mathemateg, yn enwedig ar gyfer disgyblion sydd â hawl i PYDd. Roedd y prosiect yn cynnwys cyfanswm o bedair ysgol ar bymtheg, gan gynnwys naw ysgol lle'r oedd y ffocws ar Saesneg.

Yn 2012, lansiwyd y Rhaglen Nodwedd Llythrennedd a Rhifedd (Literacy and Numeracy Signature Programme) a oedd â'r nod o wella llythrennedd a rhifedd fel rhan o fenter ehangach gan y llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol. Recriwtiwyd athrawon a oedd wedi cymhwyso'n ddiweddar nad oeddent mewn swydd addysgu barhaol ar gontractau tymor penodol dwy flynedd i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion oedd mewn perygl o dangyflawni. Nod y rhaglen oedd cynyddu nifer y disgyblion mewn ysgolion cynradd sy'n cyflawni ar y lefel ddisgwyliedig neu'n uwch ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn Llythrennedd a Rhifedd a'r rhai mewn ôl-gynradd sy'n cyflawni gradd C neu'n uwch o leiaf mewn TGAU Saesneg a TGAU Mathemateg. Anelwyd y ddau gynnydd yn benodol at y rhai sydd â hawl i PYDd (DE, 2012b).

Wedi'i lansio ym mis Mai 2006, pan oedd carfan PISA 2018 yn 3-4 oed, mae Ysgolion Estynedig (Extended Schools) yn fenter sefydledig wedi'i thargedu at gymunedau difreintiedig ac mae'n darparu cyllid i wella lefelau cyflawniad addysg, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd. Darperir gwasanaethau neu weithgareddau, megis clybiau gwaith cartref, y tu allan i'r diwrnod ysgol arferol i helpu i ddiwallu anghenion dysgu a datblygu disgyblion, eu teuluoedd a chymunedau lleol (DE, 2006).

Yn ogystal, darperir cyllid ychwanegol sylweddol i gefnogi plant o gefndiroedd o dan anfantais yn uniongyrchol i ysgolion drwy'r Cynllun Cyllido Cyffredin (DfE, 2005).

Mae Gwasanaeth Llythrennedd yr Awdurdod Addysg (EA) yn cefnogi ysgolion i ddarparu cefnogaeth llythrennedd cylchynol ar gyfer disgyblion ag anhawster llythrennedd. Mae'r Gwasanaeth yn cyflogi tîm o tua 100 o staff. Mae'n darparu continwwm eang o gymorth

sy’n cynnwys adeiladu capasiti ac hyfforddiant, adnoddau ar-lein ac arweiniad i rieni, gan gynnwys y defnydd o dechnoleg gynorthwyol. Mae’r cyngor ac arweiniad wedi’i seilio ar asesu anghenion y disgybl a gall gynnwys mynediad i grwpiau bach neu ymyriadau uniongyrchol.

### 2.4.2 Canfyddiadau o effaith

#### Mae hunanarfarnu ysgolion yn gweithio'n dda pan mae'n cael ei yrru gan ddata ac mae gwerthuso mewnol yn cyd-fynd â gwerthuso allanol; mae capasiti a chyd-destun yn her

Nododd adolygiad OECD (2013) o fframweithiau gwerthuso ac asesu ysgolion fod y polisïau gwerthuso ac asesu yng Ngogledd Iwerddon yn dilyn yr egwyddorion a nodwyd gan yr OECD ar gyfer datblygu fframwaith cydlynol ar gyfer gwerthuso ac asesu mewn sawl ffordd. Nodwyd bod cefnogaeth sefydledig wedi'i theilwra'n cael ei darparu i ysgolion i hyrwyddo'r defnydd o ddata mewn gweithgareddau hunanarfarnu ac alinio rhwng yr offerynnau ar gyfer gwerthuso ysgolion yn allanol (arolygu) a hunanarfarnu ysgolion. Gan gyfeirio at y polisi gwella ysgolion, Pob Ysgol yn Ysgol Dda, dywedodd arbenigwyr polisi, mewn ymateb i’n harolwg, fod mentrau ar raddfa lai yn fwyaf llwyddiannus, lle yr oedd polisi’n glir ac wedi’i integreiddio’n dda.

Nododd adolygiad yr OECD (2013) fod heriau hefyd, gan gynnwys amrywioldeb o ran gallu hunanarfarnu ymhlith arweinwyr ysgolion a Byrddau Llywodraethu, a’r angen i roi cyfrif am gyd-destun ysgol wrth werthuso perfformiad.

#### Mae ymyrraeth gynnar a dull integredig yn allweddol i roi'r cychwyn gorau i ddisgyblion dan anfantais

Gwerthuswyd Cychwyn Cadarn yn gadarnhaol gan yr ETI (2018, t4), a ddywedodd "Ym mhob prosiect mae tystiolaeth o welliant cyffredinol yn sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu plant o ganlyniad i'w cyfranogiad yn Cychwyn Cadarn ac o nodi oedi yn sgiliau iaith a chyfathrebu plant yn gynnar.'

Yn yr un modd, o ymatebion i’r arolwg, mynegodd arbenigwyr polisi farn gadarnhaol debyg ar effaith Cychwyn Cadarn ar ganlyniadau llythrennedd, yn enwedig ar gyfer plant mewn ardaloedd dan anfantais neu sydd mewn perygl o niwed. Roedd y rhain yn cynnwys cyfeiriad at waith Cychwyn Cadarn gyda'r Ymddiriedolaeth Llyfrau a llyfrgelloedd lleol i hyrwyddo diddordeb ac ymgysylltiad â llyfrau o'r cam cynharaf ac wrth adeiladu gallu staff a rhieni i gefnogi'r sgiliau sy'n sylfaenol ar gyfer llwyddiant darllen yn y dyfodol. Amlygodd sylwadau eraill ddull cydgysylltiedig rhwng yr holl adrannau/partneriaid dan sylw, gyda Cychwyn Cadarn yn cael ei roi fel enghraifft.

#### Mae sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion wedi cynyddu ers cyflwyno Cyfrif, Darllen: Llwyddo; mae perfformiad darllen PISA wedi aros yn sefydlog er 2006

Gwerthusodd Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon (NIAO, 2013) Cyfrif, Darllen: Llwyddo a chanfu fod lefelau cyflawniad mewn llythrennedd a rhifedd yng Nghyfnodau Allweddol 2,

3 a 4 wedi cynyddu'n llwyddiannus yn unol â'r targedau a nodwyd yn y strategaeth. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd nodi bwlch eang rhwng y plant sy'n cyflawni uchaf ac isaf, a phwysleisiwyd bod perfformiad llythrennedd mewn ysgolion cynradd ac ôl-gynradd yn parhau i achosi pryder i'r ETI.

Roedd DE (2011) wedi gosod targedau Cyfrif, Darllen: Llwyddo o 70% neu'n uwch o ddisgyblion Blwyddyn 12 i gyflawni pump neu fwy TGAU ar raddau A*-C (neu gyfwerth) gan gynnwys Saesneg a mathemateg erbyn 2019-20. Adroddodd y DE (2019) fod 72.8% o'r disgyblion hyn wedi cyflawni'r dangosydd hwn. Yr un targed yn 2019-20 ar gyfer disgyblion â hawl i PYDd oedd 65% ac uwch, gyda 54.1% yn cyrraedd hyn yn 2018-19.

### Mae gweithredu polisi'n effeithiol yn gofyn am gydweithrediad â gweithwyr proffesiynol addysgu a dylai gael ei gefnogi gan ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP)

Amlygodd ymatebion yr arbenigwyr polisi i'n harolwg bwysigrwydd consensws ac ymrwymiad ar draws lefelau system ac ysgol, a hefyd DPP o ansawdd uchel i gefnogi mentrau fel rhywbeth allweddol i weithredu polisi yn llwyddiannus.

# 3 Safbwyntiau Gweriniaeth Iwerddon

Yn ogystal â'r adolygiad polisi a'r arolwg o gydweithwyr polisi mewn adrannau addysg ym mhob un o'r pum gwlad, gwnaethom gynnal cyfweliadau manwl ag uwch weithwyr proffesiynol addysg yng Ngweriniaeth Iwerddon. Ein nod oedd archwilio eu dealltwriaeth a'u profiad o hanes, datblygiad a gweithrediad polisi all fod wedi effeithio ar garfan PISA 2018.

## 3.1 Cefndir polisi yng Ngweriniaeth Iwerddon

**Pa bolisïau y mae arbenigwyr polisi Gweriniaeth Iwerddon yn eu hystyried bwysicaf o ran gwella cyrhaeddiad darllen?**

Roedd arbenigwyr polisi o'r farn mai dau bolisi yn benodol gafodd yr effaith fwyaf ar gyrhaeddiad darllen yn ystod addysg carfan PISA 2018:

- Delivering Equality of Opportunity in Schools (DEIS)
- Literacy and Numeracy for Learning and Life: The National Strategy to Improve Literacy and Numeracy among Children and Young People 2011 – 2020 (NLNS)

Caiff elfennau allweddol y ddwy brif linyn polisi hyn, Cyflwyno Cyfle Cyfartal mewn Ysgolion (DEIS, ynganir fel 'desh'; Gwyddeleg am 'gyfle') (DES, 2005) a'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd Genedlaethol (NLNS) (DES, 2011a) eu harchwilio yn adrannau 3.1.1 i 3.1.4.

### 3.1.1 Cyflwyno Cyfle Cyfartal mewn Ysgolion

#### Mae Cyflwyno Cyfle Cyfartal mewn Ysgolion (DEIS) yn adeiladu ar hanes hir o bolisïau sy'n targedu anfantais

Dechreuwyd cyflwyno'r cynllun gweithredu Cyflwyno Cyfle Cyfartal mewn Ysgolion (DEIS) yn 2005, pan oedd carfan PISA 2018 yn 2-3 oed. Mae gwreiddiau DEIS yn mynd yn ôl o leiaf ddau ddegawd cyn hyn, sy’n golygu y gallai fod wedi effeithio ar gylchoedd PISA blaenorol. Ceisiodd DEIS syntheseiddio nifer o fesurau blaenorol, megis y Disadvantaged Areas Scheme, Breaking the Cycle, Giving Children an Even Break a'r Home School Community Liaison Scheme, yn un polisi gyda sawl llinyn llai. Cynigir rhywfaint o hyblygrwydd a dewis i ysgolion o ran y moddau cymorth a gynigir - gallant ddefnyddio'r rhai a fyddai, yn eu barn hwy, yn fwyaf buddiol ar gyfer eu hysgol benodol. Disgrifir y gyfres lawn o gymorth yn fanwl yn Atodiad 1 Cynllun DEIS (DES, 2017b).

Daethpwyd â mentrau blaenorol, annibynnol, a oedd yn mynd i’r afael ag agweddau penodol ar anfantais ynghyd yn DEIS, gyda’r rhesymeg:

> '... mae cyfraddau tangyflawniad addysgol a gadael ysgol yn gynnar yn parhau i fod yn llawer uwch i ddisgyblion o gymunedau difreintiedig nag i ddisgyblion eraill' (DES, 2005, t.8)
>
> a bod '... tystiolaeth gref dros y cynnig bod yr anfantais sy'n gysylltiedig â thlodi ac allgáu cymdeithasol yn tybio effaith lluosydd pan fydd nifer fawr o ddisgyblion mewn ysgol o gefndir difreintiedig tebyg.' (DES, 2005, t.27)

Roedd elfennau craidd DEIS yn cynnwys system safonol ar gyfer nodi ac adolygu lefelau anfantais yn rheolaidd, a Rhaglen Cymorth i Ysgolion (SSP) integredig newydd a ddaeth ynghyd ag adeiladu ar ymyriadau presennol ar gyfer ysgolion a chlystyrau/cymunedau ysgolion sydd â lefel ddwys o anfantais addysgol.

Ehangwyd y cynllun yn raddol i gynnwys ystod eang o gefnogaeth mewn ysgolion cynradd ac ôl-gynradd dethol, wedi'u targedu at ardaloedd difreintiedig. Mae enghreifftiau o raglenni o dan yr SSP yn cynnwys mynediad i'r Rhaglen Prydau Ysgol, cefnogaeth llythrennedd a rhifedd fel Reading Recovery, First Steps a Maths Recovery, ystod o gynlluniau datblygiad proffesiynol athrawon, a chyllid ychwanegol ar gyfer llyfrau. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys ffocws o'r newydd ar fesur cynnydd yn systematig.

### Mae ymgysylltu â'r teulu a'r gymuned yn ffocws cryf

Neilltuir cydlynydd Cysylltu Cartref, Ysgol a Chymuned (Home School Community Liaison, HSCL) i bob ysgol, a'i rôl yw annog, cefnogi a hwyluso partneriaeth rhwng rhieni o gefndiroedd difreintiedig ac athrawon i wella addysg gyffredinol plant. Mae'r rôl yn cynnwys:

- treulio o leiaf un rhan o dair o'u hamser yn ymweld â chartrefi disgyblion er mwyn adeiladu cysylltiadau ymddiriedaeth rhwng y cartref a'r ysgol.
- annog rhieni i gymryd rhan yn addysg eu plentyn.
- darparu gwybodaeth am yr ysgol, gan gynnwys rhaglenni cymorth llythrennedd, ac am wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned.
- chwilio am ddarpar arweinwyr rhieni sy'n barod i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r cynllun HSCL ac i weithredu fel adnodd i rieni eraill.
- monitro effeithiolrwydd ymyriadau ar waith.

### Dyrennir cefnogaeth i ysgolion yn unol â lefel yr anfantais leol

Mae ysgolion cynradd ac ôl-gynradd sy'n cymryd rhan yn DEIS yn derbyn cefnogaeth ac adnoddau ychwanegol sylweddol, gan gynnwys staffio ychwanegol. Mae lefel y cymorth a'r adnoddau ychwanegol a ddyrennir i ysgolion sy'n cymryd rhan yn DEIS yn amrywio yn ôl lefel yr anfantais yng nghymuned yr ysgol.

- Lle mae lefel yr anfantais ar ei mwyaf, mae ysgolion cynradd trefol/tref yn cael eu dosbarthu fel Band 1 DEIS.
- Dosberthir gweddill yr ysgolion cynradd trefol/tref sy'n cymryd rhan fel Band 2 DEIS.
- Mae ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu cymunedau gwledig, gan gynnwys trefi â phoblogaethau o dan 1,500, wedi'u cynnwys yn llinyn Gwledig DEIS.
- Mae'r gwahaniaeth trefol-gwledig yn bresennol ar lefel gynradd yn unig.

Mae pob ysgol DEIS yn derbyn cyngor Arolygiaeth ar hunanarfarnu ysgolion. Mae gan ysgolion yn Band 1 DEIS niferoedd uwch o ddisgyblion o gefndiroedd Teithwyr, y rhai nad ydyn nhw'n siarad Saesneg a'r rhai ag anghenion addysgol arbennig (Smyth *et al*., 2015).

## 3.1.2 Gwerthusiadau o DEIS

### Mae asesu effeithiolrwydd DEIS yn nodwedd allweddol sydd wedi'i chynnwys yn y polisi

Roedd canfyddiadau allweddol ar effaith DEIS hyd 2011 (DES, 2011b) yn darparu tystiolaeth i awgrymu bod y rhaglen yn mynd i'r afael ag anfantais addysgol yn effeithiol ac yn cynnwys:

- gwelliannau ystadegol arwyddocaol yn lefelau mathemateg a darllen disgyblion yn yr 2il, 3ydd a 6ed dosbarth (ysgol gynradd)
- gwelliannau arwyddocaol ym mhresenoldeb cyffredinol disgyblion ym mron pob ysgol gynradd DEIS a bron i hanner yr ôl-gynradd
- roedd llawer o agweddau ar raglen DEIS yn cael eu gweithredu fel y'u cynlluniwyd yn wreiddiol. Cafodd themâu DEIS, sef presenoldeb, llythrennedd, rhifedd a phartneriaeth â rhieni eu blaenoriaethu ym mhrosesau cynllunio DEIS pob un o'r ysgolion cynradd a gymerodd ran. Canfuwyd bod cydlynwyr HSCL a phersonél y School Completion Programme (SCP) yn cydweithredu'n effeithiol ag ysgolion i wella presenoldeb disgyblion yn y mwyafrif helaeth o'r ysgolion cynradd ac yn y mwyafrif o ysgolion ôl-gynradd.
- roedd y canlyniadau ar gyfer ysgolion yn well lle roedd gweithgareddau cynllunio ysgolion yn gryfach o ran, er enghraifft, cyflawniad llythrennedd, gan gwmpasu gosod targedau a monitro cynnydd; defnyddio data asesu i nodi anghenion dysgu ac i gynllunio strategaethau a gweithgareddau dysgu priodol; a phan ymgorfforwyd cefnogaeth llythrennedd a rhifedd yn y gweithgareddau hyn.

Canfu gwerthusiadau pellach amrywiad ymhlith ysgolion DEIS mewn canlyniadau disgyblion dros y cyfnod 2007 i 2013 (Smyth *et al.* 2015, t viii):

- Canfuwyd bod gan yr ysgolion mwyaf difreintiedig (ysgolion cynradd Band 1 DEIS) sgoriau darllen a mathemateg llawer is ar gyfartaledd yn ogystal â chrynodiad uwch o ddisgyblion â sgoriau prawf isel iawn.
- Roedd gan ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion DEIS gwledig sgoriau prawf cyflawniad arwyddocaol uwch na'u cymheiriaid mewn ysgolion trefol DEIS.

- Ar lefel ôl-gynradd, roedd y bwlch yng ngraddau'r Dystysgrif Iau ar gyfartaledd yn culhau ychydig, ond yn arwyddocaol, yn ogystal ag mewn graddau Saesneg rhwng ysgolion DEIS ac ysgolion nad ydynt yn ysgolion DEIS dros y cyfnod 2003 i 2011.

Esboniad posibl a gynigir am yr amrywiad trefol/gwledig mewn sgoriau profion oedd bod mwy o ymgysylltiad rhieni mewn addysg plant mewn cartrefi gwledig ac ei bod yn ymddangos bod gan blant gwledig fwy o fynediad at ddeunyddiau addysgol na'u cyfoedion trefol (Weir a McAvinue, 2013).

**Blwch 1: Beth mae PISA 2018 yn ei ddweud wrthym am y gwahaniaethau rhwng yr holl ysgolion trefol a gwledig?**

Er bod y gwahaniaeth mwyaf rhwng ysgolion trefol a gwledig yng Ngogledd Iwerddon, yn PISA 2018, ni chafwyd unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn perfformiad darllen rhwng ysgolion mewn dinasoedd a’r rhai mewn trefi a phentrefi yn unrhyw rai o’r pum gwlad.




Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

## Mae adolygiadau parhaus o DEIS wedi llywio'r cynllun DEIS diwygiedig

Er bod cynnydd wedi'i gydnabod[7], nododd adolygiad a gwerthusiad parhaus amrywiad ymhlith ysgolion DEIS ar gyfer canlyniadau disgyblion ac, o ganlyniad, mae Cynllun DEIS diwygiedig (DES, 2017b) wedi'i weithredu o 2017.

Mae Cynllun DEIS 2017 (DES, 2017b, t.6) yn amlinellu nodau’r Adran ar gyfer gwella addysg ymhellach ar gyfer y rhai sydd ‘mewn perygl o anfantais addysgol ac allgáu

[7] Gweler hefyd y llinyn polisi allweddol arall, y Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, yn adran 3.1.3 isod

cymdeithasol'. Roedd y Cynllun yn seiliedig ar adolygiadau parhaus o DEIS ac ystod o ymrwymiadau yn y Programme for a Partnership Government a'r Action Plan for Education (gweler 3.1.5 am amlinelliad o'r Cynllun hwn). Mae'n cyflwyno set uchelgeisiol o amcanion a chamau gweithredu i gefnogi plant sydd fwyaf mewn perygl o anfantais addysgol ac yn cyflwyno'r camau sy'n ofynnol i'w cefnogi yn seiliedig ar y nodau allweddol canlynol:

- 'gweithredu Fframwaith Asesu mwy cadarn ac ymatebol ar gyfer adnabod ysgolion a dyrannu adnoddau'n effeithiol
- gwella'r profiad dysgu a'r canlyniadau yn ysgolion DEIS
- gwella capasiti arweinwyr ysgolion ac athrawon i ymgysylltu, cynllunio a defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf manteisiol
- cefnogi gwaith ysgolion trwy ddarparu'r ymchwil, gwybodaeth, gwerthuso ac adborth i gyflawni nodau'r Cynllun.' (DES, 2017b, t.9)

### Mae'r cynllun DEIS diwygiedig yn gosod targedau mwy heriol i fynd i'r afael â thanberfformio parhaus disgyblion mewn ysgolion difreintiedig

Gosodwyd targedau llythrennedd a rhifedd newydd, gyda'r nod o gynyddu cyfran y disgyblion mewn ysgolion DEIS sy'n perfformio ar y lefelau uwch yn yr Asesiadau Cenedlaethol ac mewn darllen a mathemateg PISA erbyn 2020, a lleihau'r gyfran sy'n perfformio ar y lefelau is yn yr asesiadau hyn. Roedd y camau i alluogi'r targedau yn cynnwys:

- 'Treialu arloesedd trwy fabwysiadu dulliau newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fynd i'r afael â thanberfformio mewn ysgolion DEIS mewn meysydd fel llythrennedd a rhifedd (gyda chefnogaeth y School Excellence Fund i annog datblygu a gweithredu arfer da sy'n addas i'w gymhwyso'n ehangach)
- Cymorth datblygu wedi'i dargedu i athrawon yn ysgolion Band 1 DEIS i gynorthwyo ysgolion i ddyfeisio strategaethau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau i gyflawni'r targedau cynnydd penodol ar gyfer yr ysgolion hyn yn yr NLNS
- Gwell gweithio rhyngasiantaeth i sicrhau bod yr ystod o gymorth ar gyfer ysgolion DEIS yn cael ei ddarparu'n fwy effeithiol. Cynhwysir gweithredoedd sydd â'r nod o wella parodrwydd plant cyn-ysgol ar gyfer yr ysgol, cynyddu effeithiolrwydd cefnogaeth ymddygiadol a therapiwtig ac integreiddio gwasanaethau sy'n cefnogi presenoldeb, cadw a dilyniant ysgolion. (DES, 2017a, t.4)

### Mae disgyblion mewn ysgolion DEIS yn sgorio'n is na disgyblion mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion DEIS, ond mae tystiolaeth o PISA bod y bwlch wedi culhau

Adroddodd Gilleece *et al.* (2020) ar ganlyniadau PISA disgyblion DEIS a'r rhai nad ydynt yn DEIS a chanfuwyd bod gan ddisgyblion mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion DEIS sgoriau cymedrig arwyddocaol uwch mewn darllen, mathemateg a gwyddoniaeth na'u cyfoedion yn ysgolion DEIS. (O'r holl ddisgyblion a gymerodd ran yn PISA 2018 yng Ngweriniaeth Iwerddon, roedd 24% yn mynychu ysgol DEIS.) Mae canfyddiadau eraill sy'n ymwneud â darllen yn cynnwys:

- Sgor darllen gyfartalog disgyblion yn ysgolion DEIS oedd 479.  Mae hyn ar lefel cyfartaledd yr OECD (487). Cyflawnodd disgyblion mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion DEIS sgôr darllen gymedrig o 530, yn arwyddocaol uwch na chyfartaledd yr OECD.
- Roedd gan ddisgyblion yn ysgolion DEIS gyflawniad arwyddocaol is ar bob un o'r tair is-raddfa ddarllen na'u cymheiriaid mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion DEIS. Ar bob is-raddfa, roedd y bwlch oddeutu 50 pwynt.
- Yn ymwneud ag agweddau disgyblion ac ymgysylltu â darllen, nododd canran uwch o ddisgyblion mewn ysgolion DEIS nad oeddent yn darllen o gwbl er mwynhad (59%) o gymharu â disgyblion mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion DEIS (44%). Nododd disgyblion yn ysgolion DEIS hefyd hunan-gysyniad llai cadarnhaol mewn cymhwysedd darllen o'i gymharu â disgyblion mewn ysgolion nad ydynt yn ysgolion DEIS.

Yn ystod hanner cyntaf 2021, ategir adroddiad Gilleece *et al.* (2020) gan adroddiad cyd-destunol yn tynnu ar PISA 2018. Mae'r canfyddiadau uchod yn gyson â dadansoddiad hydredol a gyhoeddwyd yn 2015 (McAvinue a Weir, 2015). Ynddo cofnodwyd rhywfaint o gulhau'r bwlch rhwng disgyblion mewn ysgolion DEIS ac ysgolion nad ydynt yn DEIS rhwng 2002 a 2016 ar Saesneg y Dystysgrif Iau (a safwyd yn oed 14-15). Roedd hyn hefyd yn wir am ddarllen PISA rhwng 2009 a 2018.

### 3.1.3 Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd

Yr ail linyn polisi mawr y nododd ein harbenigwyr addysg ei fod yn cael effaith ar addysgu a dysgu llythrennedd oedd cyflwyno'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd (NLNS).

#### Mae dull trawsgwricwlaidd yr NLNS yn canolbwyntio ar ddatblygiad proffesiynol, cyfranogiad rhieni a gwerthuso ysgolion yn systematig

Mewn ymateb i ddiffyg gwelliant mewn Asesiadau Cenedlaethol ers yr 1980au a pherfformiad PISA is na'r disgwyl yn 2009 (Shiel *et al*. 2014), datblygwyd Literacy and Numeracy for Learning and Life: The National Strategy to Improve Literacy and Numeracy among Children and Young People 2011–2020 (NLNS) (DES, 2011a). Roedd carfan PISA 2018 rhwng 8 a 9 oed yn 2011 pan lansiwyd y strategaeth. Er ei bod wedi'i chynllunio i wella canlyniadau llythrennedd a rhifedd i bawb, mae ffocws penodol ar gefnogi anghenion plant a phobl ifanc o gefndiroedd cymdeithasol ddifreintiedig. Mae'r strategaeth yn cwmpasu'r ystod oedran ysgol gyfan, o blentyndod cynnar (genedigaeth i chwech oed) i ddiwedd addysg ôl-gynradd gyda ffocws ar:

- gwella sgiliau ymarferwyr mewn addysgu ac asesu llythrennedd a rhifedd gan gynnwys hyfforddiant estynedig athrawon o 2014
- galluogi rhieni a chymunedau i gefnogi llythrennedd a rhifedd plant
- sicrhau agwedd drawsgwricwlaidd tuag at lythrennedd a rhifedd a mwy o amser llythrennedd i ddisgyblion

- cefnogi'r rheini ag anghenion dysgu i gyflawni eu potensial (gan gynnwys trwy fynediad i'r Gwasanaeth Datblygiad Proffesiynol i Athrawon)
- gwella asesu a gwerthuso (rhannu data gyda rhieni a lleoliadau)
- gwerthuso ysgolion yn systematig gyda chefnogaeth timau arolygu (er engraifft, seminarau ar lythrennedd asesu ar gyfer athrawon).

### Mae'r targedau'n canolbwyntio ar lythrennedd a rhifedd cynnar a lleihau'r bwlch cyflawniad trwy fesurau cenedlaethol a rhyngwladol

Mae ffocws ar wella cymhwysedd cyfathrebu a iaith lafar plant ifanc mewn lleoliadau gofal ac addysg plentyndod cynnar a'u parodrwydd i ddatblygu iaith a syniadau mathemategol cynnar.

Mae yna dargedau cenedlaethol a rhyngwladol gyda'r nod o leihau'r bwlch cyflawniad. Nod y rhain yw lleihau cyfran y disgyblion ar y lefelau isaf a chynyddu'r gyfran ar y lefelau uchaf mewn Asesiadau Cenedlaethol yn y cynradd a'r ôl-gynradd. Targedau mewn perthynas â PISA oedd i gynyddu canran y disgyblion sy'n perfformio ar Lefel 4 neu'n uwch (ar y lefelau uchaf) mewn darllen a mathemateg PISA gan o leiaf 5 pwynt canran erbyn 2020 ac i haneru canran y disgyblion sy'n perfformio ar Lefel 1 neu'n is (y lefelau isaf) yn y pynciau hyn erbyn 2020 (gweler 3.1.4 isod).

Mae yna dargedau hefyd sy'n gysylltiedig â llythrennedd digidol, gan gynnwys asesu gallu disgyblion cynradd i ddarllen deunydd digidol fel rhan o'r asesiadau cenedlaethol o ddarllen Saesneg.

Gweithredwyd rhai gofynion ychwanegol ar gyfer ysgolion cynradd o 2012, pan oedd carfan PISA 2018 yn 9-10 oed ac yn  y 4$^{ydd}$ dosbarth. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r amser a dreulir ar ddatblygu sgiliau llythrennedd un awr yr wythnos ar gyfer iaith, ac i ysgolion cyfrwng Saesneg weithredu profion safonedig mewn darllen Saesneg a mathemateg ar gyfer pob disgybl yn yr 2$^{il}$, 4$^{ydd}$ a 6$^{ed}$ dosbarth. Yn ystod y blynyddoedd hynny, byddai carfan PISA 2018 wedi bod yn 7-8, 9-10 a 11-12 oed, yn y drefn honno. Adroddir canlyniadau'r disgyblion i rieni, ac adroddir canlyniadau cyfun yr ysgolion i'r Adran Addysg a Sgiliau i lywio polisi a nodi ffyrdd o wella perfformiad y system ysgolion. Ni chyhoeddir data fel rhan o unrhyw dabl cynghrair ysgolion nac arolygiad, na'u defnyddio i gymharu perfformiad ar draws ysgolion.

### Mae'r dull trawsgwricwlaidd o lythrennedd a rhifedd wedi'i ymgorffori yn y Cylch Iau diwygiedig

Tynnodd yr NLNS sylw hefyd at ddiwygio'r Cylch Iau fel gweithred allweddol. O fis Medi 2014, pan oedd carfan PISA 2018 rhwng 11 a 12 oed ac ym mlwyddyn olaf yr ysgol gynradd, cyflwynwyd Cylch Iau newydd mewn ysgolion ôl-gynradd, gan ddisodli'r arholiad Tystysgrif Iau blaenorol gyda'r Junior Cycle Profile of Achievement (JCPA). Mae'r Cylch Iau yn cwmpasu tair blynedd gyntaf yr ysgol ôl-gynradd (12-15 oed) ac mae'r Cylch newydd yn cynnwys pynciau diwygiedig a chyrsiau byr, ffocws ar lythrennedd, rhifedd a sgiliau allweddol, a dulliau newydd o asesu ac adrodd. Defnyddir dull trawsgwricwlaidd,

gyda sgiliau allweddol Being Literate a Being Numerate wedi'u hymgorffori yn y canlyniadau dysgu ar gyfer pob pwnc. Mae gan ysgolion hyblygrwydd ac ymreolaeth wrth benderfynu ar y modd y maent yn gwella'r pwyslais ar lythrennedd a rhifedd, er enghraifft, amserlennu dosbarthiadau ychwanegol ar gyfer Saesneg a mathemateg (hefyd ar gyfer Gwyddeleg yn achos ysgolion cyfrwng Gwyddeleg), yn ogystal â darparu cyfleoedd ystyrlon ar gyfer datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws pynciau. Nod yr NLNS yw hwyluso'r trosglwyddiad rhwng ysgolion cynradd ac ôl-gynradd trwy, er enghraifft, gydlynu cefnogaeth i fentrau sy'n galluogi rhieni, teuluoedd a chymunedau i gefnogi llesiant a dysgu plant ac sy'n cryfhau cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgolion. Soniodd arbenigwyr polisi am wasanaethau gan gynnwys Cysylltu Cartref Ysgol a Chymuned (HSCL) a'r Gwasanaeth Seicolegol Addysg Cenedlaethol (NEPS) fel nodweddion cefnogaeth pwysig i ddisgyblion yn y cam trosglwyddo hwn ac fe'u trafodir yn fanylach yn Adran 3.2.3.

#### Llythrennedd a rhifedd yw craidd hunanarfarnu ysgolion

Cyflwynwyd hunanarfarniad systematig ysgolion ar gyfer lefelau cynradd ac ôl-gynradd yn 2012-13 (DES, 2016a), pan oedd carfan PISA rhwng 9 a 10 oed. Y bwriad yw iddi fod yn broses gydweithredol, fyfyriol o adolygiad mewnol o ysgolion gyda ffocws ar weithrediad ysgolion o'r NLNS. Yn y cylch pedair blynedd cyntaf o hunanarfarnu ysgolion (2012-16), roedd yn ofynnol i ysgolion ddatblygu a gweithredu cynlluniau gwella ar gyfer llythrennedd, rhifedd, a maes cwricwlwm arall y gwnaethant ei ddewis eu hunain. Roedd yn ofynnol yn benodol i ysgolion cyfrwng Gwyddeleg ganolbwyntio ar lythrennedd mewn Gwyddeleg, llythrennedd mewn Saesneg, a rhifedd. Yn y modd hwn, rhoddodd hunanarfarniad ysgolion broses i ysgolion weithredu menter genedlaethol, a hefyd ar gyfer nodi a gweithio ar faes cwricwlwm neu agwedd ar ddysgu ac addysgu a fyddai'n ystyrlon iddynt. Disgwylid y byddai'r rhan fwyaf o ysgolion ôl-gynradd yn parhau i ddefnyddio'r broses hunanarfarnu ysgolion yn y cyfnod 2016-20 i gynnal ffocws ystyrlon ar lythrennedd a rhifedd ac i'w cynorthwyo i gyflwyno ac ymgorffori'r Fframwaith ar gyfer Cylch Iau (2015).

### 3.1.4 Adolygiad o'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd

#### Mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y disgyblion sy'n perfformio ar y lefelau uwch a'r lefelau is yn yr Asesiadau Cenedlaethol wedi culhau rhwng 2011 a 2016

Adroddodd adolygiad interim DES (2017a) ar gynnydd rhwng 2011 a 2016 welliannau mewn llythrennedd, gan gynnwys:

- Dangosodd yr Asesiadau Cenedlaethol Mathemateg a darllen Saesneg (NAMER) a gynhaliwyd yn 2014 y gwelliannau arwyddocaol cyntaf mewn perfformiad gan ddisgyblion cynradd mewn darllen Saesneg a mathemateg yn yr 2il a'r 6ed dosbarth mewn dros 30 mlynedd. Mae canran y disgyblion yn y dosbarthiadau hyn ar y lefelau uwch ac is yn y NAMER wedi cynyddu a gostwng, yn y drefn honno, yn unol â'r targedau a osodwyd yn 2011.

- Gwnaed rhywfaint o gynnydd tuag at dargedau darllen PISA hefyd, gyda 37% o ddisgyblion yn perfformio ar lefel 4 neu'n uwch yn PISA 2015 (y targed ar gyfer 2020 a osodwyd yn 2011 oedd 34%). Fodd bynnag, perfformiodd 10% o'r disgyblion ar Lefel 1 neu'n is (y targed ar gyfer 2020 a osodwyd yn 2011 oedd 8.5%). Yn PISA 2018, perfformiodd 36% o ddisgyblion ar Lefel 4 ac uwch, ond roedd 12% o'r disgyblion ar Lefel 1 ac is.

Nodwyd heriau hefyd yn adolygiad 2017, gyda'r bwlch mewn cyflawniad llythrennedd a rhifedd rhwng ysgolion sydd â'r crynhoad uchaf o anfantais ac ysgolion eraill yn parhau i fod yn arwyddocaol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, gweithredwyd Cynllun DEIS 2017 fel yr amlinellwyd uchod.

Mae dadansoddiad sydd ar ddod gan Karakolidis *et al.* (wrthi'n cael ei baratoi) yn defnyddio data o'r Asesiadau Cenedlaethol Mathemateg a Darllen Saesneg (NAMER) yn 2009 a 2014 i werthuso effaith y Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r dadansoddiad yn cymharu anghydraddoldebau mewn cyflawniad darllen a mathemateg y gellir eu priodoli i nodweddion demograffig ac economaidd-gymdeithasol, cyn ac ar ôl gweithrediad cychwynnol y Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae'r canlyniadau'n dangos bod anghydraddoldebau llai yn cyd-fynd â'r gwelliannau ym mherfformiad cyffredinol disgyblion, a welwyd yn dilyn gweithrediad cychwynnol y Strategaeth. Roedd tystiolaeth o welliannau a oedd yn ffafrio'n benodol grwpiau o ddisgyblion a oedd â pherfformiad is na'u cymheiriaid yn 2009. Dangosodd dadansoddiad aml-lefel ostyngiad arwyddocaol yn yr amrywiant ym mherfformiad disgyblion y gellir ei briodoli i wahaniaethau rhwng ysgolion, yn ogystal ag i ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol dethol, ar ôl cyflwyno'r Strategaeth.

### 3.1.5 Cychwyn Cynnar (Early Start) a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg

Roedd polisïau allweddol eraill yn ystod oes carfan PISA 2018. Byddai Cychwyn Cynnar, ar gyfer plant o gefndiroedd difreintiedig, wedi cael ei brofi gan rai o'r garfan a nod y Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg (DES, 2016b) yw dod â rhanddeiliaid mewn addysg a hyfforddiant ynghyd i wella'r system addysg ymhellach. Amlinellir y polisïau hyn yn gryno isod.

#### Mae cynnwys rhieni plant difreintiedig yn eu haddysg gynnar yn gwella parodrwydd ysgol

Sefydlwyd y rhaglen Cychwyn Cynnar ym 1994 mewn ardaloedd dynodedig o anfantais drefol.[8] Mae'n gynllun ymyrraeth blwyddyn i ddiwallu anghenion plant difreintiedig, rhwng 3 a 5 oed sydd mewn perygl o beidio â chyrraedd eu potensial o fewn y system ysgolion. Elfen graidd o'r rhaglen yw cynnwys rhieni/gwarcheidwaid plant yn eu haddysg. Nod y

[8] Mae'n debyg y gall hwn ac ymyriadau eraill sy'n targedu disgyblion o dan anfantais fod wedi cyfrannu at lefel uwch mewn sgoriau darllen PISA mor bell yn ôl â 2006.

rhaglen, sydd ar gael mewn 40 o ysgolion yn 2020, yw cefnogi plant i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd a rhifedd cynnar, ynghyd â'u sgiliau gwybyddol, iaith ac echddygol cyffredinol. Cyflwynwyd gofal ac addysg gyn-ysgol gyffredinol yn 2010 trwy'r cynllun Early Childhood Care and Education (y cynllun ECCE neu'r ‘Free Pre-school Year’). Roedd carfan PISA 2018 yn 7-8 oed yn 2010, felly nid oedd ganddynt fynediad at y ddarpariaeth gyffredinol hon.

Daeth gwerthusiad polisi'r Adran Addysg a Sgiliau (DES, 2014) o'r rhaglen Cychwyn Cynnar i'r casgliad, er nad oedd ymchwil flaenorol wedi nodi unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol mewn cyrhaeddiad llythrennedd rhwng cyfranogwyr Cychwyn Cynnar a'r rhai nad oeddent yn cymryd rhan, roedd manteision yn ymwneud â 'pharodrwydd ysgol' wedi'i nodi. Diffinnir parodrwydd ysgol fel cysyniad aml-ddimensiwn sy'n cwmpasu gallu academaidd, yn ogystal ag ystod o faterion eraill gan gynnwys iechyd a llesiant corfforol, datblygiad echddygol, datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, dulliau at ddysgu, datblygiad iaith a llythrennedd sy'n datblygu ac mae'n paratoi dysgwyr ifanc mewn sefyllfa dda ar gyfer eu dysgu yn y dyfodol.

### Mae ffocws parhaus ar anfantais ac ymgysylltu â'r gymuned

Gan adeiladu ar bolisïau blaenorol, lansiwyd y Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg yn 2016 pan oedd carfan PISA 2018 yn 13-14 oed. Mae nodau'r Cynllun yn cynnwys gwneud addysg a hyfforddiant yn hygyrch i grwpiau sydd mewn perygl o gael eu gwahardd ac '... i dorri cylchoedd anfantais a sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyflawni eu potensial.' (DES, 2016b t.1). Mae cynllun 2016-2019 yn cynnwys y pum nod trosfwaol canlynol:

1. Gwella profiad dysgu a llwyddiant dysgwyr (mae hyn yn cynnwys adeiladu ar welliannau arwyddocaol mewn llythrennedd a rhifedd a gyflawnwyd ers NLNS 2011 a phwyslais ar lesiant)
2. Gwella cynnydd dysgwyr sydd mewn perygl o anfantais addysgol a dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig
3. Helpu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau addysg i wella'n barhaus
4. Adeiladu pontydd cryfach rhwng addysg a'r gymuned ehangach (er enghraifft, defnyddio adeiladau ysgol ar gyfer gofal ar ôl ysgol)
5. Gwella gwasanaethau cynllunio a chymorth cenedlaethol

Er bod y cynllun hwn yn annhebygol o fod wedi cael llawer o effaith ar garfan PISA 2018, mae'n debygol y bydd o ddiddordeb ar gyfer astudiaethau polisi yn y dyfodol sy’n defnyddio data PISA.

## 3.2 Safbwyntiau ar weithredu polisi gan addysgwyr ac arbenigwyr polisi o Weriniaeth Iwerddon

**Prif ganfyddiadau**

**Beth mae arbenigwyr yn ei ystyried fel yr allweddi i lwyddiant ar gyfer polisi darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon?**

Gwnaethom gyfweld â detholiad o arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol am eu profiadau yn gweithredu polisi a'u barn ar yr hyn a gyfrannodd at lwyddiant y polisïau. Fe wnaethant nodi'r themâu allweddol canlynol:

- Llunio polisi integredig ac ymreolaeth i randdeiliaid wrth weithredu polisi
- Diwygio Datblygiad Proffesiynol Parhaus a hyfforddiant athrawon
- Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned leol
- Cydweithio ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol
- Agwedd ddiwylliannol tuag at ysgol a darllen
- Hanes hir o bolisi gyda'r nod o fynd i'r afael ag anfantais a chyrhaeddiad isel.

### 3.2.1 Llunio polisi integredig ac ymreolaeth i randdeiliaid

Cytunodd yr holl lunwyr polisi ac arbenigwyr fod llunio polisi integredig ac ymreolaeth i randdeiliaid yn agwedd allweddol ar lwyddiant polisi darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon. Wrth gyflwyno polisïau newydd, roedd ffocws ar sicrhau bod polisïau gan lywodraethau blaenorol yn cael eu datblygu mewn ffordd ystyrlon. O dan set ehangach o ganllawiau sydd wedi'u cynnwys yn DEIS a'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, mae gan ysgolion rywfaint o ryddid i ddewis y cymorth mwyaf priodol i'w disgyblion, gan greu ymdeimlad nid yn unig o berchnogaeth o'r polisïau a weithredir, ond hefyd caniatáu iddynt ddewis rhai o'r llinynnau'r polisi sydd fwyaf perthnasol i'w hysgolion a'u hystafelloedd dosbarth. Fel nododd un arbenigwr:

> ‘[Mae'n] anodd datgysylltu un agwedd ar bolisi oddi wrth un arall, ond mae DEIS yn fwy cynhwysfawr; mae'r holl elfennau wedi'u hintegreiddio ... caniateir llawer o ddisgresiwn i ysgolion yn unol â chyd-destun yr ysgol.'

Nododd ein cyfweleion fod hyn o bwys mawr yng nghyd-destun addysg yng Ngweriniaeth Iwerddon lle mae llawer o ysgolion bach ag anghenion unigol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Fel y nododd un ymatebydd:

> 'Mae'r ffaith fod ysgolion bach yn y mwyafrif yn golygu bod diddordeb cymunedol lleol enfawr, felly mae rhoi perchnogaeth i hunaniaethau lleol yn allweddol.'

Nododd un ymatebydd fod y dull hwn at ymreolaeth wedi'i ddangos yn yr un modd wrth ddatblygu mecanwaith newydd, a gyflwynwyd yn 2017, ar gyfer dyrannu ymyriadau athrawon addysg arbennig a chymorth anghenion arbennig, yn seiliedig ar fodel o angen ar lefel ysgol (DES, 2017c ). Dywedasant fod y mecanwaith newydd hwn yn caniatáu ymreolaeth i ysgolion o ran sut y maent yn blaenoriaethu adnoddau i gyd-fynd orau ag anghenion ysgolion a disgyblion unigol, heb orfod aros am asesiadau seicolegol unigol, a oedd yn nodwedd o'r model dyrannu blaenorol.

Tynnodd y rhai a gyfwelwyd sylw at ymrwymiad hefyd i barhad polisi, gan ddweud wrthym er enghraifft, nad yw polisïau'n 'newid ar chwa' yn aml iawn, ni waeth pa blaid wleidyddol oedd mewn grym. Nododd un arbenigwr polisi fod cyd-ddealltwriaeth o bwysigrwydd parhad parhaus mewn addysg ac yn ei dyb cytunwyd ar hyn gan yr holl randdeiliaid. Teimlwyd bod hyn yn golygu unwaith y bydd athrawon wedi dewis menter sy'n effeithiol i'w disgyblion a'u hysgol, mae'n bosibl parhau â hi yng nghyd-destun newidiadau polisi mwy a gweld yr enillion tymor hir. Wrth grynhoi hyn, dywedodd un arbenigwr polisi:

> '[Mae] dealltwriaeth mai polisi tymor hir yw'r un cywir, gan ddarparu lefel uchel o ymreolaeth i ysgolion barhau â'r hyn sy'n gweithio.'

Yn aml, disgrifiwyd y dull 'cydgysylltiedig' hwn, o ddarparu set eang, ganolog o ganllawiau y gall ysgolion ddewis o'u plith fel 'dewislen o ddewisiadau' sydd hefyd yn ymgorffori polisi sefydledig sydd mewn rhai achosion wedi bodoli, ar ryw ffurf, ers degawdau lawer. Gwelwyd hyn fel nodwedd allweddol DEIS yn benodol, ond hefyd yr NLNS. Dywedodd yr arbenigwyr polisi y bu llai o brofion tyngedfennol nag yn rhai o wledydd eraill y DU a dim cyhoeddi tablau cynghrair ysgolion, a mynegwyd barn y gallai hyn beri i ysgolion deimlo llai o bwysau allanol i ymgymryd ag agweddau ar y polisïau nad ydynt yn gweddu i'w hysgol neu eu nodau.

### 3.2.2 Diwygio datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant athrawon

Roedd pob un o'n hymatebwyr yn ystyried bod pwysigrwydd y diwygiadau sy'n ymwneud â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a hyfforddiant athrawon yng Ngweriniaeth Iwerddon yn llwyddiant allweddol arall ar gyfer gweithredu polisi. Y thema gyffredinol oedd y gellid gwella ansawdd yr addysgu trwy gynyddu gwybodaeth athrawon a'u hannog i fod yn 'addysgwyr yn gyntaf ac yn arbenigwyr pwnc yn ail' ac, o ganlyniad, roeddent yn fwy tebygol, ac yn gallu, gweithredu'r polisïau mewn ffyrdd effeithiol.

Amlygwyd bod nifer o agweddau ar DEIS a'r NLNS yn arbennig o lwyddiannus. Y cyntaf oedd datblygu'r Gwasanaeth Cymorth Datblygiad Proffesiynol Athrawon (PDST). Wedi'i ddatblygu yn 2010, mae'r gwasanaeth Adran Addysg hwn yn darparu DPP canolog i ysgolion ac athrawon ar ystod o bynciau, o'r cwricwlwm (gan gynnwys llythrennedd) i

ddiogelu.  Fel gyda'r polisïau y cyfeiriwyd atynt yn yr adran flaenorol, y nod oedd cyfuno ac ailstrwythuro'r nifer fawr o wasanaethau datblygiad proffesiynol annibynnol a gwahanol a oedd wedi bod ar gael cyn ei sefydlu.

Cyfeiriwyd yn aml at y ffaith fod diwygio hyfforddiant cychwynnol athrawon yr un mor bwysig, ochr yn ochr â chyflwyno'r NLNS. Yn yr un modd â diwygiadau i DPP, roedd hyn yn cynnwys ailstrwythuro mawr ar y system hyfforddi athrawon, gan gyfuno ysgolion hyfforddi athrawon llai yn hybiau mwy a rhwydweithiau canolog. Mae hyfforddiant athrawon ei hun wedi cael ei ailwampio, gydag athrawon addysg gynradd yn dilyn cwrs pedair blynedd (o'i gymharu â chwrs tair blynedd blaenorol) ac ôl-gynradd yn gofyn am gwrs dwy flynedd (o'i gymharu â chwrs blwyddyn blaenorol) ar ben gradd arbenigol tair neu bedair blynedd. Defnyddir yr amser ychwanegol hwn nid yn unig ar gyfer profiad ystafell ddosbarth ond i sicrhau bod gan bob athro sylfaen yn y proffesiwn y tu allan i'r pwnc a addysgir. Roedd ffocws ar addysgu yn broffesiwn medrus ac ar 'wneud addysgu yn yrfa ddeniadol' yn rhywbeth yr oedd yr holl ymatebwyr yn credu oedd yn allweddol i wella ansawdd yr addysgu yng Ngweriniaeth Iwerddon ac yr oeddent yn teimlo yn y pen draw ei fod yn cael effaith arwyddocaol ar ansawdd addysgu llythrennedd.

Mae Gweriniaeth Iwerddon yn parhau i adeiladu ar y gwaith hwn trwy greu fframwaith ar gyfer gwerthuso dysgu proffesiynol athrawon, a ddisgwylir ar ddiwedd 2022 (Educational Research Centre, 2021). Dyluniwyd y fframwaith i gwmpasu pob cam o ddysgu proffesiynol o ddylunio hyd at werthuso allbynnau a chanlyniadau, a bydd yn gweithredu ar lefel system, ysgol ac athro gyda phwyslais ar gydweithredu ar DPP a pherchnogaeth arno. Yn bwysig, ac yn unol â thema allweddol arall sef ymgysylltu â rhanddeiliaid, mae'r fframwaith hwn yn cynnwys adborth gan yr holl ddarparwyr DPP yn Iwerddon ac mae hefyd yn cynnwys arolygon ac astudiaethau achos o benaethiaid ac athrawon, gan anelu felly at fod yng ngeiriau un o'n harbenigwyr, 'o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny yn ei greadigaeth.'

**Blwch 2: Beth mae PISA 2018 yn ei ddweud wrthym am ddatblygiad proffesiynol mewn ysgolion?**

Nod allweddol y NLNS yng Ngweriniaeth Iwerddon yw gwella ansawdd athrawon a llythrennedd asesu trwy ddatblygiad proffesiynol gwell. Yn PISA 2018, adroddodd penaethiaid yng Nghymru a Gweriniaeth Iwerddon y datblygiad proffesiynol mwyaf ymhlith eu staff, tra bod Gogledd Iwerddon wedi adrodd y lleiaf, ond nid oedd y gwahaniaethau rhwng y pum gwlad o ran darpariaeth DPP yn arwyddocaol. Efallai y bydd rhywfaint o ymchwil bellach i natur a ffocws datblygiad proffesiynol yng Ngweriniaeth Iwerddon, yn enwedig datblygu llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm mewn ysgolion ôl-gynradd, yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu llwyddiannau o ran cyrhaeddiad darllen yn PISA.




Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

## 3.2.3 Ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned leol

Roedd pob un o'n harbenigwyr polisi a'n rhanddeiliaid o'r farn bod y ffocws ar ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau lleol yn arbennig o bwysig i lwyddiant DEIS a'r NLNS, ac amlygwyd nifer o feysydd allweddol sy'n dangos ei lwyddiant.

Yn gyntaf, gwelwyd bodolaeth cynlluniau fel Cysylltu Cartref Ysgol a Chymuned (HSCL) a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg Cenedlaethol (NEPS) yn llwyddiannau penodol y polisi. Maent yn darparu pont hanfodol rhwng y dysgu sy'n digwydd yn yr ysgol a dysgu parhaus gartref, yn enwedig o ran helpu i nodi a thargedu disgyblion a allai fod ar ei hôl hi mewn maes penodol o'r cwricwlwm. Cynllun rhanbarthol yw NEPS, sy'n caniatáu ar gyfer datblygu perthnasoedd rhwng seicolegwyr a'u hysgolion lleol mewn dull partneriaeth. Nododd llawer o'n cyfweleion nad oedd y gwasanaethau hyn i'w hystyried yn offeryn gorfodi. Er enghraifft, ni fwriedir iddynt edrych ar bresenoldeb ysgol.  Cydnabuwyd y

gwasanaethau fel ffordd o gefnogi disgyblion penodol yr oedd angen cymorth pellach arnynt, ac maent yn allweddol wrth adeiladu ymddiriedaeth rhwng ysgol a'r teuluoedd y mae'n eu gwasanaethu. Mae NEPS hefyd yn parhau i esblygu, gan ganolbwyntio ymhellach ar lythrennedd wrth greu'r Post-Primary Assessment and Diagnosis – English [PPAD-E], asesiad diagnostig yn 2020. Dyluniwyd yr asesiad hwn i'w ddefnyddio gan NEPS i safoni diagnosis darllenwyr sy'n ei chael hi'n anodd a darparu ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer y rhai sydd angen cefnogaeth bellach o'r flwyddyn gyntaf o addysg ôl-gynradd.

Yn yr un modd, cynlluniwyd llawer o agweddau ar y mentrau a amlygwyd gan ystyried y gymuned. Er enghraifft, mae agwedd hunanarfarnu ysgolion DEIS yn cael ei hadrodd yn bennaf i gymuned yr ysgol ac i randdeiliaid. Y bwriad bob amser oedd ei ddefnyddio nid fel offeryn arolygu, ond yn hytrach i ysgolion nodi lleoedd lle gallent wneud newidiadau ystyrlon ac yna adrodd ar y newidiadau hwnnw i'r bobl â'r buddsoddiad mwyaf yn llwyddiant yr ysgol.

Soniodd arbenigwyr polisi yn aml am wir werth a phwysigrwydd cynnwys y gymuned mewn ysgolion, yn enwedig yng nghyd-destun ardaloedd gwledig lle mae nifer o ysgolion â maint dosbarthiadau bach. Mae hyn o ddiddordeb arbennig wrth ystyried y nifer fawr debyg o ysgolion bach yng ngwledydd y DU, megis yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Roedd yr arbenigwyr polisi’n aml yn tynnu cysylltiadau rhwng pwysigrwydd ymgysylltu yn y gymuned a'r thema gyntaf a amlygwyd yn yr adran hon, sef ymreolaeth. Roeddent yn credu'n gryf, trwy ddarparu ymreolaeth i ysgolion dros y polisïau y maent yn dewis eu gweithredu ac yna caniatáu ymreolaeth i ysgolion a'u cymunedau ehangach i adolygu'r mesurau hynny drostynt eu hunain, eu bod yn gallu cymryd mwy o ymdeimlad o berchnogaeth a oedd yn llwyddiant penodol arall yn y dull polisi trosfwaol.

### 3.2.4 Cydweithio ystyrlon â rhanddeiliaid allweddol

Gan ymhelaethu ymhellach ar y thema flaenorol, roedd llawer o’r arbeniwyr polisi o'r farn bod cydweithredu gan y llywodraeth â'r rhanddeiliaid dan sylw yn hanfodol i weithredu polisi yn llwyddiannus. Nododd arbeniwyr polisi fod ymgysylltiad athrawon â pholisïau newydd wedi bod yn weddol uchel, hyd yn oed lle roedd newid polisi’n ddadleuol, Maent yn priodoli hyn, yn rhannol i'r thema flaenorol sef ymreolaeth, ond hefyd gydag ymdrechion gwirioneddol i weithredu proses ymgynghori lle mae gan randdeiliaid mewn polisi fewnbwn ystyrlon i greu'r polisi.

> 'Os gallant weld eu gwaith yn cael ei adlewyrchu yn y polisi yna mae cyfranogiad a gweithredu yn debygol o fod yn uwch, ac mae'n helpu i sicrhau nad yw’r polisi yn ymddangos fel pe bai'n dod i lawr oddi uchel.'

Rhoddwyd polisïau newydd trwy gyfnod o ymgynghori y cred cydweithwyr polisi ei fod yn 'wirioneddol ystyrlon'. Cyfunwyd awydd i 'gyd-greu'r polisi' â chyfleoedd ar gyfer deialog

wirioneddol rhwng athrawon a'r rhai yn y llywodraeth a ddatblygodd a hyrwyddodd ymwybyddiaeth ar y cyd o ble a sut orau i ganolbwyntio polisi newydd:

> 'Nid oes unrhyw ffordd mewn gwirionedd i gyflwyno polisi 'i' athrawon, mae'n rhaid ei wneud ar y cyd â nhw.'

Yn olaf ar y thema hon, roedd ymatebwyr yn teimlo bod cyd-ddealltwriaeth ynghylch peidio â dileu polisïau blaenorol a oedd eisoes yn gweithio fel rhan o ddiwygio polisi newydd. Roeddent yn teimlo bod yna ymrwymiad cryf a rennir i 'gadw ati' a bod hyn yn cael ei adlewyrchu wrth amsugno polisïau blaenorol i mewn i rai newydd mwy fel DEIS a NLNS. Roeddent yn teimlo nid yn unig bod gan hyn y budd o greu mwy o barhad a pherchnogaeth dros y polisïau, ond roedd yn sicrhau y gallai athrawon a rhieni a oedd eisoes wedi'u hymrwymo i'r polisïau blaenorol barhau i weld y manteision fel rhan o bolisïau newydd, ehangach fel DEIS.

### 3.2.5 Agwedd ddiwylliannol tuag at ysgol a darllen

Thema allweddol arall, y soniodd yr holl gyfranogwyr amdani, oedd y ffocws diwylliannol a rennir ar ddarllen a llythrennedd yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r parch cyffredinol a roddir i addysg.

> 'Rydyn ni'n gweld, yn gyson, ymddiriedaeth gref iawn yn y system addysg yn ein cymunedau.'

Teimlai ymatebwyr fod hanes llenyddol cyfoethog Iwerddon, ochr yn ochr â rôl gref ysgolion yn y cymunedau, a ffocws ar adeiladu perthnasoedd rhwng teuluoedd a'r gymuned, wedi caniatáu i lythrennedd 'ymgorffori ei hun yn niwylliant yr ysgol mewn ffyrdd nad yw pynciau eraill wedi gwneud'. Teimlwyd bod hyn, ynghyd â ffurfio addysg ôl-gynradd yn gymharol hwyr mewn termau rhyngwladol (mae ysgol ôl-gynradd wedi'i hariannu gan y wladwriaeth yng Ngweriniaeth Iwerddon er 1967), wedi arwain at ddealltwriaeth a gwerthfawrogiad o addysg, a ffocws cryf ar lythrennedd o oedran ifanc.

> 'Cydnabyddir bod addysg nid yn unig yn bwerus yn economaidd, ond yn bwerus yn gymdeithasol hefyd.'

### 3.2.6 Hanes hir o bolisi gyda'r nod o fynd i'r afael ag anfantais

Mae adolygiad o hanes polisi yng Ngweriniaeth Iwerddon yn dangos y bu amryw fentrau cyfyngedig i fynd i'r afael ag anfantais addysgol mor bell yn ôl â'r 1960au. Er bod ehangu cyflym addysg ôl-gynradd am ddim yn y 1970au a chynlluniau trafnidiaeth ysgol am ddim mewn ardaloedd gwledig o fudd i bob categori o ddisgyblion, roedd yn arbennig o werthfawr i'r rheini nad oedd addysg ôl-gynradd ar gael iddynt o'r blaen, ac yn sicr fe helpodd i godi lefelau addysgol cyffredinol drwyddi draw. Ar lefel gynradd, o'r 1970au, daeth yn bosibl penodi athrawon addysg adferol mewn ysgolion ag achosion uchel o anawsterau llythrennedd.

Yn fwyaf nodedig, fe wnaeth y gwaith anfantais addysgol ddwysau yn yr 1980au a'r 1990au. Mae gwreiddiau cynllun DEIS yn mynd yn ôl sawl degawd, ac yn cynnwys.

- 1980au – amrywiol fentrau i gefnogi plant o gymunedau teithiol
- 1990au – Cynllun Ardaloedd o dan Anfantais
- 1990 – Cafodd y cynllun athrawon Cysylltu Cartref Ysgol a Chymuned gydnabyddiaeth swyddogol
- 1993 – ehangwyd y cynllun athrawon adferol i gwmpasu pob ysgol
- 1996 – Breaking the Cycle
- 1997 – Menter yn ôl i'r ysgol wedi'i hanelu'n benodol at gadw disgyblion ar lefel ôl-gynradd
- 1999 – Menter ymadawyr ysgol cynnar wedi'i chynllunio i leihau gadael ysgol yn gynnar
- 2000 – Giving Children an Even Break: cyllid ar gyfer athrawon ychwanegol mewn ysgolion, yn ogystal â chyllid ychwanegol dros dair blynedd ar gyfer dysgu i gefnogi'r plant hynny o gefndiroedd difreintiedig

Tra bod nifer o’r cynlluniau a drafodwyd uchod yn rhai arunig yn mynd i’r afael ag agweddau penodol o anfantais addysgol, cadwyd elfennau llwyddiannus a’u datblygu ac maent i’w gweld fel llinynnau ym rhaglen DEIS hyd heddiw.

Mae'r polisïau hyn yn dyddio'n ôl ymhellach o lawer na nifer o fentrau tebyg yng ngwledydd y DU, ac er y sefydlwyd Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithasol yr Alban a menter Excellence in Cities Lloegr ym 1999, gall gymryd blynyddoedd lawer i bolisi gael ei wreiddio'n llawn ac i weld yr effaith ar lefel genedlaethol. Efallai y bydd y ffocws cynnar hwn ar anfantais yng Ngweriniaeth Iwerddon yn mynd rhywfaint o'r ffordd i esbonio'r cyfrannau arwyddocaol is o ddisgyblion sy'n gweithio ar y lefelau hyfedredd PISA isaf, yn 2018 ac mewn cylchoedd blaenorol.

# 4 Trafodaeth

## Beth yw'r ffactorau sy'n cefnogi lefelau uchel o gyrhaeddiad darllen?

Mae PISA yn caniatáu i'r gwledydd sy'n cymryd rhan archwilio cryfderau a gwendidau yn eu systemau addysg a gwerthuso polisi trwy gymharu eu canlyniadau â chanlyniadau gwledydd tebyg a thrwy gymharu eu canlyniadau eu hunain dros amser. Yn yr adran hon, rydym yn myfyrio ar yr wybodaeth ansoddol a gasglwyd gan gydweithwyr polisi ac arbenigwyr addysgol, ac yn croestorri canfyddiadau dethol o ddadansoddiadau pellach o ddata darllen PISA 2018 ledled y DU a Gweriniaeth Iwerddon.

### Pam mae'n ymddangos bod y polisïau addysgol eang hyn yn effeithio ar ddarllen yn fwy nag ar fathemateg neu wyddoniaeth?

Fel y trafodwyd yn flaenorol yn adran 1.2, mae canlyniadau PISA 2018 yn dangos bod Gweriniaeth Iwerddon yn arwyddocaol uwch na gwledydd y DU o ran darllen. Roedd y gwahaniaeth rhwng Gweriniaeth Iwerddon a gwledydd y DU yn llai amlwg mewn mathemateg, lle sgoriwyd yn arwyddocaol uwch na'r Alban a Chymru, ond yn debyg i Loegr a Gogledd Iwerddon. Mewn gwyddoniaeth sgoriwyd yn arwyddocal is na Lloegr a nid yn arwyddocaol wahanol i wledydd eraill y DU. Nid oes gan DEIS ffocws llythrennedd penodol y tu allan i ychydig o linynnau, a'r NLNS, sydd hefyd yn targedu mathemateg a darllen. Ar sail canlyniadau PISA 2018, gellid tybio bod y polisïau hyn wedi cael mwy o effaith ar ddarllen na mathemateg neu fod ffactorau eraill heb eu hadnabod sy'n gyrru perfformiad darllen.

Awgrymodd yr adolygiad o'r NLNS (DES, 2017a, t.20) fod mwy o ffocws ar lythrennedd na rhifedd yn y blynyddoedd cychwynnol a bod hyn 'heb os wedi cyfrannu at y cynnydd da iawn mewn llythrennedd.' O ganlyniad, mae gwella mathemateg yn brif flaenoriaeth yng ngham nesaf y Strategaeth. Ategwyd hyn gan ein cyfweleion, a luniodd ymatebion tebyg pan ofynnwyd iddynt am yr anghysondeb rhwng pynciau:

> 'O ran y cydbwysedd llythrennedd/rhifedd yn y Strategaeth, roeddem yn rhagweld y byddai'n mynd i'r afael â llythrennedd a rhifedd, ond mewn ysgolion, ym mlynyddoedd cynnar y strategaeth, roedd y pwyslais yn sicr ar lythrennedd. Mae wedi profi'n anoddach gwella canlyniadau mathemateg, er gwaethaf diwygiadau mawr i addysg fathemateg ar yr ail lefel [ôl-gynradd].'

Gall hyn, ochr yn ochr â llwyddiannau eraill o ran gweithredu polisi a amlinellir ym Mhennod 3, gan gynnwys gwerth diwylliannol llythrennedd a ymgorfforwyd ers amser hir, fynd rhywfaint o'r ffordd i egluro'r llwyddiant penodol mewn darllen.

## Blwch 3: Beth mae PISA 2018 yn ei ddweud wrthym am fwynhad disgyblion o ddarllen?

- Mae mwynhad disgyblion o ddarllen yn un o'r newidynnau sy'n cydberthyn gryfaf â sgoriau darllen uwch.
- Nododd disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon fwynhad arwyddocaol uwch o ddarllen na disgyblion gwledydd y DU.
- Er 2009, mae mwynhad disgyblion o ddarllen wedi dirywio yn holl wledydd y DU, yn enwedig yng Ngogledd Iwerddon.




- Er bod disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon wedi nodi mwy o fwynhad o ddarllen, roedd yr amser a dreuliasant yn darllen er mwynhad ychydig yn unig yn uwch na disgyblion yng ngwledydd y DU.
- Gogledd Iwerddon oedd â'r ganran uchaf o ddisgyblion a ddywedodd nad ydyn nhw'n darllen er mwynhad, ond dewisodd tua hanner y disgyblion yn y pum gwlad yr opsiwn hwnnw.




Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

## Blwch 4: Pa ffactorau disgyblion sy'n gysylltiedig â gwell sgiliau darllen yn PISA 2018?

Gwnaethom ddadansoddi'r newidynnau cyffredin o'r data holiadur disgyblion yn 2018 a 2009, lle darllen oedd prif ffocws astudiaethau PISA, a'i gysylltu â chyrhaeddiad disgyblion ym mhob un o'r pum gwlad*.

*Mae'n werth cofio yma nad achosiaeth yw cyfatebiaeth a ni ellir dod i gasgliad o'r dadansoddiadau hyn am gyfeiriad y berthynas/effaith.

Gwelsom ni:

**Mae disgyblion sy'n ennill sgoriau darllen PISA uwch yn adrodd eu bod yn:**

- nodi bod ganddynt nifer uchel o lyfrau gartref[9]
- siarad am lyfrau gyda phobl eraill
- darllen fel hoff hobi
- darllen ffuglen yn amlach
- treulio mwy o amser yn darllen er pleser
- defnyddio strategaethau fel nodi'r ffeithiau pwysicaf a gwirio a ydynt yn cael eu cynrychioli yn y crynodeb, wrth grynhoi testunau.

Roedd y chwe ffactor uchaf hyn yn gyson ar draws holl wledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon ac ar draws PISA 2018 a 2009, pan mai darllen llythrennedd oedd y prif ffocws. Serch hynny, roedd nifer o wahaniaethau rhwng gwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon a thrafodir y rhain ym Mlwch 5.

**Ffactorau eraill y canfuwyd eu bod yn cydberthyn â sgoriau darllen oedd:**

- bod llenyddiaeth glasurol ar gael gartref
- wrth grynhoi testunau, darllen drwodd, tanlinellu'r brawddegau pwysicaf a'u hail-ysgrifennu yn eu geiriau eu hunain
- darllen llyfrau ffeithiol yn fwy aml
- lefel addysg y fam a'r tad
- gorfod aros am amser hir i ddisgyblion ymdawelu yn y dosbarth (cydberthynas negyddol)

**Ffactorau 2018 nas nodwyd yn 2009:**

- athro sy'n annog disgyblion i fynegi eu barn am destun
- cymryd rhan mewn trafodaethau ar-lein yn fwy aml.

Mae'n ymddangos yn debygol y byddai'r ddau ffactor hyn yn fwy cyffredin yn yr ystafell ddosbarth yn 2018, nag y byddent wedi bod yn 2009.

[9] Dangoswyd bod y mesur eang hwn yn darparu dirprwy rhesymol ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol disgybl sydd bob amser y ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad.

Yn seiliedig ar y cyfweliadau â rhanddeiliaid, gwnaethom hefyd ddadansoddi cydberthynas newidynnau (graddfeydd) perthnasol sy'n deillio o PISA 2018[10] gyda chyflawniad, a gwelwyd mai'r **priodoleddau disgyblion a gysylltir yn gryfach â sgoriau uwch oedd:**

- canfyddiad cryfach o'u cymhwysedd eu hunain mewn darllen
- mwy o fwynhad o ddarllen
- llai o anhawster canfyddedig gyda darllen
- disgwyliadau uwch o ran statws galwedigaethol yn y dyfodol
- mwy o eiddo yn y cartref.

### Dulliau canolog ac integredig trwy gydol polisïau

Trwy gydol yr adolygiadau polisi a'r arolygon daeth yn amlwg mai nod allweddol newidiadau polisi yng Ngweriniaeth Iwerddon oedd dilyn dull integredig, gan dynnu polisïau penodol blaenorol i mewn i bolisïau ehangach fel DEIS neu gyfuno ysgolion hyfforddi athrawon llai yn rhwydweithiau mwy. Dangoswyd hyn ymhellach pan nododd mwyafrif yr ymatebwyr i'r cyfweliad mai'r dull 'cydgysylltiedig' hwn oedd yr agwedd allweddol sy'n gyrru newidiadau polisi yng Ngweriniaeth Iwerddon. Yn yr un modd, cynlluniwyd y polisïau eu hunain i fynd i'r afael â themâu tebyg ac i ategu ei gilydd. Pwysleisiodd sawl ymatebydd yn y cyfweliadau fod agweddau ar bolisi a ddyluniwyd i roi mwy o ymreolaeth i ysgolion, megis Hunanwerthuso Ysgolion, hefyd yn fuddiol ar gyfer adeiladu ymgysylltiad â'r gymuned ehangach.  Cynlluniwyd y polisïau hefyd mewn dull partneriaeth ag athrawon cyn eu gweithredu, gan sicrhau bod athrawon yn teimlo wedi'u grymuso.

Gall y dull hwn o ganoli ac uno mentrau llai blaenorol ymddangos yn groes i'r syniad o ymreolaeth, ond mae'n werth nodi bod y dull hwn o bartneriaeth 'wedi bodoli ers dechrau'r 90au, nid yn unig mewn cylchoedd addysg, ond hefyd yn ehangach ar draws y system.' (Kennedy, 2013, t. 511).

### Mae data PISA yn tynnu sylw at effaith bosibl diwylliant yng Ngweriniaeth Iwerddon

Crybwyllwyd materion diwylliannol yn aml gan ein hymatebwyr, roedd ffactorau diwylliannol ac maent hefyd yn bresennol yn y data PISA. Roedd disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon wedi nodi lefelau is o gyfoeth teuluol, llai o adnoddau addysgol yn y cartref (ffactorau fel mynediad at ddesg neu fynediad i'r rhyngrwyd) a llai o adnoddau TGCh na phedair gwlad y DU. Fodd bynnag, o gymharu â gwledydd y DU, nododd disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon fwy o eiddo diwylliannol. Er bod hwn yn gategori cymharol amwys a all gwmpasu sawl peth fel bod yn berchen ar offeryn cerdd neu fod â chelf yn y cartref, serch hynny, mae’n tynnu sylw at ffactor gwahanol arall yn ymwneud â diwylliant sy'n cydberthyn â chyflawniad uchel mewn darllen. Mae ymchwil o aelwydydd gwledig wedi dangos y gall agwedd deuluol tuag at ddarllen wneud iawn am wahaniaethau

[10] Mae PISA yn cyfuno rhai eitemau holiadur yn newidynnau (graddfeydd) newydd i fesur cystrawennau cudd na ellir eu harsylwi'n uniongyrchol

mewn perfformiad sy’n gysylltiedig ag incwm is neu anfantais (Weir a McAvinue, 2013). Mae ysgolion cynradd DEIS gwledig yng Ngweriniaeth Iwerddon yn sgorio'n uwch mewn darllen nag ysgolion cynradd trefol DEIS.  Mae’n debygol bod set gymhleth o resymau dros hyn ac un ffactor posibl fyddai effaith diwylliant yn yr ardaloedd hyn.

## Blwch 5: Sut oedd disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon yn wahanol i ddisgyblion yn ysgolion y DU yn PISA 2018?

Gwnaethom ddadansoddi data'r holiadur disgyblion o PISA 2018 i weld a ellid nodi unrhyw newidynnau ar lefel disgyblion a allai wahaniaethu rhwng ymddygiadau ac agweddau disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon oddi wrth y rhai yn y DU.

*isod yn dangos cydberthynas uchel â chyrhaeddiad darllen.

**O'u cymharu â disgyblion yn holl wledydd y DU, nododd disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon y canlynol i lefel arwyddocaol:**

- mwy o fwynhad o ddarllen*
- mwy o eiddo diwylliannol*
- llai o oriau o wersi Saesneg yr wythnos
- mwy o hunaneffeithlonrwydd/cydnerthedd
- llai o duedd i gysylltu ysgol â swydd/bywyd da
- llai o amser yn y cyfnod cyn-ysgol na disgyblion yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ond mwy na disgyblion yng Ngogledd Iwerddon.[11]
- lefelau is o gyfoeth teuluol
- lefelau is o adnoddau addysgol gartref
- llai o adnoddau TGCh yn y cartref
- llai o wersi dan gyfarwyddyd athro (er enghraifft *'Mae'r athro yn gosod nodau clir ar gyfer ein dysgu')*
- addysgu llai addasol (er enghraifft *'Mae'r athro yn addasu'r wers i anghenion a gwybodaeth fy nosbarth')*

**Fe wnaethant adrodd hefyd:**

- disgwyliadau uwch o'u statws galwedigaethol yn y dyfodol (tebyg i Loegr)*
- llai o adborth gan athrawon na holl wledydd y DU ag eithrio'r Alban.

**Gwahaniaethau a thebygrwydd eraill rhwng Gweriniaeth Iwerddon a gwledydd y DU**

Adroddodd disgyblion yn Gweriniaeth Iwerddon yn arwyddocaol:

- lefelau is o fwlio a lefelau is o gefnogaeth ganfyddedig gan athrawon na disgyblion mewn gwledydd eraill y DU heblaw am yng Ngogledd Iwerddon
- llai o anhawster canfyddedig gyda darllen na disgyblion mewn gwledydd eraill y DU heblaw am yng Nghymru
- ymdeimlad is o berthyn na disgyblion mewn gwledydd eraill y DU heblaw am yn yn Lloegr
- lefelau uwch o gefnogaeth emosiynol rhieni, a lefelau is o hyder (cymhwysedd canfyddedig) mewn darllen na disgyblion mewn gwledydd eraill y DU heblaw am yn yr Alban.

[11] Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod disgyblion yn dechrau addysg ffurfiol yn gynharach yng Ngweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon.

Mae'r crynodeb ym Mlwch 5 yn dangos y graddfeydd lle roedd disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon yn wahanol iawn i'r rhai yn y DU. Mae pob un o'r pwyntiau bwled yn ymwneud â graddfa lefel disgyblion PISA a amlinellir yn adroddiad rhyngwladol PISA 2018 (OECD 2020).

Mae mwynhad darllen, eiddo diwylliannol a disgwyliadau/dyheadau uchel yn cydberthyn yn fawr â chyflawniad darllen ym mhob un o'r pum gwlad. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw cydberthynas yn golygu achosiaeth ac na ellir dod i gasgliad am gyfeiriad y cysylltiad o'r dadansoddiadau hyn.

Disgrifiwyd y raddfa mwynhad darllen ym Mlwch 3. Mae eiddo diwylliannol yn cynnwys llenyddiaeth glasurol, llyfrau barddoniaeth, gweithiau celf, offerynnau cerdd a llyfrau ar gelf, cerddoriaeth neu ddylunio. Mae dangosyddion cyfoeth yn cynnwys, meddu ar eich ystafell eich hun, cysylltiad â'r rhyngrwyd a dangosyddion gwlad-benodol eraill, fel peiriant golchi llestri. Mae adnoddau cartref ar gyfer dysgu yn cynnwys desg, lle tawel i astudio, llyfrau a meddalwedd i gefnogi astudio gartref. Mae adnoddau TGCh yn cynnwys cyfrifiaduron, tabledi, ffonau symudol, meddalwedd addysgol a chysylltiad â'r rhyngrwyd.

Er na chanfuwyd bod cyfoeth, adnoddau TGCh ac adnoddau cartref ar gyfer dysgu ar eu pennau eu hunain yn cydberthyn yn gryf â sgôr darllen PISA, o'u cyfuno â ffactorau eraill (gan gynnwys eiddo diwylliannol) i ffurfio'r mynegai ehangach o 'eiddo cartref', roedd cydberthynas â'r sgôr gyffredinol, fel yr oedd roedd gydag ESCS (mynegai PISA o statws economaidd, cymdeithasol a diwylliannol) fel y gellid disgwyl.

### Mae disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon yn treulio llai o amser mewn gwersi Saesneg

Mae disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon yn adrodd cryn dipyn yn llai o oriau o wersi Saesneg yr wythnos (neu addysgu Cymraeg/Gwyddeleg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu Wyddeleg) na disgyblion yng ngwledydd y DU fel y gwelir yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Amser a dreuliwyd mewn gwersi 'Saesneg'[12]**

| Gwlad | Cyfanswm yr amser dysgu mewn gwersi arferol (oriau) | Iaith arferol yr addysgu mewn gwersi (oriau) | Cyfran yr wythnos ysgol a dreulir mewn gwersi Saesneg (canran) |
|---|---|---|---|
| Lloegr | 26.8 | 4.4 | 16.3 |
| Gogledd Iwerddon | 27.6 | 3.8 | 13.8 |
| Cymru | 26.7 | 4.0 | 15.1 |
| Yr Alban | 27.6 | 4.2 | 15.3 |
| Gweriniaeth | 28.8 | 3.1 | 10.7 |

Fel y trafodwyd yn Adran 3.2, pwysleisiodd arbenigwyr addysg yng Ngweriniaeth Iwerddon y bu ymgyrch fwriadol yn eu hysgolion ôl-gynradd i sicrhau bod pob athro pwnc yn cymryd cyfrifoldeb am lythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae hyn yn golygu, yn ogystal â chael ei ddysgu mewn gwersi 'Saesneg', bod llythrennedd darllen hefyd yn cael ei ddysgu i gyflawni dibenion penodol - er enghraifft i ddisgrifio arbrawf gwyddoniaeth, ymchwilio a chrynhoi gwybodaeth hanesyddol, ysgrifennu adroddiadau neu ddarllen a chymhwyso cyfarwyddiadau tasg. Gellir dadlau bod hyn yn cyd-fynd yn dda â llythrennedd PISA, fel sgil swyddogaethol sy'n berthnasol i sefyllfaoedd bywyd go iawn, a'r angen i ddisgyblion allu dod o hyd i, dewis, dehongli, integreiddio a gwerthuso gwybodaeth o'r ystod lawn o destunau sy'n gysylltiedig â sefyllfaoedd yn yr ystafell ddosbarth a thu hwnt. Byddai'n ddiddorol, felly, ymchwilio ymhellach i ddull Gweriniaeth Iwerddon o ymdrin â chynllunio trawsgwricwlaidd mewn ysgolion ôl-gynradd ac i ba raddau y mae'n wahanol i ddulliau gweithredu yng ngwledydd y DU, lle mewn rhai achosion gall llythrennedd fod ar draws y cwricwlwm ar waith.

Efallai y bydd ymarfer ystafell ddosbarth yn faes arall sy'n werth ymchwilio iddo ymhellach, ond mae gwybodaeth o holiaduron PISA yn gyfyngedig ac efallai y byddai astudiaeth ansoddol yn cynnig tystiolaeth mwy defnyddiol.

O fewn gwledydd, gwyddys hefyd fod hyder disgyblion yn cydberthyn â pherfformiad, ond nid yw hyn i weld yn wir ar draws gwledydd. Weithiau mewn gwledydd uchel eu perfformiad mae canrannau is o ddisgyblion yn adrodd lefelau hyder uchel ac fel arall. Fodd bynnag, ar lefel disgybl, fel arfer mae canlyniadau hyder yn cyfateb i berformiad/cyrhaeddiad. Ar raddfa PISA o 'hunan-gysyniad darllen: canfyddiad o

[12] Yma, nodir 'cyfrwng yr addysgu'. Er hwylustod cyfeirir ato fel yr amser a dreulir mewn gwersi 'Saesneg' ond yn achos rhai disgyblion yng Nghymru a Gweriniaeth Iwerddon mae'n cyfeirio at amser a dreulir mewn gwersi Cymraeg neu Wyddeleg.

gymhwysedd'[13] nododd disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon lefelau is na disgyblion Lloegr a Chymru, yn uwch na'r hyn a welwyd yng Ngogledd Iwerddon, ac yn debyg i ddisgyblion yn yr Alban. Ar 'hunan-gysyniad darllen: canfyddiad o anhawster'[14], adroddodd disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon (ynghyd â disgyblion yng Nghymru) yr anhawster lleiaf gyda darllen.

### Mae gan ddisgyblion â chyrhaeddiad is yng Ngweriniaeth Iwerddon ddyheadau uwch a chanfyddiad mwy cadarnhaol o'u cymhwysedd darllen

Fel y trafodwyd ym Mhennod 1, mae disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon ar ben isaf y dosbarthiad cyrhaeddiad yn perfformio'n well yn gyffredinol na'r rhai yn y DU. Er mwyn archwilio'r rhesymau am hyn, gwnaethom ailadrodd y dadansoddiadau ym Mlwch 5 uchod, ond gan ganolbwyntio ar ddisgyblion yn y traean isaf o gyrhaeddiad darllen.

Mae Tabl 2 yn dangos, fel y byddem yn ei ddisgwyl, fod y disgyblion â chyrhaeddiad is yng Ngweriniaeth Iwerddon yn sgorio'n arwyddocaol uwch na'r rhai yn y DU. Roedd y bwlch rhwng y disgyblion â chyrhaeddiad is a'r disgyblion sy'n weddill hefyd yn llai yng Ngweriniaeth Iwerddon, tra bod sgoriau cymedrig y ddau grŵp yn parhau i fod yn uwch.

**Tabl 2: Sgoriau darllen cymedrig disgyblion sy'n cyflawni'n is (33% isaf)**

| Sgôr darllen gymedrig ar gyfer | Lloegr | Gogledd Iwerddon | Yr Alban | Cymru | Gweriniaeth Iwerddon |
|---|---|---|---|---|---|
| 33% isaf | 398 | 396 | 407 | 381 | 422 |
| 67% uchaf | 558 | 552 | 552 | 534 | 565 |
| Sgôr gymedrig gyffredinol yr holl ddisgyblion | 505 | 501 | 504 | 483 | 518 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA

O ran y ffactorau sy'n gysylltiedig â chyflawniad darllen uwch, y ddau briodoledd allweddol a oedd yn cydberthyn fwyaf â chyrhaeddiad disgyblion â chyflawniad is ym mhob un o'r pum gwlad oedd[15]:

- eu dyheadau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol*
- eu cymhwysedd canfyddedig mewn darllen*.

[13]Hunan-gysyniad o ddarllen: Canfyddiad o gymhwysedd: *Rwy'n ddarllenydd da; Rwy'n gallu deall testunau anodd; Rwy'n darllen yn rhugl.*
[14]Hunan-gysyniad o ddarllen: Canfyddiad o anhawster: *Rwy' wastad wedi cael anhawster darllen; Mae'n rhaid i mi ddarllen testun sawl gwaith cyn ei ddeall yn iawn; Rwy'n ei chael hi'n anodd i ateb cwestiynau am destun*

[15] *yn nodi cydberthyniad â sgor darllen PISA

Roedd dwy raddfa arall PISA hefyd yn gysylltiedig â chyrhaeddiad darllen ymhlith disgyblion cyflawniad isel ym mhob gwlad, ond i raddau llai. Dyna’r graddfeydd PISA yn ymwneud â'u canfyddiadau y byddai gweithio'n galed yn yr ysgol yn eu helpu i gael swydd well/mynd i goleg gwell yn y dyfodol, a nifer yr adnoddau cartref ar gyfer dysgu.

### Mae gan ddisgyblion â chyrhaeddiad is yng Ngweriniaeth Iwerddon fwy o eiddo diwylliannol na disgyblion y DU a disgwyliadau uchel ar gyfer y dyfodol

O’u cymharu â'u cymheiriaid yn y DU, nododd disgyblion â chyrhaeddiad is yng Ngweriniaeth Iwerddon:

- mwy o eiddo diwylliannol*
- llai o gyfoeth
- llai o adnoddau TGCh gartref
- llai o amser yn cael ei dreulio mewn gwersi Saesneg
- disgwyliadau uchel ar gyfer y dyfodol* (yn is na disgyblion yn Lloegr, yn uwch na Chymru a Gogledd Iwerddon ond ddim yn arwyddocaol wahanol i'r Alban)
- llai o amser mewn cyn-ysgol (ac eithrio yng Ngogledd Iwerddon)
- llai o weithgareddau allgyrsiol (megis band, côr, drama ysgol, clwb celf).

Mae'r rhain yn adlewyrchu'r gwahaniaethau a welir ar draws y poblogaethau yn gyffredinol, ond nid oeddent yn cydberthyn â chyrhaeddiad yn yr un modd.

# 5 Casgliadau a chanfyddiadau allweddol

## 5.1 Casgliadau

Gall canlyniadau PISA arwain at ddiwygiadau polisi mawr a all newid addysg am genhedlaeth. Pan fydd gwlad yn dangos llwyddiant arbennig mewn rhai pynciau, fel mae Gweriniaeth Iwerddon yn ei wneud mewn darllen, mae'n bwysig i wledydd eraill werthuso'r hyn y gellir ei ddysgu o'r llwyddiannau hynny gan gynnwys agweddau a allai gael eu teilwra'n effeithiol i weddu i'w cyd-destunau penodol eu hunain.

Mae disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon yn cyflawni sgoriau darllen arwyddocaol uwch yn PISA na gwledydd y DU. Mae hyn wedi bod yn wir am bob blwyddyn er 2006 ac eithrio 2009. Fodd bynnag, mae ymchwil yn awgrymu y gallai'r gostyngiad hwn yn sgôr ddarllen PISA 2009 Gweriniaeth Iwerddon fod wedi'i orfynegi ac mae'n cael ei ystyried yn anghyson gan ymchwilwyr a llunwyr polisi yng Ngweriniaeth Iwerddon. Mae Gweriniaeth Iwerddon hefyd yn cynnal cyfran lai o ddisgyblion sy'n gweithio ar y lefelau hyfedredd darllen isaf a chyfrannau uchel o ddisgyblion sy'n gweithio ar y lefelau hyfedredd darllen uchaf (roedd gan Loegr hefyd gyfran uchel o berfformwyr uchel yn PISA 2018). Mae'r llwyddiant parhaus hwn mewn darllen, a'r gwahaniaeth hir ei barhad rhwng Gweriniaeth Iwerddon a gwledydd y DU, yn amlygu pwysigrwydd polisïau sy wedi bod mewn grym ers cyfnod hirach a/neu ffactorau eraill, megis effaith gwahaniaethau diwylliannol.

Mae'r ffactorau sy'n gysylltiedig â chyrhaeddiad darllen uchel yn gyson i raddau helaeth ledled gwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon, a'r gwahaniaethau mwyaf nodedig yw disgyblion yng Ngweriniaeth Iwerddon sy'n nodi eu bod yn mwynhau darllen yn fwy a bod nifer uwch o eiddo diwylliannol yn eu cartref.

Yn ystod oes carfan PISA 2018, gwelwyd Gweriniaeth Iwerddon yn cyflwyno dau bolisi mawr yr ystyriwyd eu bod yn effeithio ar ddarllen - DEIS a'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd. Roedd y polisïau hyn yn cydgrynhoi ac ymhelaethu ar bolisïau blaenorol sy'n mynd i'r afael ag anfantais a'r cwricwlwm, sydd wedi'i adlewyrchu mewn lefelau cryf o lythrennedd sylfaenol dros ddegawdau. Mae'r polisïau integredig ac ategol hyn yn darparu ystod eang o ymyriadau a chefnogaeth i ysgolion fynd i'r afael â dysgu ar gyfer disgyblion difreintiedig ac effeithio'n gyffredinol ar ddarllen a llythrennedd. Mae'r rhain yn cynnwys amser ychwanegol a roddir i addysgu darllen a chymorth llyfrgellydd ysgol a llyfrgell yn ogystal â maint dosbarthiadau llai. Mae'r polisïau hefyd yn cynnwys neu'n gweithio ochr yn ochr â set ehangach o newidiadau strwythurol i'r ffordd y mae athrawon yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi, trwy ddiwygiadau i ysgolion hyfforddi athrawon a'u rhaglenni, canoli DPP i athrawon, a mesurau yn y gymuned megis ymestyn y cynlluniau Cysylltu Cartref Ysgol a Chymuned a Gwasanaeth Seicolegol Addysg Cenedlaethol.

Mae arbenigwyr polisi yng Ngweriniaeth Iwerddon yn gweld nifer o'r ffactorau hyn yn arwyddocaol ar gyfer gweithredu'r polisi cyfredol yn llwyddiannus. Maent yn nodi bod y polisïau eu hunain wedi'u cynllunio i integreiddio, adeiladu ar ac ehangu mynediad i lawer

o'r rhaglenni a ddarperir yn DEIS, tra bod DEIS ei hun wedi'i gyd-greu i adeiladu ar hanes hir o bolisïau blaenorol sy'n targedu disgyblion difreintiedig. Trwy 'ddal ati' gyda pholisïau sy'n gweithio, maent yn galluogi cydgrynhoi enillion ymhlith disgyblion a pholisïau i gael eu hymgorffori mewn cymunedau.

Fe wnaethant bwysleisio bod polisïau'n cael eu datblygu'n ofalus trwy ddeialog ystyrlon gyda rhanddeiliaid ac yn canolbwyntio ar roi ymddiriedaeth mewn ysgolion i ddewis y cymorth a'r ymyriadau priodol sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr i'w disgyblion, yn hytrach na phresgripsiwn heb ei wahaniaethu. Canolbwyntiodd polisïau hefyd ar allgymorth i'r gymuned leol ac ymgysylltu â theuluoedd gyda'r nod o rannu, cefnogi ac ymgorffori arferion dysgu da gartref. Yn olaf, trwy ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned leol, mae arbenigwyr polisi yn credu bod hyn yn cryfhau ymhellach ddiwylliant sydd eisoes yn gryf sy'n gwerthfawrogi darllen ac addysg yn ehangach, gan arwain at 'edefyn cryf iawn o gyd-ddealltwriaeth' sy'n rhedeg o lunio polisïau, trwy ysgolion a rhanddeiliaid, ac i mewn i deuluoedd a'r gymuned leol.

## 5.2 Canfyddiadau allweddol y gellid eu cymhwyso'n ehangach

### Mae dull o lunio polisïau integredig sy'n cael ei gyd-greu gydag athrawon yn annog mwy o ymrwymiad ac ymgysylltiad

Er bod hwn yn faes cymhleth iawn, ac yn un y cyfaddefodd yr arbenigwyr polisi yng Ngweriniaeth Iwerddon ei fod yn anodd ei ddehongli, y thema fwyaf arwyddocaol a oedd yn amlwg yn ein hadolygiad oedd yr ymrwymiad i bolisi sy'n ategu ac yn adeiladu ar y polisi presennol. Yr un mor bwysig oedd diwygio polisi sy'n cydnabod ymyriadau a pholisïau y mae ysgolion eisoes wedi bod yn eu defnyddio'n llwyddiannus ac yn ymrwymo i'w parhad. Gwelwyd y cysondeb polisi hwn, a datblygiad neu ymhelaethiad pellach ar bolisi blaenorol, fel y llwyddiant allweddol wrth weithredu polisi darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon, ac ar gyfer cadw athrawon ar fwrdd a chynnal brwdfrydedd.

### Mae gwerthuso, mesurau perfformiad ac amserlenni ar gyfer adolygu wedi'u hymgorffori mewn polisi o'r cychwyn cyntaf

Mae ychwanegu at y dull 'cydgysylltiedig' yn ymrwymiad i gynnwys gwerthuso wrth greu polisïau a ffocws ar eu diweddaru wrth i'r targedau gael eu cyrraedd. Er enghraifft, mae hyn wedi'i nodi'n glir yng ngham nesaf y Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd, fel y trafodwyd ym Mhennod 3. Yn yr un modd, “cafodd gwerthuso parhaus ei ymgorffori yn nyluniad y rhaglen DEIS o'r cychwyn cyntaf '(Smyth *et al.* 2015, t. 24) gyda nifer o adolygiadau o'r gwahanol linynnau'n digwydd i lywio diweddariadau pellach i'r polisi.

### Gweithio tuag at adeiladu diwylliant cydweithredol rhwng ysgolion, teuluoedd a chymunedau lleol

Roedd integreiddio strategaethau rhwng yr ysgol a'r cartref hefyd yn cael ei ystyried yn llwyddiant hanfodol, yn enwedig ar gyfer darllen ymhlith disgyblion â chyrhaeddiad isel. Soniwyd yn aml am gynlluniau fel Cyswllt Cartref Ysgol a Chymuned a'r Gwasanaeth Seicolegol Addysg Cenedlaethol fel pileri allweddol llwyddiant wrth ddatblygu llythrennedd darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon. Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei werthuso ac adeiladu arno trwy gynlluniau a gyflwynwyd yn fwy diweddar, megis PPAD-E, prawf diagnostig o lythrennedd darllen a weinyddir trwy'r Gwasanaeth Seicolegol Addysg Cenedlaethol. Gallai meithrin y math hwn o ddiwylliant cydweithredol a chefnogol, ochr yn ochr â diwylliant ehangach o werthfawrogi darllen yn benodol ac addysg yn ehangach, helpu i oresgyn rhwystrau i weithredu polisi yn llwyddiannus.

### Parhau i nodi a chefnogi disgyblion sy'n gweithio ar ben isaf y dosbarthiad cyrhaeddiad.

Mae Gweriniaeth Iwerddon wedi profi llwyddiant arbennig wrth gefnogi disgyblion â chyrhaeddiad is, fel y gwelir yn eu canran is o ddisgyblion sy'n gweithio islaw Lefel 2 o gymharu â gwledydd y DU yn PISA 2018. Barnwyd bod cefnogaeth wedi'i thargedu trwy DEIS a'r NLNS wedi chwarae rhan yn y llwyddiant hwn gan werthusiadau a'r arbenigwyr yn yr astudiaeth hon. Mae sut mae ysgolion yn cael eu targedu i dderbyn yr ymyriadau hyn yn cael eu hail-werthuso'n gyson. Dylai gweithio i nodi a chefnogi disgyblion a fyddai'n elwa fwyaf o'r ymyriadau hyn barhau i fod yn ganolbwynt allweddol i bolisi darllen yn y dyfodol.

### Archwilio elfennau allweddol hyfforddiant athrawon a DPP yng Ngweriniaeth Iwerddon

Mae gwella ansawdd athrawon wedi bod yn flaenoriaeth allweddol yng Ngweriniaeth Iwerddon ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn eu diwygiadau polisi. Er bod ein harbenigwyr wedi gwneud sylwadau ar ffocws ar addysgeg, 'addysgu sy'n canolbwyntio ar ymchwil' a llythrennedd asesu, gallai ymchwil bellach sy'n canolbwyntio ar fanylion eu dull o hyfforddi athrawon fod yn fuddiol i ddeall sut mae polisi darllen yn cael ei weithredu yn yr ystafell ddosbarth.

### Parhau i fonitro tueddiadau yn rowndiau PISA yn y dyfodol

Mae'r gwaith hwn yn darparu adolygiad ehangach o bolisi yng ngwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon gyda ffocws penodol ar ddarllen. Bydd rowndiau PISA yn y dyfodol yn canolbwyntio ar wahanol bynciau lle nad yw'r gwahaniaethau rhwng y gwledydd mor eang. Efallai y byddai'n fuddiol parhau i fonitro'r tueddiadau hyn i weld unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn sgôr a cheisio cysylltu'r newidiadau hyn â diwygiadau polisi yn y blynyddoedd blaenorol. Yn yr un modd, mae yna nifer o bolisïau darllen yng Ngweriniaeth Iwerddon, ac yng ngwledydd y DU, a allai fod o fudd i'r garfan PISA nesaf. Byddai

archwilio'r pwnc hwn ymhellach yn caniatáu dod i gasgliadau cadarnach ynghylch polisi a chefnogi penderfyniadau polisi ar sail tystiolaeth yn y dyfodol.

# Cyfeiriadau

Blake, J., 2018. *Completing the Revolution. Delivering on the promise of the 2014 National Curriculum*. [pdf] Ar gael: <Completing the Revolution Delivering on the promise of the 2014 National Curriculum> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Burgess, S. and Thomson, D., 2019. *Making the grade: The impact of GCSE reforms on the attainment gap between disadvantaged pupils and their peers.* [pdf] Ar gael: <Making the grade: The impact of GCSE reforms on the attainment gap between disadvantaged pupils and their peers> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Cosgrove, J., Cartwright, F., 2014b. Changes in achievement on PISA: the case of Ireland and implications for international assessment practice. *Large-scale Assess Education,* [e-journal] 2(2). https://doi.org/10.1186/2196-0739-2-2

Council for the Curriculum, Examinations, and Assessment, 2007. *Northern Ireland Curriculum*. [ar-lein] Ar gael: <Northern Ireland Curriculum> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department for Education, 2011a. *Evaluation of every child a reader*. [pdf] Ar gael: <Evaluation of every child a reader> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department for Education, 2011b. *National Strategies 1997-2011 A brief summary of the impact and effectiveness of the National Strategies*. [pdf] Ar gael: <National Strategies 1997-2011 A brief summary of the impact and effectiveness of the National Strategies> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Department for Education, 2011c. *2010 to 2015 Government policy education of disadvantaged children*. [ar-lein] Ar gael: <2010 to 2015 Government policy education of disadvantaged children> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department for Education, 2011d. *National curriculum review launched*. [press release], 20 January 2011. Ar gael: <National curriculum review launched> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Department for Education, 2014. *Year 7 literacy and numeracy catch-up premium: guide for schools.* [ar-lein] Ar gael: <Year 7 literacy and numeracy catch-up premium: guide for schools> [Cyrchwyd 25 Mawrth 2021].

Department for Education, 2016. Policy paper. *Social mobility and opportunity areas*. [ar-lein] Ar gael: <Social mobility and opportunity areas> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department for Education, 2017. *Unlocking talent, fulfilling potential: a plan for improving social mobility through education*. [pdf] Ar gael: <Unlocking talent, fulfilling potential: a plan for improving social mobility through education> [Cyrchwyd 5 Ionawr 2021].

Department for Education, 2018. *Literacy and numeracy catch-up strategies*. [pdf] Ar gael: <Literacy and numeracy catch-up strategies> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Department for Education, 2019a. *National curriculum assessments at key stage 2 in England, 2019 (revised)*. [pdf] Ar gael: <National curriculum assessments at key stage 2 in England, 2019 (revised)> [Cyrchwyd 11 Mawrth 2021].

Department for Education, 2019b. *Key stage 4 performance, 2019 (revised)*. [pdf] Ar gael <Key stage 4 performance, 2019 (revised)> [Cyrchwyd 12 Mawrth 2021].

Department for Children, Schools and Families, 2007. *City challenge: for world class education*. [pdf] Ar gael: <For World Class Education> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education, 2005. *Common Funding Scheme*. [ar-lein] Ar gael: <Common Funding Scheme> [Cyrchwyd 29 Mawrth 2021].

Department of Education, 2006. *Extended schools: schools, families, communities - working together*. [pdf] Ar gael: <Extended Schools, schools, families, communities - working together> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education, 2009. *Every school a good school: a policy for school improvement*. [pdf] Ar gael: <Every School A Good School> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education, 2011. *Count read: succeed. A strategy to improve outcomes in literacy and numeracy*. [pdf] Ar gael: <Count Read: Succeed> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education, 2012a. *Understanding difficulties in Literacy Development a whole school approach*. [pdf] Ar gael: <Understanding difficulties in Literacy Development a whole school approach> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education, 2012b. *Literacy and numeracy signature programme.* [ar-lein] Ar gael: <Literacy and Numeracy Signature Programme> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education, 2015. *Independent review of the Sure Start programme*. [pdf] Ar gael: <Independent Review of the Sure Start Programme> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education, 2019. *Year 12 and Year 14 examination performance at post-primary schools in Northern Ireland 2018-19*. [pdf] Ar gael: <Year 12 and Year 14 Examination Performance at Post-Primary Schools in Northern Ireland 2018-19> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education and Skills, 2005. *Delivering equality of opportunity in schools: an action plan for educational inclusion*. [pdf] Ar gael: <An Action Plan for Educational Inclusion> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education and Skills, 2011a. *Literacy and numeracy for learning and life: the National Strategy to improve literacy and numeracy among children and young people 2011 – 2020*. [pdf] Ar gael: <Literacy and Numeracy for Learning and Life: The National Strategy to Improve Literacy and Numeracy among Children and Young People 2011 – 2020> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education and Skills, 2011b. *Lessons from research on the impact of DEIS (Delivering Equality of Opportunity in Schools).* [pdf] Ar gael: <Lessons from research on the impact of DEIS (Delivering Equality of Opportunity in Schools)> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education and Skills, 2014. *Focussed policy assessment early start programme*. [pdf] Ar gael: <Focussed Policy Assessment Early Start Programme> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education and Skills, 2016a. *School self-evaluation guidelines 2016-2020.* [pdf] Ar gael: <School self-evaluation guideline 2016-2020 > [Cyrchwyd 18 Mawrth 2021].

Department of Education and Skills, 2016b. *Action plan for education 2016-2019*. [pdf] Ar gael: <Action plan for education 2016-2019> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education and Skills 2017a. *National strategy: literacy and numeracy for learning and life 2011-2020: Interim Review: 2011 – 2016 New Targets: 2017 – 2020*. [pdf] Ar gael: <National strategy: literacy and numeracy for learning and life - 2011-2020 Interim Review: 2011 – 2016 New Targets: 2017 – 2020> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education and Skills, 2017b. *DEIS Plan 2017. Delivering Equality of Opportunity in Schools*. [pdf] Ar gael: <Delivering Equality of Opportunity in Schools> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Department of Education and Skills, 2017c. *Circular to the management authorities of all mainstream primary schools special education teaching allocation.* [pdf] Ar gael: <Circular to the Management Authorities of all Mainstream Primary Schools Special Education Teaching Allocation> [Cyrchwyd 17 Mawrth 2021].

Education Endowment Foundation, 2018. *Phonics Teaching and Learning Toolkit.* [ar-lein] Ar gael: <Phonics Teaching and Learning Toolkit>[Cyrchwyd 11 Mawrth 2021].

Education Scotland, 2010. *What is Curriculum for Excellence?* [ar-lein] Ar gael: <What is Curriculum for Excellence?> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Education and Skills Committee, 2019. *Report on Scottish National Standardised Assessments*. [pdf] Ar gael: <Report on Scottish National Standardised Assessments> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Education and Training Inspectorate, 2010. *Together Towards Improvement*. [pdf] Ar gael: <Together Towards Improvement> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Education and Training Inspectorate, 2016. *An evaluation of the promoting improvement in English and Mathematics*. [pdf] Ar gael: <An evaluation of the Promoting Improvement in English and Mathematics> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Education and Training Inspectorate, 2018. *SureStart evaluation report*. [pdf] Ar gael: <SureStart evaluation report> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Educational Research Centre, 2021. *Development of a Framework for the Evaluation of Teachers' Professional Learning (TPL)*. [ar-lein] Ar gael: <Development of a frameword for the evaluation of teachers' professional learning>[Cyrchwyd 17 Mawrth 2021].

Estyn, 2019. *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2018-2019*. [pdf] Ar gael: < Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru 2018-2019 > [Cyrchwyd 23 Mawrth 2021].

Gilleece, L., Nelis, S., Fitzgerald, C. and Cosgrove, J., 2020. *Reading, mathematics and science achievement in DEIS schools: Evidence from PISA 2018*. [pdf] Ar gael: <Reading, mathematics and science achievement in DEIS schools: Evidence from PISA 2018> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Institute for Fiscal Studies, 2015. *School funding increases in England targeted at most deprived and led to particularly large increases in non-teaching staff*. [ar-lein] Ar gael: <School funding increases in England targeted at most deprived and led to particularly large increases in non-teaching staff> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Karakolidis, A., Duggan, A., Shiel, G., and Kiniry, J., (in press). Educational Inequality in Primary Schools in Ireland in the Early Years of the National Literacy and Numeracy Strategy: An Analysis of National Assessment Data. *Irish Journal of Education,* 44.

Kennedy, E., 2013. Literacy policy in Ireland. *European Journal of Education*, [e-journal] 48(4). https://doi.org/10.1111/ejed.12053.

Macdougall, A. and Lupton, R. 2018. *The 'London effect': literature review*. [pdf] Ar gael: <The 'London effect': literature review> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

McAvinue, L. and Weir, S., 2015. *The evaluation of DEIS at post-primary level: An update on trends over time in achievement and retention levels*. [pdf] Ar gael: <The evaluation of DEIS at post-primary level: An update on trends over time in achievement and retention levels > [Cyrchwyd 11 Mawrth 2021].

McKeown, C., Denner, S., McAteer, S., Shiel, G., and O'Keeffe, L., 2019. *Learning for the future: The performance of 15-year-olds in Ireland on reading literacy, science and mathematics in PISA 2018*. [pdf] Ar gael: <Learning for the future: The performance of 15-year-olds in Ireland on reading literacy, science and mathematics in PISA 2018.> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

National Audit Office, 2015. *Funding for disadvantaged pupils.* [pdf] Ar gael: <Funding for disadvantaged pupils> [Cyrchwyd 5 Ionawr 2021].

Northern Ireland Audit Office, 2013. *Improving literacy and numeracy achievement in schools*. [pdf] Ar gael: <Improving Literacy and Numeracy Achievement in Schools> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Organisation for Economic Co-operation and Development, 2007. *Reviews of national policies for education – quality and equity of schooling in Scotland.* [pdf] Ar gael: <Reviews of national policies for education> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Organisation for Economic Co-operation and Development, 2013. *Educational evaluation and assessment in Northern Ireland. Strengths, challenges and policy pointers.* [pdf] Ar gael: <Educational Evaluation and Assessment in Northern Ireland Strengths, Challenges and Policy Pointers> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Organisation for Economic Co-operation and Development, 2015. *Improving schools in Scotland: An OECD perspective.* [pdf] Ar gael: <Improving Schools in Scotland: An OECD perspective> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Organisation for Economic Co-operation and Development, 2017. *Welsh education reform journey.* [pdf] Ar gael: <Welsh Education Reform Journey> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Organisation for Economic Co-operation and Development, 2018. *PISA 2018 Technical report*. [ar-lein] Ar gael: <PISA 2018 Technical report> [Cyrchwyd 12 Mawrth 2021].

Organisation for Economic Co-operation and Development, 2020. *PISA 2018 Results (Volume V): Effective Policies, Successful Schools*. [ar-lein] Ar gael: PISA 2018 Results (Volume V): Effective Policies, Successful Schools [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Rose, J. 2006. *Independent review of the teaching of early reading*. [pdf] Ar gael: <Independent review of the teaching of early reading> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Royal Society of Edinburgh, 2016. *RSE reflections on the OECD report, Improving Schools in Scotland, and on the Scottish Government's National Improvement Framework for Scottish Education*. [pdf] Ar gael: <RSE reflections on the OECD report, Improving Schools in Scotland, and on the Scottish Government's National Improvement Framework for Scottish Education> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Sachse, K.A., Mahler, N., and Pohl, S., (2019). When nonresponse mechanisms change: Effects on trends and group comparisons in international large-scale assessments. *Educational and Psychological Measurement*, [e-journal] 79(4), pp. 699-726. https://doi.org/10.1177/0013164419829196

Scottish Government, 2016a. *National improvement framework for Scottish education 2016 evidence-report.* [ar-lein] Ar gael: <National improvement framework Scottish-education 2016 evidence-report> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Scottish Government, 2016b. *Delivering excellence equity Scottish education delivery plan Scotland*. [ar-lein] Ar gael: <Delivering excellence equity Scottish education delivery plan Scotland> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Shiel, G., Kavanagh, L. and Millar, D., 2014. *The 2014 National Assessments of English Reading and Mathematics, Volume 1: Performance Report.* [pdf] Available at <National

Assessments of English Reading and Mathematics, Volume 1: Performance Report> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Shields, J. and Gunson, R., 2017. *Autonomy in the right place. School governance reform in Scotland*. [pdf] Ar gael: <Autonomy in the right place. School governance reform in Scotland> [Cyrchwyd 11 Mawrth 2021].

Smyth, E., McCoy, S. and Kingston, G., 2015. *Learning from the evaluation of DEIS.* [pdf] Ar gael: <Learning from the evaluation of DEIS> [Cyrchwyd at 10 Mawrth 2021].

Social Mobility Commission, 2017. *Time for change: an assessment of government policies on social mobility 1997-2017*. [pdf] Ar gael: <Time for change: an assessment of government policies on social mobility 1997-2017> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

The National Assembly for Wales Children, Young People and Education Committee, 2018. *On the money? Targeting funding to improve educational outcomes*. [pdf] Ar gael: <On the money? Targeting funding to improve educational outcomes> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Weir, S. and McAvinue, L., 2013. *The achievements and characteristics of pupils attending rural schools participating in DEIS.* [pdf] Ar gael: <The Achievements and Characteristics of Pupils attending Rural Schools Participating in DEIS> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Llywodraeth Cymru, 2010. *Strategaeth Addysg Gymraeg.* [pdf] Ar gael: Strategaeth Addysg Gymraeg> Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Llywodraeth Cymru, 2013a. *Fframwaith llythrennedd a rhifedd Cenedlaethol.* [pdf] Ar gael:< Fframwaith llythrennedd a rhifedd Cenedlaethol> [Cyrchwyd 23 Mawrth 2021].

Llywodraeth Cymru, 2013b. *Pupil deprivation grant short guidance for practitioners*. [pdf] Ar gael: <Pupil Deprivation Grant Short guidance for practitioners> [Cyrchwyd 10 Mawrth 2021].

Llywodraeth Cymru, 2015a. *Cwricwlwm Cymru: meysydd dysgu a rhaglenni astudio diwygiedig. [pdf]* Ar gael: < Cwricwlwm Cymru: meysydd dysgu a rhaglenni astudio diwygiedig> [Cyrchwyd 23 Mawrth 2021].

Llywodraeth Cymru, 2015b. *Gwerthuso'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg*. [pdf] Ar gael: <Gwerthuso'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg> [Cyrchwyd 10 Chwefror 2021].

Llywodraeth Cymru, 2017. *Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21.* [pdf] Ar gael:<Y Gymraeg mewn addysg: Cynllun gweithredu 2017–21> [Cyrchwyd 23 Mawrth 2021].

## Darllen Pellach


Scottish Government, 2019. *Programme for International Student Assessment (PISA) 2018: highlights from Scotland's results.* [ar-lein] Ar gael: <Programme for International Student Assessment (PISA) 2018: highlights from Scotland's results> [Cyrchwyd 10 March 2021].

Sizmur, J., Ager, R., Bradshaw, J., Classick, R., Galvis, M., Packer, J., Thomas D. and Wheater R., 2019a. *Achievement of 15-year-old pupils in Northern Ireland: PISA 2018 national report*. [ar-lein] Ar gael: <Achievement of 15-year-old pupils in Northern Ireland: PISA 2018 national report> [Cyrchwyd 5 January 2021].

Sizmur, J., Ager, R., Bradshaw, J., Classick, R., Galvis, M., Packer, J., Thomas D. and Wheater R., 2019b. *Achievement of 15-year-olds in England: PISA 2018 results*. [ar-lein] Ar gael: <Achievement of 15 year olds in England: PISA 2018 results> [Cyrchwyd 5 January 2021].

Sizmur, J., Ager, R., Bradshaw, J., Classick, R., Galvis, M., Packer, J., Thomas D. and Wheater R., 2019c. *Cyflawniad disgyblion 15 oed yng Nghymru: adroddiad cenedlaethol PISA 2018.* [ar-lein] Ar gael: <Cyflawniad disgyblion 15 oed yng Nghymru: Adroddiad cenedlaethol PISA 2018> [Cyrchwyd 5 Ionawr 2021].

# Atodiad 1 - 'Gostyngiad' PISA 2009 yng Ngweriniaeth Iwerddon

*Darparwyd y crynodeb canlynol o'r feddylfryd gyfredol ynghylch y gostyngiad yng nghanlyniadau PISA yn 2009 yng Ngweriniaeth Iwerddon gan Dr Jude Cosgrove o'r Ganolfan Ymchwil Addysg, Drumcondra, Dulyn.*

Arweiniodd canlyniadau PISA 2009 at lawer o sylwebaeth gan y cyfryngau ac ymateb polisi mawr ar ffurf y Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd (National Strategy to Improve Literacy and Numeracy among Young People 2011-2020; Adran Addysg a Sgiliau, 2011). Roedd croeso mawr i ymateb y strategaeth, ond mae'n ymddangos bod ystod o ffactorau yn sail i'r newid a welwyd yn y sgoriau PISA yn Iwerddon yn 2009, gan wneud ei ddehongliad yn eithaf cymhleth.

Cadarnhaodd ymchwil ac adolygiadau technegol (Cosgrove a Cartwright, 2014) fod Gweriniaeth Iwerddon yn cwrdd â safonau technegol PISA yr OECD ac yn cadarnhau ansawdd y gweithdrefnau gweinyddu. Fodd bynnag, gweithredwyd dwy nodwedd (gymeradwy) o'r weinyddiaeth prawf yn 2009, ac nid mewn unrhyw gylch arall o PISA yng Ngweriniaeth Iwerddon: y cyntaf oedd raffl ym mhob ysgol am dair taleb €15 a'r ail oedd cael athrawon yn yr ysgol i weinyddu'r asesiad, yn hytrach na staff allanol.

Efallai bod y newidiadau hyn wedi effeithio ar sut roedd disgyblion yn ymgysylltu â'r prawf, ac mae tystiolaeth o batrymau perfformiad yn y llyfrynnau prawf yn cefnogi hyn.

Datgelodd dadansoddiadau o batrymau ymateb disgyblion wrth iddynt symud ymlaen trwy'r llyfrynnau prawf gynnydd arwyddocaol yng nghanran yr ymatebion a hepgorwyd neu oedd ar goll tuag at ddiwedd y llyfrynnau prawf, tra bod y perfformiad yn ystod rhan gyntaf y llyfrynnau prawf (y canran yn gywir) yn debyg yn 2009 i’r hyn a welwyd yn 2000. Gallai hyn awgrymu lefel uwch o ddigalonni ar y prawf neu ymddieithriad ar ran y disgyblion yn 2009. At hynny, roedd y patrwm hwn yn fwy amlwg mewn eitemau 'cyswllt' (y rhai a ddefnyddir i fesur tueddiadau mewn cyflawniad) nag ar gyfer eitemau 'newydd' (Cosgrove a Cartwright, 2014). Mae Cosgrove a Cartwright hefyd wedi adrodd ar ddadansoddiad rhyngwladol o'r patrymau ymateb sy'n datgelu hynodrwydd cenedlaethol, ac mae hyn yn awgrymu cyfyngiadau yn y model graddio ar gyfer y sgoriau cyflawniad yn PISA 2009.

Yn wir, mae papur mwy diweddar (Sachse, Mahler a Pohl, 2019) yn dangos y byddai model graddio mwy soffistigedig sy'n caniatáu ar gyfer triniaeth fwy hyblyg o batrymau data coll yn arwain at ddirywiad llai yn sgôr darllen PISA 2009 Gweriniaeth Iwerddon na hynny a adroddwyd ar y pryd.

# Atodiad 2 - Ystyr lefelau hyfedredd a sgoriau graddfeydd PISA

Mae PISA yn defnyddio lefelau hyfedredd i ddisgrifio'r mathau o sgiliau y mae disgyblion yn debygol o'u dangos a'r tasgau y gallant eu cyflawni. Mae cwestiynau asesu sy'n canolbwyntio ar dasgau syml yn cael eu categoreiddio ar lefelau is tra bod y rhai sy'n gofyn mwy yn cael eu categoreiddio ar lefelau uwch. Mae categorïau'r cwestiynau wedi'u seilio ar ddadansoddiad meintiol ac ansoddol, gan ystyried anhawster y cwestiwn yn ogystal â barn arbenigwyr ar ofynion gwybyddol penodol pob cwestiwn unigol. Mae holl gwestiynau PISA wedi'u categoreiddio yn y modd hwn.

Mae disgyblion y disgrifir eu bod ar lefel benodol nid yn unig yn dangos y wybodaeth a'r sgiliau sy'n gysylltiedig â'r lefel honno ond hefyd yr hyfedredd sydd ei angen ar lefelau is. Er enghraifft, ystyrir bod pob disgybl sy'n hyfedr ar Lefel 3 hefyd yn hyfedr ar Lefelau 1 a 2. Lefel hyfedredd disgybl yw'r lefel uchaf y mae'n ateb mwy na hanner y cwestiynau arni yn gywir. Mae Tabl A2.1 yn dangos yr ystod o bwyntiau sgôr ar gyfer pob lefel ym mhob pwnc.

**Tabl A2.1 Sgoriau graddfeydd lefelau hyfedredd PISA**

| Lefel | Darllen | Gwyddoniaeth | Mathemateg |
|---|---|---|---|
| Islaw Lefel 1c | Islaw 189 | | |
| Lefel 1c | 189-262 | Islaw 260 | |
| Lefel 1b | 262-335 | 260-335 | Islaw 358 |
| Lefel 1a | 335-407 | 335-410 | 358-420 |
| Lefel 2 | 407-480 | 410-484 | 420-482 |
| Lefel 3 | 480-553 | 484-559 | 482-545 |
| Lefel 4 | 553-626 | 559-633 | 545-607 |
| Lefel 5 | 626-698 | 633-708 | 607-669 |
| Lefel 6 | Uwchlaw 698 | Uwchlaw 708 | Uwchlaw 669 |

Ffynhonnell: Cronfa ddata PISA 2018

Gosodwyd y sgôr gymedrig ar gyfer pob graddfa pwnc i 500 ymhlith gwledydd yr OECD yn y cylch PISA pan oedd y pwnc yn brif faes am y tro cyntaf. Felly, gosodwyd y raddfa ddarllen i gymedr o 500 yn ei flwyddyn gyntaf yn 2000. Yn yr un modd gosodwyd y raddfa fathemateg i 500 yn 2003 a gosodwyd y raddfa wyddoniaeth i gymedr o 500 yn 2006. Mae'r dull o nodi'r graddfeydd hyn yn cael ei egluro ymhellach yn Atodiad E ac yn Adroddiad Technegol PISA (OECD, 2018).

Yn yr un modd ag unrhyw fesuriad ailadroddus sy'n defnyddio samplau, gall y cymedr amrywio ychydig o gylch i gylch heb o reidrwydd nodi unrhyw newid gwirioneddol yn y lefel sgiliau byd-eang.

Mae tablau A2.2 isod yn disgrifio'r hyn y gall disgyblion ei wneud yn nodweddiadol ar bob lefel hyfedredd ar gyfer darllen.

**Tabl A2.2 Lefelau hyfedredd darllen**

| Lefel | Yr hyn y gall disgyblion yn nodweddiadol ei wneud ar bob lefel |
|---|---|
| **6** | Gall darllenwyr ar lefel 6 ddeall testunau hirfaith a haniaethol lle mae'r wybodaeth o ddiddordeb wedi'i gwreiddio'n ddwfn a dim ond yn ymwneud yn anuniongyrchol â'r dasg. Gallant gymharu, cyferbynnu ac integreiddio gwybodaeth sy'n cynrychioli safbwyntiau lluosog a all wrthdaro â'i gilydd, gan ddefnyddio meini prawf lluosog a chynhyrchu casgliadau ar draws darnau pell o wybodaeth er mwyn pennu sut y gellir defnyddio'r wybodaeth.<br><br>Gall darllenwyr ar lefel 6 fyfyrio'n ddwfn ar ffynhonnell y testun mewn perthynas â'i gynnwys, gan ddefnyddio meini prawf y tu allan i'r testun. Gallant gymharu a chyferbynnu gwybodaeth ar draws testunau, nodi a datrys anghysondebau a gwrthdrawiadau rhyng-destunol drwy ddod i gasgliadau am ffynonellau gwybodaeth, eu diddordebau penodol neu bersonol, a chiwiau eraill ynghylch dilysrwydd y wybodaeth.<br><br>Mae tasgau ar lefel 6 fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r darllenydd sefydlu cynlluniau cymhleth, gan gyfuno meini prawf lluosog a chynhyrchu casgliadau i gysylltu'r dasg a'r testun(au). Mae deunyddiau ar y lefel hon yn cynnwys un neu sawl testun cymhleth a haniaethol, sy'n cynnwys safbwyntiau lluosog ac o bosibl arwahanol. Gall gwybodaeth darged fod ar ffurf manylion sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn o fewn neu ar draws testunau ac o bosibl wedi'u cuddio gan wybodaeth sy'n cystadlu. |
| **5** | Gall darllenwyr ar lefel 5 amgyffred testunau hirfaith, gan awgrymu pa wybodaeth yn y testun sy'n berthnasol er y gall fod yn hawdd anwybyddu'r wybodaeth o ddiddordeb. Gallant berfformio ffurfiau achosol neu fathau eraill o resymu yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddofn o ddarnau estynedig o destun. Gallant hefyd ateb cwestiynau anuniongyrchol drwy awgrymu'r berthynas rhwng y cwestiwn ac un neu sawl darn o wybodaeth a ddosberthir o fewn neu ar draws nifer o destunau a ffynonellau.<br><br>Mae tasgau myfyriol yn gofyn am gynhyrchu neu werthuso beirniadol ar ragdybiaethau, gan dynnu ar wybodaeth benodol. Gall darllenwyr sefydlu gwahaniaethau rhwng cynnwys a phwrpas, a rhwng ffaith a barn fel y'u cymhwysir i ddatganiadau cymhleth neu haniaethol. Gallant asesu niwtraliaeth a rhagfarn yn |

| Lefel | Yr hyn y gall disgyblion yn nodweddiadol ei wneud ar bob lefel |
|---|---|
| | seiliedig ar giwiau penodol neu ymhlyg sy'n ymwneud â chynnwys a/neu ffynhonnell y wybodaeth. Gallant hefyd ddod i gasgliadau ynghylch dibynadwyedd yr honiadau neu'r casgliadau a gynigir mewn darn o destun.<br><br>Ar gyfer pob agwedd ar ddarllen, mae tasgau ar lefel 5 fel arfer yn golygu ymdrin â chysyniadau sy'n haniaethol neu'n wrthreddfol, ac mynd drwy sawl cam nes cyrraedd y nod. Yn ogystal, gall tasgau ar y lefel hon ofyn i'r darllenydd drin sawl testun hir, gan newid yn ôl ac ymlaen ar draws testunau er mwyn cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. |
| **4** | Ar lefel 4, gall darllenwyr ddeall darnau estynedig mewn gosodiadau testun unigol neu destunau lluosog. Maent yn dehongli ystyr naws iaith mewn rhan o destun drwy ystyried y testun yn ei gyfanrwydd. Mewn tasgau deongliadol eraill, mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth a chymhwysiad o gategorïau ad hoc. Gallant gymharu safbwyntiau a dod i gasgliadau yn seiliedig ar ffynonellau lluosog.<br><br>Gall darllenwyr chwilio, canfod ac integreiddio sawl darn o wybodaeth wedi'u hymgorffori ym mhresenoldeb gwrthdynwyr credadwy. Gallant greu casgliadau sy'n seiliedig ar ddatganiad y dasg er mwyn asesu perthnasedd y wybodaeth darged. Gallant ymdrin â thasgau sy'n gofyn iddynt gofio cyd-destun tasgau blaenorol.<br><br>Yn ogystal, gall disgyblion ar y lefel hon werthuso'r berthynas rhwng datganiadau penodol a safbwynt neu gasgliad cyffredinol unigolyn ynglŷn â phwnc. Gallant fyfyrio ar y strategaethau y mae awduron yn eu defnyddio i gyfleu eu pwyntiau, yn seiliedig ar nodweddion perthnasol testunau (e.e. teitlau a darluniau). Gallant gymharu a chyferbynnu hawliadau a wnaed yn glir mewn nifer o destunau ac asesu dibynadwyedd ffynhonnell yn seiliedig ar feini prawf perthnasol.<br><br>Mae testunau ar lefel 4 yn aml yn hir neu'n gymhleth, ac efallai na fydd eu cynnwys na'u ffurf yn safonol. Mae llawer o'r tasgau wedi'u lleoli mewn gosodiadau testunau lluosog. Mae'r testunau a'r tasgau yn cynnwys ciwiau anuniongyrchol neu ymhlyg. |
| **3** | Gall darllenwyr ar lefel 3 gynrychioli ystyr llythrennol testunau unigol neu luosog yn niffyg cynnwys penodol neu gliwiau trefniadol. Gall darllenwyr integreiddio cynnwys a chynhyrchu casgliadau sylfaenol a mwy datblygedig. Gallant hefyd integreiddio sawl rhan o ddarn o destun er mwyn adnabod y prif syniad, deall perthynas neu gystrawennau ystyr gair neu ymadrodd pan fydd y wybodaeth ofynnol yn cael ei chynnwys ar un dudalen.<br><br>Gallant chwilio am wybodaeth yn seiliedig ar ysgogiadau anuniongyrchol, a lleoli gwybodaeth darged nad yw mewn safle amlwg a/neu sydd yng ngŵydd |

| Lefel | Yr hyn y gall disgyblion yn nodweddiadol ei wneud ar bob lefel |
|---|---|
| | gwrthdynwyr Mewn rhai achosion, mae darllenwyr ar y lefel hon yn cydnabod y berthynas rhwng sawl darn o wybodaeth yn seiliedig ar feini prawf lluosog.<br><br>Gall darllenwyr Lefel 3 fyfyrio ar ddarn o destun neu set fach o destunau, a chymharu a chyferbynnu safbwyntiau nifer o awduron yn seiliedig ar wybodaeth benodol. Gall tasgau myfyriol ar y lefel hon ei gwneud yn ofynnol i'r darllenydd wneud cymariaethau, cynhyrchu esboniadau neu werthuso nodwedd o'r testun. Mae rhai tasgau myfyriol yn gofyn i ddarllenwyr ddangos dealltwriaeth fanwl o ddarn o destun sy'n ymdrin â phwnc cyfarwydd, tra bod eraill yn gofyn am ddealltwriaeth sylfaenol o gynnwys llai cyfarwydd.<br><br>Mae tasgau ar lefel 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darllenydd ystyried llawer o nodweddion wrth gymharu, cyferbynnu neu gategoreiddio gwybodaeth. Yn aml, nid yw'r wybodaeth ofynnol yn amlwg, neu efallai fod cryn dipyn o wybodaeth yn cystadlu am sylw. Gall testunau sy'n nodweddiadol o'r lefel hon gynnwys rhwystrau eraill, fel syniadau sy'n groes i ddisgwyliadau neu wedi'u geirio'n negyddol. |
| **2** | Gall darllenwyr ar Lefel 2 adnabod y prif syniad mewn darn o destun o hyd cymedrol. Gallant ddeall perthynas neu weld ystyr o fewn rhan gyfyngedig o'r testun pan nad yw'r wybodaeth yn amlwg drwy gynhyrchu casgliadau sylfaenol, a/neu pan fo'r testun(au) yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth sy'n tynnu sylw.<br><br>Gallant ddewis a chyrchu tudalen mewn set yn seiliedig ar awgrymiadau penodol er weithiau'n gymhleth, a chanfod un neu fwy o ddarnau o wybodaeth yn seiliedig ar feini prawf lluosog, sy'n rhannol ymhlyg.<br><br>Gall darllenwyr ar lefel 2, o dderbyn ciw penodol, fyfyrio ar y diben cyffredinol, neu ar ddiben manylion penodol, mewn testunau o hyd cymedrol. Gallant fyfyrio ar nodweddion gweledol neu deipograffyddol syml. Gallant gymharu honiadau a gwerthuso'r rhesymau sy'n eu cefnogi ar sail datganiadau byr, clir.<br><br>Gall tasgau ar Lefel 2 gynnwys cymariaethau neu wrthgyferbyniadau yn seiliedig ar un nodwedd yn y testun. Mae tasgau myfyriol nodweddiadol ar y lefel hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddarllenwyr wneud cymhariaeth neu sawl cysylltiad rhwng y testun a gwybodaeth allanol drwy ddefnyddio profiad ac agweddau personol. |

| Lefel | Yr hyn y gall disgyblion yn nodweddiadol ei wneud ar bob lefel |
|---|---|
| **1a** | Gall darllenwyr ar lefel 1a ddeall ystyr llythrennol brawddegau neu ddarnau byr. Gall darllenwyr ar y lefel hon hefyd adnabod y brif thema neu bwrpas yr awdur mewn darn o destun am bwnc cyfarwydd, a gwneud cysylltiad syml rhwng sawl darn cyfagos o wybodaeth, neu rhwng y wybodaeth a roddir a'u gwybodaeth flaenorol eu hunain.<br><br>Gallant ddewis tudalen berthnasol o set fach ar sail ysgogiadau syml, a chanfod un neu fwy o ddarnau annibynnol o wybodaeth o fewn testunau byr.<br><br>Gall darllenwyr Lefel 1a fyfyrio ar y pwrpas cyffredinol ac ar bwysigrwydd cymharol gwybodaeth (e.e. y prif syniad yn erbyn manylion nad ydynt yn hanfodol) mewn testunau syml sy'n cynnwys ciwiau penodol.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o dasgau ar y lefel hon yn cynnwys awgrymiadau penodol ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud, sut i'w wneud, a ble yn y testun(au) y dylai darllenwyr hoelio eu sylw. |
| **1b** | Gall darllenwyr ar Lefel 1b werthuso ystyr llythrennol brawddegau syml. Gallant hefyd ddehongli ystyr llythrennol testunau trwy wneud cysylltiadau syml rhwng darnau cyfagos o wybodaeth yn y cwestiwn a/neu'r testun.<br><br>Gall darllenwyr ar y lefel hon sganio am a lleoli darn unigol o wybodaeth amlwg mewn lleoliad clir, mewn brawddeg unigol, testun byr neu restr syml. Gallant gael mynediad i dudalen berthnasol o set fach ar sail ysgogiadau syml pan fydd ciwiau penodol yn bresennol.<br><br>Mae tasgau ar Lefel 1b yn cyfarwyddo darllenwyr yn benodol i ystyried ffactorau perthnasol yn y dasg ac yn y testun. Mae testunau ar y lefel hon yn fyr ac yn nodweddiadol yn rhoi cefnogaeth i'r darllenydd, megis drwy ailadrodd gwybodaeth, lluniau neu symbolau cyfarwydd. Prin yw'r wybodaeth sy'n cystadlu. |
| **1c** | Gall darllenwyr ar Lefel 1c ddeall a chadarnhau ystyr brawddegau byr, syndactegol syml ar lefel lythrennol, a'u darllen at bwrpas clir a syml o fewn cyfnod cyfyngedig o amser.<br><br>Mae tasgau ar y lefel hon yn cynnwys geirfa a strwythurau cystrawennol syml. |

# Atodiad 3 - Yr arolwg

## Dadansoddiad ychwanegol PISA 2018: ymgynghoriad adolygu polisi

Mae cydweithwyr yn [adran addysg] wedi nodi eich bod yn barod i gyfrannu eich barn yn yr arolwg dilysu byr hwn.  Mae croeso i chi ymgynghori â chydweithwyr hefyd, os dymunwch.

Diolch i chi am gytuno i gymryd rhan, mae eich barn ar y mater hwn yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr.

Rydym wedi cynnal cyfres o adolygiadau polisi i nodi'r prif bolisïau sydd wedi'u cynllunio i wella canlyniadau darllen disgyblion rhwng **2002** a **2018**, hynny yw, yn ystod oes carfan PISA 2018 (o'u genedigaeth, trwy'r cyfnod cyn-ysgol, cynradd ac i'r uwchradd/ôl-gynradd.)

Mae dogfen gryno sy'n amlinellu mentrau polisi a gynhaliwyd yn eich awdurdodaeth gyda'r nod o wella canlyniadau darllen ar lefelau cyn-ysgol, cynradd ac uwchradd/ôl-gynradd ynghlwm yn Atodiad 1. Byddem yn ddiolchgar pe gallech adolygu'r ddogfen atodedig ac ystyried y cwestiynau sy'n dilyn. Mae'r cwestiynau i gyd yn benagored, felly mae croeso i chi ysgrifennu cymaint ag y dymunwch ar sail eich profiad a'ch dealltwriaeth o bolisi a gweithredu darllen/llythrennedd/iaith.

Er gwybodaeth, isod mae rhywfaint o gefndir i PISA a'r dadansoddiad polisi yr ydym yn ei wneud.

**Cefndir i'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) OECD**

Mae Gweriniaeth Iwerddon yn cymryd rhan mewn astudiaethau cymhariaeth ryngwladol fel PISA i feincnodi polisi addysg a pherfformiad myfyrwyr yn erbyn gwledydd eraill, adolygu cryfderau a gwendidau'r system mewn cyd-destun rhyngwladol, a monitro tueddiadau dros amser yn ôl mesurau annibynnol. Mae'r wybodaeth a gesglir yn rhan hanfodol o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer darparu addysg o'r radd flaenaf i'n pobl ifanc, a'n galluogi i ddysgu o'r polisïau a'r arferion mewn gwledydd eraill.

Mae astudiaeth PISA yn casglu toreth o wybodaeth gefndir o holiaduron yr ysgol a myfyrwyr y gellir eu dadansoddi gyda data cyrhaeddiad myfyrwyr a'u cymharu'n rhyngwladol. Gellir defnyddio'r dadansoddiadau hyn, yn eu tro, i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.

**Cefndir yr arolwg hwn**

Yn dilyn cyhoeddi canlyniadau PISA 2018 ym mis Rhagfyr 2019, mae [adran addysg] wedi comisiynu NFER i gynnal dadansoddiadau pellach o ddata PISA i archwilio a oes gwersi y gellid eu rhannu ar draws gwledydd, yn enwedig o ran polisïau addysg sydd â'r nod o wella sgiliau darllen myfyrwyr yng ngharfannau PISA 2018.

Byddwn yn archwilio canlyniadau darllen PISA yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Gweriniaeth Iwerddon i archwilio cysylltiadau rhwng cyrhaeddiad myfyrwyr a gweithredu polisi. Fel cam cyntaf yn y broses hon, rydym wedi cynnal cyfres o adolygiadau polisi i nodi'r prif bolisïau sydd wedi'u cynllunio i wella canlyniadau darllen myfyrwyr rhwng 2002 a 2018, pan fyddai carfan disgyblion PISA 2018 wedi bod mewn addysg ffurfiol (o'r cyfnod cyn-ysgol, i'r cynradd ac i'r uwchradd/ôl-gynradd.)

**Diolch.**

## Adolygiad polisi (gweler Atodiad 1)

Mae'r cwestiynau isod yn cyfeirio at bolisïau a weithredwyd yn ystod oes myfyrwyr carfan PISA 2018, o'u genedigaeth hyd at 16 oed.

Mae gennym ddiddordeb yn eich canfyddiad o sut mae polisïau sy'n bwriadu gwella canlyniadau llythrennedd yn effeithio ar gyrhaeddiad myfyrwyr, ond hefyd ar eu hymddygiad a'u hagweddau at ddarllen.

**Cwestiwn:**

1. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw bolisïau neu ymyriadau arwyddocaol, sydd ar goll o'r crynodeb polisi? Os felly, ychwanegwch nhw yma.

**Cwestiwn:**

2. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw raglenni neu ymyriadau ar raddfa fawr/genedlaethol a ariennir gan y llywodraeth a sefydlwyd i fod yn sail i bolisi llythrennedd a'i gefnogi? (Er enghraifft, rhaglenni rhoddion llyfrau neu raglenni darllen blynyddoedd cynnar cenedlaethol ac ati.) Os felly, ychwanegwch nhw yma a rhowch sylwadau ar eu heffeithiolrwydd.

## Eich barn

**Cwestiwn:**

3. Pa bolisïau neu ymyriadau sydd wedi bod bwysicaf yn eich barn chi wrth wella canlyniadau darllen? Esboniwch pam, gan roi tystiolaeth lle bo hynny'n bosibl.

**Cwestiwn:**

4. Pa bolisïau neu ymyriadau sydd wedi bod lleiaf pwysig yn eich barn chi wrth wella canlyniadau darllen? Esboniwch pam, gan roi tystiolaeth lle bo hynny'n bosibl.

**Cwestiwn:**

5. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw werthusiadau neu asesiadau effaith a gynhaliwyd ar y polisïau neu'r ymyriadau hyn? Ychwanegwch nhw yma.

## Gweithredu polisi

**Mae gennym ddiddordeb arbennig yn y modd y gweithredir polisïau yn fwyaf llwyddiannus. A allwch chi ddisgrifio'r canlynol?**

**Cwestiwn:**

6. Beth, yn eich profiad chi, yw'r ffactorau allweddol wrth weithredu polisi darllen yn llwyddiannus? Rhowch enghreifftiau.

**Cwestiwn:**

7. Beth, yn eich profiad chi, yw'r prif rwystrau i weithredu polisi darllen yn llwyddiannus? Rhowch enghreifftiau.

**Cwestiwn:**

8. A oes gennych unrhyw sylwadau pellach ar effaith neu weithrediad polisi darllen yn eich awdurdodaeth dros y 10 mlynedd diwethaf?

**Cwestiwn:**

9. A oes unrhyw feysydd allweddol yr ydych chi'n teimlo y dylai polisïau fynd i'r afael â nhw i wella darllen myfyrwyr yn y dyfodol?

**Cwestiwn:**

10. Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw bolisïau neu ymyriadau o wledydd eraill a allai fod yn fuddiol yn eich awdurdodaeth? Os ydych, disgrifiwch pam rydych chi'n meddwl y gallai'r rhain fod yn fuddiol.

# Atodiad 4 - Trosolwg o bolisi: DU a Gweriniaeth Iwerddon

I'w nodi: wrth edrych ar y polisïau cyn 2003, dylid ystyried bod hyn yn rhan o'r cyfnod cyn datganoli:

- Cynulliad Cenedlaethol Cymru o 1999, fodd bynnag, roedd mwy o bwerau gyda deddfwriaeth ddilynol
- Cynulliad Gogledd Iwerddon o 1998
- Senedd yr Alban o 1999, fodd bynnag, mae hon yn system hanesyddol wahanol.

Ar gyfer pob rhan ddatganoledig o'r DU, cyn datganoli deddfwriaethol, roedd datganoli gweinyddol.

### Talfyriadau ar gyfer pob polisi:

L&N: strategaethau llythrennedd a rhifedd cenedlaethol allweddol

LA/D: mentrau cenedlaethol allweddol i gefnogi cyrhaeddiad isel a/neu anfantais

PS: darpariaeth cyn-ysgol

| Blwyddyn ysgol | Oedran carfan PISA hydref | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon | Gweriniaeth Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyn 2023** | | Grantiau ar gyfer Cymorth a Hyfforddiant Addysg (GEST) - hyd at 1998, yna'r Gronfa Safonau - rhywfaint o ffocws anfantais - hyd at 2004<br>1999 - 2003: Rhagoriaeth mewn Dinasoedd | Grantiau ar gyfer Cymorth a Hyfforddiant Addysg (GEST) - rhywfaint o ffocws anfantais - hyd at 2004 | 1998 - 2006: Strategaeth Hybu Llythrennedd a Rhifedd mewn Ysgolion Cynradd ac Uwchradd (L&N)<br>Rhaglen Gwella, yn 1998 - 2006 | 1980au a 90au: Cynllun Ardaloedd o dan Anfantais (cynradd ac uwchradd)<br>2001-2005: Giving Children an Even Break (lefel gynradd; ymgorffori'r Cynllun Ardaloedd o dan Anfantais) (ALI / D)<br>2001-2005 – Torri’r Cylch | Canol y 1980au: Rhaglen Asesu Cyrhaeddiad (AAP) (L&N)<br>Strategaeth Cyfiawnder Cymdeithaol 1999 - 2004 |

| Blwyddyn ysgol | Oedran carfan PISA hydref | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon | Gweriniaeth Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2003** | **0-1** | Strategaethau Cenedlaethol - Llythrennedd a Rhifedd (1997 - 2011) (L&N)<br>Lansio Her Llundain Mai 2003 | - | Hunanwerthuso ysgolion: Together Towards Improvement | Cychwyn Cynnar mewn ardaloedd dan anfantais (o 1994) (PS) | - |
| **2004** | **1-2** | - | Profion Cyfnod Allweddol yn dod i ben | - | - | - |
| **2005** | **2-3** | Addysg gynnar am ddim i bob plentyn 3 oed (PS) | - | - | Cyflwyno Cyfle Cyfartal mewn Ysgolion (DEIS) 2005-2017 (LA/D) | - |
| **2006** | **3-4** | Adroddiad Rose yn argymell ffoneg synthetig systematig | - | Ehangwyd Cychwyn Cadarn i gwmpasu canlyniadau addysg (PS)<br>Lansio Ysgolion Estynedig | - | - |
| **2007** | **4-5** | Lansio Her Dinasoedd ym mis Ebrill 2008 | - | Cwricwlwm Gogledd Iwerddon (L&N) | - | - |
| **2008** | **5-6** | Cyflwyno ECaR yn genedlaethol<br>Profion CA3 yn dod i ben | - | Pob Ysgol yn Ysgol Dda Ebrill 2009 | - | - |
| **2009** | **6-7** | - | - | - | - | - |

| Blwyddyn ysgol | Oedran carfan PISA hydref | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon | Gweriniaeth Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010** | **7-8** | Cyflymu Academïau<br>Ymrwymiad i ehangu Teach First ac Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon a arweinir gan ysgolion | - | - | Addysg gynnar gyffredinol ar gyfer plant 3 a 4 oed (PS) | Cwricwlwm er Rhagoriaeth (L&N) |
| **2011** | **8-9** | Premiwm Disgyblion (ALI/D)<br>Sefydlu'r Education Endowment Foundation<br>Cyflwyno mesur perfformiad Bagloriaeth Lloegr | Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Ebrill 2010 | Cyfrif, Darllen: Llwyddo (L&N) | Literacy & Numeracy for Learning & Life 2011 (L&N) | Cyflwyno Arolwg Llythrennedd a Rhifedd yr Alban (P4, P7, S2) |
| **2012** | **9-10** | Premiwm Disgyblion wedi'i ymestyn i erioed-6 (LA/D)<br>Cyflwyno premiwm dal i fyny Blwyddyn 7 (LA/D) | Gweithio mewn consortia rhanbarthol fis Medi 2012<br>Profion safonedig mewn darllen a rhifedd o fis Mai 2013<br>Grant Amddifadedd Disgyblion (LA/D) | Cyflwyno Asesu Cyfathrebu gan ddefnyddio Lefelau Dilyniant<br>Rhaglen DPP Deall Anawsterau mewn Datblygiad Darllen 2012-15 | Cyflwynwyd hunanarfarniad systematig mewn ysgolion<br>Cyflwynwyd mwy o amser ar gyfer llythrennedd a phrofion safonedig | - |

| Blwyddyn ysgol | Oedran carfan PISA hydref | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon | Gweriniaeth Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2013** | **10-11** | - | Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn statudol Medi 2013 (L&N) | Rhaglen Nodwedd Llythrennedd & Rhifedd 2013-15<br>Hybu Gwelliant mewn Saesneg a Mathemateg 2013-15 | - | - |
| **2014** | **11-12** | Cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer y mwyafrif o bynciau (L&N) | - | - | Cyflwynwyd Cylch Iau Newydd | - |
| **2015** | **12-13** | Dysgu'r TGAU diwygiedig am y tro cyntaf<br>Cynllun Adrannol Sengl DfE 2015 (wedi'i dynnu'n ôl 2017) | Rhaglenni astudio diwygiedig ar gyfer Saesneg, Cymraeg a mathemateg (L&N) | - | - | - |
| **2016** | **13-14** | Cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig Saesneg (L&N)<br>Lansio ardaloedd cyfle | - | - | Cynllun Gweithredu ar gyfer Addysg 2016-2019 | Fframwaith Gwella Cenedlaethol<br>Cyflwyno Rhagoriaeth ac Ecwiti (LA/D)<br>Arolwg Llythrennedd a Rhifedd yr Alban wedi dod i ben |

| Blwyddyn ysgol | Oedran carfan PISA hydref | Lloegr | Cymru | Gogledd Iwerddon | Gweriniaeth Iwerddon | Yr Alban |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2017** | **14-15** | Mesur perfformiad Progress 8<br>Unlocking Talent, Fulfilling Potential (LA/D)<br>Cronfa Strategol Gwella Ysgolion (hyd 2018)<br>Cronfa Arloesi Addysgu ac Arweinyddiaeth (hyd 2020) | Cynllun Gweithredu y Gymraeg mewn Addysg Rhagfyr 2017 | - | Cynllun DEIS 2017 (diwygiedig) (LA/D) | Cyflwynwyd Asesiadau Safonedig Cenedlaethol yr Alban (P1, P4, P7, S3) nas defnyddiwyd y tu hwnt i 2018 |
| **2018** | **15-16** | - | - | - | - | - |

## Atodiad 5 - Cywerthedd oedran a blwyddyn ysgol disgyblion yng ngwledydd y DU a Gweriniaeth Iwerddon

| Oed mewn blynyddoedd | Cymru a Lloegr | Yr Alban a Gogledd Iwerddon | Gweriniaeth Iwerddon |
|---|---|---|---|
| **4-5** | Derbyn | Cynradd 1 | Babanod |
| **5-6** | Blwyddyn 1 | Cynradd 2 | Babanod Hŷn |
| **6-7** | Blwyddyn 2 | Cynradd 3 | Dosbarth 1af |
| **7-8** | Blwyddyn 3 | Cynradd 4 | $2^{il}$ Ddosbarth |
| **8-9** | Blwyddyn 4 | Cynradd 5 | $3^{ydd}$ Dosbarth |
| **9-10** | Blwyddyn 5 | Cynradd 6 | $4^{ydd}$ Dosbarth |
| **10-11** | Blwyddyn 6 | Cynradd 7 | $5^{ed}$ Dosbarth |
| **11-12** | Blwyddyn 7 | Uwchradd 1 | $6^{ed}$ Dosbarth |
| **12-13** | Blwyddyn 8 | Uwchradd 2 | Blwyddyn 1af |
| **13-14** | Blwyddyn 9 | Uwchradd 3 | $2^{il}$ Flwyddyn |
| **14-15** | Blwyddyn 10 | Uwchradd 4 | $3^{edd}$ Flwyddyn |
| **15-16** | Blwyddyn 11 | Uwchradd 5 | $4^{edd}$ Flwyddyn |

# Tystiolaeth o ragoriaeth mewn addysg

**CYFRINACHOL**

© 2020 Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg 2020

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu na throsglwyddo unrhyw ran o'r ddogfen hon ar unrhyw ffurf na thrwy unrhyw fodd, electronig, mecanyddol, llungopïo, neu fel arall, heb ganiatâd ysgrifenedig NFER ymlaen llaw.

The Mere, Upton Park, Slough, Berks SL1 2DQ
Ff: +44 (0)1753 574123 • Ff: +44 (0) 1753 691632 • ymholiadau@nfer.ac.uk

**www.nfer.ac.uk.**

**NFER cyf. LFOC**

**ISBN: 978-1-912596-42-3**